


Adroddiad ynghylch Sefydlogrwydd y Farchnad Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru

Chwefror 2022



Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru
West Wales Care Partnership

Cyflawni Newid Gyda'n Gilydd
Delivering Change Together

Adroddiad ynghylch Sefydlogrwydd y Farchnad (v12) Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru

Cynnwys

1	Cyflwyniad	6
1.1	Diben	6
1.2	Cwmpas	6
1.3	Cyd-destun	7
2	Ymagwedd a Dulliau.....	11
2.1	Y Côt Ymarfer.....	11
3	Strwythur yr Adroddiad.....	14
4	Trosolwg o'r Farchnad.....	15
4.1	Ailgydbwyso	16
5	Asesiad o Ddigonolrwydd: Rhan A	17
6	Asesiad Sefydlogrwydd: Rhan B	22
6.1	Cartrefi gofal i blant a phobl ifanc	22
6.1.1	Digonolrwydd	22
6.1.2	Ansawdd a Dewis	23
6.1.3	Tueddiadau	23
6.1.4	Heriau a Chyfleoedd	24
6.1.5	Effaith Comisiynu	24
6.1.6	Problemau ac Argymhellion	25
6.2	Maethu	26
6.2.1	Digonolrwydd	26
6.2.2	Ansawdd a Dewis	27
6.2.3	Tueddiadau	27
6.2.4	Heriau a Chyfleoedd	28
6.2.5	Effaith Comisiynu	28
6.2.6	Problemau ac Argymhellion	29
6.3	Gwasanaethau Mabwysiadu	30
6.3.1	Digonolrwydd	30
6.3.2	Ansawdd a Dewis	30
6.3.3	Tueddiadau	31
6.3.4	Heriau a Chyfleoedd	31

6.3.5	Effaith Comisiynu	31
6.3.6	Problemau ac Argymhellion	31
6.4	Llety Diogel.....	32
6.4.1	Digonolrwydd	32
6.4.2	Ansawdd a Dewis	32
6.4.3	Tueddiadau	33
6.4.4	Heriau a Chyfleoedd	33
6.4.5	Effaith Comisiynu	33
6.4.6	Problemau ac Argymhellion	33
6.5	Canolfannau Preswyl i Deuluoedd	33
6.5.1	Digonolrwydd	33
6.5.2	Ansawdd a dewis.....	34
6.5.3	Tueddiadau	34
6.5.4	Heriau a Chyfleoedd	34
6.5.5	Effaith Comisiynu	34
6.5.6	Problemau ac Argymhellion	34
6.6	Gwasanaethau Eiriolaeth Plant	34
6.6.1	Digonolrwydd	35
6.6.2	Ansawdd a dewis	35
6.6.3	Tueddiadau	35
6.6.4	Heriau a Chyfleoedd	36
6.6.5	Effaith Comisiynu	36
6.6.6	Problemau ac Argymhellion	36
6.7	Gwasanaethau Lleoli Oedolion.....	36
6.7.1	Digonolrwydd	36
6.7.2	Ansawdd a dewis	37
6.7.3	Tueddiadau	37
6.7.4	Heriau a Chyfleoedd	37
6.7.5	Effaith Comisiynu	38
6.7.6	Problemau ac Argymhellion	38
6.8	Cartrefi Gofal ar gyfer Oedolion o Oedran Gweithio	38
6.8.1	Digonolrwydd	39
6.8.2	Ansawdd a Dewis	40
6.8.3	Tueddiadau	40
6.8.4	Heriau a Chyfleoedd	41
6.8.5	Effaith Comisiynu	41
6.8.6	Problemau ac Argymhellion	42
6.9	Gwasanaethau Gofal Cartref.....	43

6.9.1	Digonolrwydd	43
6.9.2	Ansawdd a Dewis	45
6.9.3	Tueddiadau	45
6.9.4	Heriau a chyfleoedd	46
6.9.5	Effaith Comisiynu	47
6.9.6	Problemau ac Argymhellion	47
6.10	Cartrefi Gofal ar gyfer Pobl Hŷn	48
6.10.1	Digonolrwydd	48
6.10.2	Ansawdd a Dewis	48
6.10.3	Tueddiadau.....	49
6.10.4	Heriau	50
6.10.5	Effaith Comisiynu.....	51
6.10.6	Problemau ac Argymhellion.....	51
7	Opsiynau ledled y Rhanbarth	52
7.1	Canolbwyntio ar ansawdd a chanlyniadau	52
7.2	Buddsoddi mewn Gofalwyr Di-dâl	52
7.3	Buddsoddi mewn atal ac ymyrraeth gynnar.....	53
7.4	Ail-ddarparu gwasanaethau.....	53
7.5	Ad-drefnu gwasanaethau	54
7.6	Datblygu gwasanaethau newydd.....	54
7.7	Gwella comisiynu rhanbarthol ar gyfer gwasanaethau arbenigol	55
7.8	Ailgydbwyso'r farchnad.....	55
7.9	Adeiladu capasiti'r gweithlu	56
7.10	Methodoleg Ffioedd	56
7.11	Cefnogi hyder y farchnad	57
7.12	Ailgychwyn y gwaith a ohiriwyd gan y pandemig.....	57
7.13	Buddsoddi mewn Arloesedd Technoleg	58
8	Casgliad – Galwad i Weithredu	59
Atodiad 1: Asesiadau Digonolrwydd Llawn.....		60
1	Plant a Phobl Ifanc	60
1.1	Edrych yn ôl.....	60
1.2	Edrych ymlaen.....	61
1.3	Problemau a Bylchau	62
2	Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol	63
2.1	Edrych yn ôl.....	64
2.2	Edrych ymlaen.....	64
2.3	Problemau a Bylchau	65
3	Gofalwyr (gan gynnwys gofalwyr ifanc di-dâl)	65

3.1	Edrych yn ôl.....	66
3.2	Edrych ymlaen.....	67
3.3	Problemau a Bylchau	68
4	Anableddau Dysgu	69
4.1	Edrych yn ôl.....	69
4.2	Edrych ymlaen.....	70
4.3	Problemau a Bylchau	71
5	Awtistiaeth	71
5.1	Edrych yn ôl.....	72
5.2	Edrych ymlaen.....	72
5.3	Problemau a Bylchau	72
6	Iechyd Meddwl	73
6.1	Edrych yn ôl.....	73
6.2	Edrych ymlaen.....	74
6.3	Problemau a Bylchau	75
7	Iechyd ac Anabledd Corfforol	76
7.1	Edrych yn ôl.....	76
7.2	Edrych ymlaen.....	77
7.3	Problemau a Bylchau	78
8	Nam ar y Synhwyrâu	78
8.1	Edrych yn ôl.....	78
8.2	Edrych ymlaen.....	79
8.3	Problemau a Bylchau	79
9	Dementia	80
9.1	Edrych yn ôl.....	80
9.2	Edrych ymlaen.....	80
9.3	Problemau a Bylchau	81
10	Pobl Hŷn	81
10.1	Edrych yn ôl	81
10.2	Edrych ymlaen	82
10.3	Problemau a Bylchau	84
	Atodiad Technegol.....	85
1	Croestoriad.....	85
1.1	Data Demograffig	85
1.2	Canllawiau	86
1.3	Ffynonellau Data Allweddol	86
1.4	Dogfennau Rhanbarthol	86
1.5	Darllen Pellach a Chefnidir	86

2	Pobl Hŷn.....	87
2.1	Data Demograffig	87
2.2	Tueddiadau mewn gweithgarwch, gallu a gwariant	88
2.2.1	Gofal Cartref	88
2.2.2	Cartrefi Gofal ar gyfer Pobl Hŷn	90
2.2.3	Adroddiadau Maes Blaenoriaeth Gofal Cymdeithasol Cymru	95
2.2.4	Darllen Pellach a Chefndir	95
3	Oedolion o Oedran Gweithio	96
3.1	Data Demograffig	96
3.2	Tueddiadau mewn gweithgarwch, gallu a gwariant	96
3.3	Dogfennau Rhanbarthol	100
3.4	Darllen Pellach a Chefndir	100
4	Plant a Phobl Ifanc	101
4.1	Data Demograffig	101
4.2	Tueddiadau mewn gweithgarwch, gallu a gwariant	101
4.3	Dogfennau Rhanbarthol	105
4.4	Adroddiadau Maes Blaenoriaeth Gofal Cymdeithasol Cymru.....	106
4.5	Darllen Pellach a Chefndir	106

1 Cyflwyniad

1.1 Diben

Dyma'r adroddiad rhanbarthol cyntaf ynghylch Sefydlogrwydd y Farchnad (MSR) ar gyfer Gorllewin Cymru. Ei ddiben yw:

- asesu'r farchnad ar gyfer gwasanaethau i unigolion sydd angen gofal a chymorth a'u gofalwyr,
- llywio camau gweithredu, ac yn y pen draw,
- gwella canlyniadau i bobl.

Cafodd yr MSR ei gomisiynu gan Bartneriaeth Gofal Gorllewin Cymru sy'n tynnu partneriaid ynghyd o lywodraeth leol, y gwasanaeth iechyd, y trydydd sector a'r sector annibynnol, ynghyd â defnyddwyr a gofalwyr, gyda'r nod o drawsnewid gwasanaethau gofal a chymorth yn y rhanbarth.

Cyflwynwyd y ddyletswydd gyfreithiol i baratoi MSR gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, er mwyn cydnabod bod y ffordd y darperir gwasanaethau gofal cymdeithasol wedi newid yn ddramatig dros y degawdau diwethaf. Bellach caiff llai eu darparu'n uniongyrchol gan gyrff y sector cyhoeddus, a darperir gwasanaethau yn awr gan gymysgedd gymhleth o ddarparwyr annibynnol, cyhoeddus, a gwirfoddol. Yn aml caiff y rhain eu comisiynu a'u hariannu gan awdurdodau lleol a byrddau iechyd, ond weithiau cânt eu prynu gan bobl eu hunain, naill ai drwy Daliadau Uniongyrchol neu eu harian eu hunain os nad ydynt yn gymwys i gael gofal a ariennir gan y wladwriaeth. Mae'r gymysgedd o ddarpariaeth yn amrywio ar draws awdurdodau lleol a mathau o wasanaeth, gan greu sefyllfa gymhleth i bobl sy'n ceisio dod o hyd i'r gofal cywir.

Mae manteision posibl yn perthyn i'r newid tuag at farchnad gymysg ar gyfer gofal, gan gynnwys mwy o ddewis, cystadleuaeth, ac arbedion maint. Fodd bynnag mae cymhlethdod a risgiau newydd wedi deillio o hynny hefyd - megis methiant posibl yn y farchnad neu ddarparwyr unigol yn gadael, bylchau yn y ddarpariaeth ac anghydbwysedd yn y farchnad. Os nad eir i'r afael â'r pethau hyn, gallai hynny olygu na fydd gofal digonol o'r safon a'r gost briodol ar gael yn y dyfodol. Felly mae Llywodraeth Cymru wedi deddfu ar gyfer cyfrifoldebau llunio'r farchnad cryfach yn achos sefydliadau comisiynu, gan gynnwys y gofyniad i gynhyrchu MSR cynhwysfawr bob pum mlynedd ochr yn ochr ag Asesiadau o Anghenion y Boblogaeth (PNAs¹).

1.2 Cwmpas

Mae'r MSR hwn yn cwmpasu Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, a Sir Benfro, sef ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Cymru Hywel Dda. Yn unol â'r [Cod Ymddygiad](#) cenedlaethol mae'n cynnwys dau asesiad rhyng-gysylltiedig:

- digonolrwydd gwasanaethau gofal a chymorth,
- a sefydlogrwydd y farchnad ar gyfer gwasanaethau a reoleiddir

¹Ni ddylid drysu hyn â'r Asesiad o Anghenion Fferyllol

Mae'r Asesiad Digonolrwydd yn cwmpasu'r holl grwpiau poblogaeth sydd wedi'u cynnwys yn y PNA - sef:

- Plant a phobl ifanc (gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal)
- Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol
- Gofalwyr (gan gynnwys gofalwyr ifanc di-dâl)
- Anabledau Dysgu
- Awtistiaeth
- Iechyd Meddwl
- Iechyd ac Anabledau Corfforol
- Nam ar y Synhwyr
- Dementia
- Pobl Hŷn

Mae'r Asesiad Sefydlogrwydd yn cwmpasu'r holl wasanaethau a reoleiddir gan Arolygiaeth Gofal Cymru, sef:

- Cartrefi gofal ar gyfer plant a phobl ifanc
- Maethu
- Mabwysiadu
- Llety diogel
- Canolfannau preswyl i deuluoedd
- Gwasanaethau eiriolaeth i blant
- Gwasanaethau lleoli oedolion
- Cartrefi gofal i oedolion o oedran gweithio
- Gofal cartref
- Cartrefi gofal ar gyfer pobl hŷn

Nid yw gwasanaethau Byw â Chymorth yn cael eu rheoleiddio fel y cyfryw, ond mae'r gofal a ddarperir yn cael ei reoleiddio fel gofal cartref. Felly, maent wedi'u cynnwys naill ai yn yr adrannau digonolrwydd ar gyfer grwpiau poblogaeth perthnasol neu'r adran sefydlogrwydd gofal cartref.

Mantais asesu gofal a chymorth o'r ddau safbwynt rhyng-gysylltiedig hyn yw na ellir deall yn ddigonol ofynion y gwasanaethau a reoleiddir yn y dyfodol os na roddir ystyriaeth iddynt yng nghyd-destun gwedd ehangach gwasanaethau a chymorth.

1.3 Cyd-destun

Mae'r MSR hwn wedi'i ddatblygu adeg y **pandemig** gwaethaf ers dros ganrif sydd wedi **effeithio'n fawr ar bobl sydd angen gofal a'r rhai sy'n gofalu amdanynt** - boed yn ddi-dâl neu am dâl. Effeithiwyd yn ddifrifol ar ddarparwyr gwasanaethau hefyd ac mae'r pwysau sydd ar y gweithlu wedi gwaethygu'n sylweddol. Mae heriau'r pandemig wedi achosi llawer o ansicrwydd yn y marchnadoedd gofal - sy'n golygu bod yr MSR hwn yn amserol ac yn hanfodol iawn o ran pennu cyfeiriad Rhanbarth Gorllewin Cymru, er mwyn mynd, ar frys ac ar y cyd, i'r afael â sefydlogrwydd a digonolrwydd y farchnad.

Mae'r sector hefyd wedi bod yn delio â **heriau systematig hanesyddol** sydd bellach yn cael eu dwysáu² o ganlyniad i'r pandemig. Dros y degawd diwethaf, mae cyni cyllidol ar draws y gwasanaethau cyhoeddus wedi ychwanegu at y pwysau sydd ar y gwasanaethau gofal cymdeithasol. Mae llai o arian ar gyfer awdurdodau lleol a gwahanol flaenoriaethau wedi cyfyngu ar y cyfraddau y gall awdurdodau lleol (a'r Bwrdd Iechyd) eu talu am ofal, ac wedi rhoi pwyslais anghymesur ar yr economi yn hytrach nag ar ansawdd a gwell canlyniadau. Mae darparwyr (yn enwedig y rhai sy'n rhedeg cartrefi gofal i bobl hŷn) wedi dweud nad yw prisiau wedi cadw i fyny â'u costau, a bod eu hanallu i roi cyflog cystadleuol i staff yn cynyddu'r pwysau parhaus sydd ar y gweithlu.

Mae pwysau parhaus ar gyllidebau'r sector cyhoeddus wedi effeithio **ar allu comisiynwyr i flaenoriaethu buddsoddiad mewn gwasanaethau a chymorth ataliol yn y gymuned**. Yn 2018, nododd Ymchwiliad Pwyllgor Cyllid Llywodraeth Cymru i "Y gost o ofalu am boblogaeth³ sy'n heneiddio"; "*mae'r dystiolaeth yn dangos bod pwysau ariannol, ynghyd â phoblogaeth gynyddol, yn arwain at ddiffyg ariannol*", mae Comisiynwyr hefyd wedi dweud bod prisiau lleoliadau mewn lleoliadau gofal i blant ac oedolion o oedran gweithio hefyd yn cynyddu. Mae adnoddau prin wedi'u defnyddio i dalu am leoliadau mewn gwasanaethau statudol ar draul cymorth ataliol, gan roi bod i ragor o anghenion nad ydynt yn cael eu diwallu a chynyddu'r duedd tuag at gymhlethdod cynyddol gan nad yw anghenion yn cael sylw'n gynnar.

Er bod yr heriau hyn yn gymharol gyffredin ar draws pob rhanbarth, mae gan Orllewin Cymru nodweddion arbennig sy'n dwysáu'r heriau hyn yn lleol. Yn gyntaf, **mae Gorllewin Cymru yn wledig yn bennaf** - ac yn cyfrif am tua chwarter Cymru, ond dim ond 12% o boblogaeth Cymru (389,719) sy'n byw yno⁴. Yn ail, **mae'r boblogaeth o oedran gweithio yn gostwng, tra bo mwy a mwy o bobl hŷn** yn ymddeol i'r rhanbarth ac oedolion yn byw'n hirach gyda chyflyrau iechyd ac Anableddau Dysgu. Mae'r ddwy agwedd hon yn cael dylanwad sylweddol ar y farchnad gofal lleol, yn benodol:

- cost a logisteg ychwanegol darparu gwasanaethau mewn cymunedau ynysig, a
- chynnydd yn y galw am iechyd a gofal fel bo'r gweithlu posibl a nifer y gofalywyr yn lleihau.

Mae gan Orllewin Cymru gyfran lawer uwch o siaradwyr Cymraeg na'r cyfartaledd cenedlaethol, ac roedd 37% o bobl dros dair oed yn siarad Cymraeg yn 2011: bron i ddwywaith y ffigur cenedlaethol o 19%. Mae gan Sir Gaerfyrddin fwy o siaradwyr Cymraeg nag unrhyw sir arall yng Nghymru (ychydig dros 78,000), ac yng Ngheredigion mae'r gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg yn y rhanbarth, 47%, sef y gyfran drydedd uchaf yng Nghymru (mae gan y sir ychydig dan 35,000 o siaradwyr Cymraeg). Mae'r gyfran yn is yn Sir Benfro, lle gall 19% o'r boblogaeth siarad Cymraeg (ychydig o dan 23,000 o bobl). Felly, mae'n hynod bwysig fod pobl yn gallu cael gafael ar wasanaethau yn eu cymunedau lleol a thrwy gyfrwng y Gymraeg os dymunant⁵.

Y cyd-destun polisi cenedlaethol ehangach yw un o **ymgyrch hirdymor i helpu pobl i fyw'n annibynnol yn y gymuned a lleihau dibyniaeth ar ofal preswyl**, fel y disgrifir ym mhapur polisi Llywodraeth Cymru "Cymru Iachach". Mae hyn yn berthnasol ar draws

²<https://www.kingsfund.org.uk/publications/covid-19-magnified-social-care-problems>

³ <https://senedd.wales/laid%20documents/cr-ld11773/cr-ld11773-e.pdf>

⁴ Amcangyfrifon Poblogaeth 2020, StatsCymru

⁵ Bydd data o Gyfrifiad 2021 yn dechrau cael ei gyhoeddi o fis Mawrth 2022

grwpiau poblogaeth ac mae wedi'i ysgogi gan ddisgwyliadau newidiol y cyhoedd, yn ogystal ag ymwybyddiaeth na fydd gwasanaethau gofal cymdeithasol, gyda phoblogaeth sy'n heneiddio'n gyflym, yn gynaliadwy heb well atal a chymorth cymunedol. I blant, mae pwyslais tebyg ar atal a galluogi plant i fyw'n ddiogel gyda'u teuluoedd eu hunain lle bynnag y bo modd.

Mae atal ac ymyrraeth gynnar yn elfennau allweddol o'r agenda llesiant - fel y nodwyd yn Neddff Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac yn fwy diweddar yng nghynllun Cymru Iachach Llywodraeth Cymru a ddiweddarwyd yn 2021⁶. Mae'r ddau yn ceisio gwella canlyniadau i bobl drwy fynd i'r afael â'r heriau cenedlaethol hirdymor fel annhegwch ym maes iechyd, heneiddio a newid yn yr hinsawdd mewn ffyrdd sydd o fudd i genedlaethau'r dyfodol yn ogystal â'r boblogaeth bresennol. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn pennu nodau hirdymor uchelgeisiol ar gyfer Cymru, ac yn ei gwneud yn ofynnol i bob ardal gynhyrchu asesiadau llesiant a chynlluniau llesiant lleol.

Yn y cyd-destun hwn, nodir bod Ceredigion newydd lansio ei "Strategaeth Gydol Oed a Llesiant 2021-2027"⁷, sy'n nodi cynlluniau i gynllunio a darparu gwasanaethau yn seiliedig ar fywyd unigolion yn hytrach nag yn ôl categorïau oedran. Gall y dull hwn gynnig mwy o barhad o ran cefnogi pobl i fod yn wydn a chadw eu hannibyniaeth yn eu cartrefi eu hunain.

Mae **cyfraniad gofalwyr di-dâl** yn agwedd bwysig ar sefydlogrwydd a digonolrwydd y farchnad ranbarthol. Gan adeiladu ar y weledigaeth ar gyfer 'Cymru Iachach', cafodd Strategaeth genedlaethol ar gyfer Gofalwyr Di-dâl ei lansio ym mis Mawrth 2021, a oedd yn ymrwmo i *"gynnwys yr agweddau ataliol... yn fwy effeithiol mewn gwasanaethau cyhoeddus a symud darparwyr allweddol gwasanaethau, gan gynnwys y trydydd sector, tuag at fodel gwell o gymorth i ofalwyr di-dâl."* Adlewyrchir y thema hon drwy gydol yr MSR hwn.

Mae **partneriaeth a chydweithio** yn thema allweddol arall. Sefydlwyd Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i gydnabod mai'r ffordd orau o sicrhau canlyniadau da i bobl yw drwy wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig - gyda phartneriaid yn rhannu gweledigaeth ac agenda gyffredin, gan gydweithio'n dda ar lefel leol ac ar draws y rhanbarth. Mae'r gofynion i gynhyrchu PNAs ac Asesiadau Llesiant a oruchwylir gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus lleol yn rhan o'r system hon o drefniadau partneriaeth, fel y mae'r MSRs wrth gwrs.

Ym mis Ionawr 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Bapur Gwyn yn nodi uchelgais i **ailgydbwyso gofal a chymorth**. Mae 'Ailgydbwyso' yn cynnwys ymrwymiad clir i **economi gymysg o ddarpariaeth** 'fel nad oes gorddibyniaeth ar y sector preifat (yn cynnwys y sector elusennol a gwirfoddol), na monopoli i'r cyfeiriad arall', ond fe'i diffinnir yn fwy bras fel cyfres o ddisgrifiydion o'r newid i'r system a geisir:

⁶ <https://gov.wales/healthier-wales-long-term-plan-health-and-social-care>

⁷ [Strategaeth Gydol Oed a Llesiant](#) Ceredigion

Mae Ailgydbwyso yn golygu...

...Oddi wrth gymhlethdod. Tuag at symleiddio.
Oddi wrth bris. Tuag at ansawdd a gwerth cymdeithasol.
Oddi wrth gomisiynu adweithiol. Tuag at reoli'r farchnad.
Oddi wrth ymarfer seiliedig ar dasgau. Tuag at ymarfer seiliedig ar ganlyniadau.
Oddi wrth ffocws sefydliadol. Tuag at bartneriaeth effeithiol...

...i gydgyhyrchu gwe canlyniadau gyda phobl¹.

Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn mynd ymhellach mewn perthynas â gwasanaethau plant, gan ymrwymo i 'ddileu elw preifat o ofal plant sy'n derbyn gofal yn ystod tymor nesaf y Senedd' (2026-31). Er bod y cyfeiriad wedi'i nodi, arhosir am ragor o fanylion am sut y caiff hyn ei gyflawni, a'r agenda ailgydbwyso ehangach. Yn y cyfamser, mae'r MSR hwn yn gyfle i bwysu a mesur y marchnadoedd gofal a chymorth yng Ngorllewin Cymru ac i asesu i ba raddau y mae angen ailgydbwyso.

2 Ymagwedd a Dulliau

Mae'r MSR hwn wedi'i lunio gan bum prif ffynhonnell o dystiolaeth;

- Dadansoddiad o ddata, o ffynonellau cyhoeddedig a chasgliadau data pwrpasol gan y tair sir a Bwrdd Iechyd Hywel Dda.
- Adolygiad o ddogfennau polisi, strategaethau, a chynlluniau allweddol.
- Arolygon o ddarparwyr (a wnaed yn ddwyieithog ar-lein).
- Cyfweiliadau a grwpiau ffocws gyda chomisiynwyr a darparwyr.
- Gwybodaeth o'r rhaglen ymgysylltu i lywio'r Aseidiadau PNA a Llesiant, gan gynnwys ymgysylltu â dinasyddion, unigolion ag anghenion gofal a chymorth a'u gofalwyr.

Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn darparu sylfaen dystiolaeth gref. Mae gweithio gyda'r timau sy'n gyfrifol am y PNA a'r Aseidiadau Llesiant wedi helpu i wneud y mwyaf o synergeddau ac osgoi dyblygu.

Cynhaliwyd yr asesiad o gartrefi gofal i bobl hŷn yn gyntaf ac roedd yn ystyried sefydlogrwydd a digonolrwydd y rhan hon o'r farchnad. Roedd hwn yn gyfle i dreialu rhai o'r dulliau a gyflwynwyd wedyn ar draws mathau eraill o wasanaethau a reoleiddir. Mae IPC hefyd yn gwneud gwaith tebyg mewn rhannau eraill o Gymru a'r DU gan ddarparu pwynt cyfeirio gwerthfawr a dealltwriaeth gyffredinol gyfoethocach o'r marchnadoedd a'r dulliau comisiynu.

2.1 Y Côt Ymarfer

Mae'r MSR hwn wedi'i strwythuro yn unol â'r Côt Ymarfer.


Mae'r Côt Ymarfer yn nodi:

“Bod adroddiadau sefydlogrwydd y farchnad wedi'u dylunio i fwrw golwg gyffredinol ac asesiad lefel uchel ar ddigonolrwydd cyffredinol gofal a chymorth, a sefydlogrwydd y farchnad ar gyfer gwasanaethau a reoleiddir⁸”.

Yn bwysig ddigon, mae'r Côt Ymarfer yn cydnabod y bydd angen o hyd am Ddatganiadau Sefyllfa'r Farchnad manylach a strategaethau comisiynu ar gyfer gwasanaethau a rhannau penodol o'r farchnad.

Mae elfen ddigonolrwydd yr MSR yn gorgyffwrdd yn fwriadol â'r PNA fel y nodir yn ddefnyddiol yn y diagram isod sy'n cael ei gymryd yn uniongyrchol o'r Côt Ymarfer:

⁸Y Côt Ymarfer a'r canllawiau ar gyflawni swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol a threfniadau partneriaeth mewn perthynas ag adroddiadau sefydlogrwydd y farchnad, paragraff 3.16



*ASF – Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad

**AAB – Asesiad o Anghenion y Boblogaeth

***Gofyniad statudol o dan Ddeddf 2014.

Mae'r Côd Ymarfer hefyd yn cynnwys diffiniadau defnyddiol o ddigonolrwydd a sefydlogrwydd sydd wedi'u mabwysiadu wrth ddatblygu'r MSR hwn.

Diffinnir 'Digonolrwydd' gan ddefnyddio diffiniadau geiriadur safonol:

- *an amount of something that is good enough for a particular purpose (Cambridge Dictionary)*
- *the condition or quality of being sufficient for its purpose or for the end in view (Oxford English Dictionary)⁹*

Fel sy'n glir yn ôl y diffiniadau hyn, mae digonolrwydd yn ymwneud â maint y ddarpariaeth sydd ei hangen i ddiwallu anghenion **ac** ansawdd y ddarpariaeth hon.

Gan fynd â hyn ymhellach, at ddibenion yr MSR hwn, mae'r agweddau canlynol fel y nodwyd nhw yn y Côd Ymarfer wedi cael eu hystyried i asesu digonolrwydd:

- **Dewis o Wasanaethau:** A oes dewis o ran pa wasanaethau sydd ar gael i fodloni dewisiadau ac anghenion personol?
- **Mynediad i Wasanaethau:** A oes gwasanaethau ar gael yng nghymunedau pobl neu o fewn pellter teithio rhesymol? A oes gwasanaethau mwy arbenigol wedi'u lleoli o fewn ffiniau'r awdurdod lleol, yng Ngorllewin Cymru, neu yng Nghymru?

⁹Fel yr uchod, paragraff 4.9

- **Y Gwasanaethau sydd ar gael:** O fewn yr ystod hon o wasanaethau, a oes llefydd gwag neu restrau aros?
- **Fforddiadwyedd Gwasanaethau:** A yw prisiau gofal a chymorth yn fforddiadwy o fewn cyllidebau? Sut mae cyfraddau ar gyfer hunan-arianwyr yn cymharu ac a ydynt yn fforddiadwy?
- **Yr Iaith Gymraeg:** A yw'r gwasanaethau ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg?
- **Ansawdd y Gwasanaethau:** Beth mae defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr yn ei feddwl am ansawdd y gwasanaethau sydd ar gael? Beth mae tystiolaeth monitro ac arolygu yn ei ddweud wrthym?

Mae'r Côd Ymarfer yn diffinio sefydlogrwydd y farchnad drwy gyfres o nodweddion marchnad sy'n gweithio'n dda ar gyfer gofal a chymorth:

- Bod y galw a'r cyflenwad yn gytbwys ar y cyfan – h.y. digon o ofal a chymorth o ansawdd da ar gael i ateb y galw.
- Bod amryw ddarparwyr ac elfen o gystadleuaeth, heb orddibyniaeth ar unrhyw un darparwr neu sector.
- Bod gan unigolion sydd angen gofal a chymorth lais a dewis go iawn ynghylch sut y caiff eu hanghenion gofal a chymorth eu diwallu, a bod darparwyr yn gallu ymateb yn rhwydd i'r galw a'r disgwyliadau newidiol.
- Bod darparwyr yn gallu cael gafael ar wybodaeth ddibynadwy am y farchnad er mwyn cynllunio ar gyfer y dyfodol a gwneud buddsoddiadau.
- Bod cydbwysedd iachus a chystadleuol rhwng pris ac ansawdd.
- Bod lefelau digonol o staff sydd wedi'u hyfforddi a'u cymell yn briodol yn darparu gofal a chymorth o ansawdd da ar draws darparwyr.
- Bod comisiynwyr a phrynwyr yn hyderus bod darparwyr yn hyfyw yn ariannol ac yn gynaliadwy, a bod unrhyw risgiau wedi'u nodi'n glir.
- Bod darparwyr yn cyrraedd ac yn gadael y farchnad mewn modd trefnus heb fod unigolion sydd angen gofal a chymorth dan anfantais.
- Bod y farchnad yn ddigon cadarn i wrthsefyll ergydion, a bod cynlluniau wrth gefn ar waith fel gall y farchnad ymateb yn effeithiol pan fydd darparwyr (yn enwedig darparwyr mawr neu arbenigol) yn methu neu'n profi anawsterau gweithredol.

Bydd yr MSR hwn yn helpu comisiynwyr ac eraill ar draws Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru i nodi risgiau a chyfleoedd a mynd i'r afael â chynllunio cydweithredol strategol wrth gefnogi digonolrwydd a sefydlogrwydd y farchnad wrth symud ymlaen.

3 Strwythur yr Adroddiad

Mae strwythur yr adroddiad hwn yn dilyn y Côt Ymarfer ac wedi'i gynllunio i sicrhau bod y ddau asesiad – digonolrwydd a sefydlogrwydd - yn cyd-fynd â'i gilydd a'r PNA.

Mae'r adroddiad hwn yn dechrau gyda throsolwg o'r marchnadoedd gofal a chymorth yn y rhanbarth, gan dynnu sylw at themâu a materion allweddol a nodir yn yr asesiadau manwl.

Rhan A: yn crynhoi'r asesiad digonolrwydd sy'n nodi'r materion a'r bylchau a nodwyd ar gyfer pob grŵp poblogaeth naill ai yn y PNA neu yn yr ymchwil ar gyfer yr MSR hwn. Ni ellir llunio barn gytbwys am ddigonolrwydd gwasanaethau a reoleiddir heb y darlun ehangach hwn o'r gofal a'r cymorth sydd ar gael. Mae'r asesiad digonolrwydd llawn ar gyfer yr MSR hwn i'w weld yn **Atodiad 1**. Mae hyn yn cwmpasu gofynion manwl y Côt Ymarfer.

Rhan B: Mae'r **asesiad sefydlogrwydd** yn cynnwys gwasanaethau a reoleiddir gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Cyflwynir hyn yn llawn yng nghorff y ddogfen gan ei fod yn cwmpasu agweddau'r farchnad a sefydlogrwydd sy'n hanfodol i'r MSR. Fel sy'n ofynnol gan y Côt Ymarfer, mae pob asesiad sefydlogrwydd yn cwmpasu digonolrwydd y gwasanaeth rheoledig hwnnw'n fanylach.

Caiff yr asesiadau eu harchebu ar sail cwrs bywyd, o blant a phobl ifanc, i oedolion o oedran gweithio, ac, yn olaf, i bobl hŷn.

4 Trosolwg o'r Farchnad

Mae'r pandemig parhaus wedi effeithio ar bob un ohonom. Mae wedi amlygu rhai o wendidau'r system iechyd a gofal - ond mae hefyd wedi amlygu llawer o'i rinweddau, gan ddangos lefel yr ymrwymiad a'r gweithredu a draws y sector, er mwyn cefnogi pobl mewn cymunedau lleol.

Mae cyfuniad o gyngor cyllidol parhaus ac effaith eang y pandemig yn rhoi pwysau ar y system gyfan. Mae ansicrwydd yn y farchnad yn llesteirio buddsoddiad preifat ac nid yw capasiti'r gweithlu yn cyfateb i lefelau cynyddol o gymhlethdod, sy'n rhoi pwysau cynyddol ar sefydlogrwydd y farchnad.

Ar draws y gwasanaethau i oedolion, mae rhai darparwyr yn ystyried, neu wedi ystyried, dychwelyd contractau neu roi'r gorau i wasanaethau, mae rhestrau aros yn datblygu ac mae pecynnau gofal cartref yn cael eu hasesu'n dynnach. At hynny, prin yw'r mynediad at rai gwasanaethau arbenigol lleol – fel y rhai sy'n canolbwyntio ar bobl â phroblemau iechyd meddwl, ac yn hollbwysig, prinder sylweddol o ran y gweithlu ar draws pob rhan o'r farchnad gofal a chymorth.

Mae dadansoddiad a wnaed ar gyfer yr adroddiad hwn yn dangos mai'r farchnad ar gyfer gofal cartref i bobl hŷn sy'n peri'r risg fwyaf o ansefydlogrwydd yn y farchnad ar hyn o bryd, wrth i'r pwysau ar y gweithlu barhau i gynyddu a chymhlethdod yr angen gynyddu, tra bo darparwyr yn dweud bod y prisiau a delir am ofal yn annigonol i dalu staff ar gyfraddau cystadleuol. Mae'r rhan hon o'r farchnad ym mhob un o'r tair sir wedi gweld cynnydd mewn gofal cartref mewnol a chymorth ailalluogi dros y 3 blynedd diwethaf.

Fodd bynnag, mae risg gynyddol hefyd o ansefydlogrwydd yn y farchnad o fewn y farchnad cartrefi preswyl / nyrsio i bobl hŷn ledled y rhanbarth. Mae darparwyr yn wynebu pwysau sylweddol ar y gweithlu, lefelau cynyddol o gymhlethdod, costau uwch a niferoedd is. Wrth i arian ychwanegol ddiflannu'n raddol erbyn mis Mawrth 2022 (Cronfa Galedi), mae rhai darparwyr yn ystyried cau eu busnes neu leihau'r gwasanaethau sy'n cael eu cynnig. Mae gwybodaeth am y farchnad ledled Cymru yn awgrymu bod y pwysau ar ddarparwyr preswyl wedi cynyddu ers hydref 2021, ac mae problemau staffio yn golygu nad yw rhai cartrefi'n medru derbyn preswylwyr newydd.

Yn yr un modd, o ran gwasanaethau plant a gwasanaethau i oedolion o oedran gweithio, mae heriau cynyddol o ran sicrhau mynediad i'r gwasanaethau a'r cymorth cywir - gyda llawer o leoliadau'n cael eu gwneud y tu allan i'r sir (a'r rhanbarth) am gost sylweddol.

Er bod digon o leoedd mewn maethu, cartrefi plant, a chartrefi gofal ar gyfer oedolion o oedran gweithio ledled y rhanbarth yn gyffredinol, mae llawer o'r rhain yn cael eu prynu gan awdurdodau o'r tu allan i'r rhanbarth ac felly nid ydynt ar gael yn lleol yn ymarferol - gan arwain at leoliadau y tu allan i'r sir neu'r tu allan i'r rhanbarth. Mae bylchau hefyd naill ai'n ddaearyddol neu ar gyfer gwasanaethau mwy arbenigol fel dementia sy'n dechrau'n iau a Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS).

4.1 Ailgydbwysu

Ar draws pob sir, mae'r MSR wedi dangos newid dros y 3 blynedd diwethaf o ran i ba raddau y mae gwasanaethau'n cael eu gweithredu'n fewnol, yn aml fel ymateb uniongyrchol i fethiant y farchnad neu i ragweld gadael y farchnad - yn enwedig ymhlith darparwyr gofal cartref. Mae'r newid hwn yn digwydd ar adeg o drafod cenedlaethol am ailgydbwysu'r farchnad a dileu'r elfen elw wrth ddarparu gwasanaethau plant.

Mae hyd a lled y newid hwn yn gwahaniaethu ar draws y rhanbarth o ran graddfa a chyflymder. Er enghraifft, mae Ceredigion yn gweithredu ei holl wasanaethau ailalluogi yn fewnol yn ogystal â rhedeg chwe chartref gofal preswyl, tra bo Sir Gaerfyrddin wedi ehangu ei chyfran fewnol o'r farchnad gofal cartref leol yn ddiweddar i 32% o oriau wedi'u comisiynu, o gymharu ag 19% yn 2017/18. Mae Sir Benfro wedi mynd o 0% i gyfran o 17% o'i marchnad gartref mewn 3 blynedd, ac wedi mynd â'i wasanaeth ailalluogi yn gwbl fewnol yn 2019 - fel rhan o ddatblygiad ei gwasanaethau gofal canolraddol. Mae'r amrywiadau hyn yn adlewyrchu gwahanol awydd gwleidyddol am ymyrraeth yn y farchnad, yn ogystal ag amodau lleol, ond mae'r duedd ranbarthol gyffredinol yn glir.

Mae adborth gan arweinwyr a chomisiynwyr systemau yn dangos y gall gwasanaethau mewnol helpu i sicrhau mynediad i'r cymorth cywir yn lleol - er am gostau tebyg neu uwch - yn ogystal ag ychwanegu capasiti mewnol i gefnogi datblygiad y farchnad. Ar yr un pryd, cydnabyddir yn gyffredinol fod rôl y sector darparwyr annibynnol yn parhau i fod yn hollbwysig - a'r hyn sy'n allweddol i'r bartneriaeth ranbarthol, y Bwrdd Iechyd, a chynghorau sir unigol, yw penderfynu ar y **cydbwysedd gorau** rhwng darpariaeth fewnol ac annibynnol. Bydd y penderfyniad hwn yn gofyn am ymgysylltu sylweddol ar draws y system, yn cynnwys darparwyr annibynnol ac, yn bwysig, pobl leol. Mae gan bob sir ei nodweddion a'i heriau unigryw ei hun a bydd yn rhaid i'r siroedd benderfynu, ynghyd â'r Bwrdd Iechyd, ar y gymysgedd gywir o gamau gweithredu i fynd i'r afael ag ansefydlogrwydd mewn marchnadoedd gofal ac i fanteisio ar y cyfleoedd a ddaw yn sgil yr argyfwng presennol i 'ailosod' y system.

5 Asesiad o Ddigonolrwydd: Rhan A

Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb o'r problemau a'r bylchau o ran digonolrwydd gwasanaethau gofal a chymorth ar gyfer pob grŵp poblogaeth.

Grŵp Poblogaeth	Plant a Phobl Ifanc
Problemau a Bylchau	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r asesiadau Llesiant drafft yn tynnu sylw at bryderon ynghylch digonolrwydd gofal plant fforddiadwy, yn enwedig yn Sir Benfro a Cheredigion. Mae tlodi plant wedi cynyddu ar draws Gorllewin Cymru. Rhagwelir y bydd poblogaeth y plant yn gostwng ar y cyfan, ond efallai fydd y galw am gymorth a gwasanaethau arbenigol fel CAMHs a gofal preswyl, sydd eisoes yn anodd eu cyrchu'n lleol, yn cynyddu. Mae effaith hirdymor y pandemig parhaus yn ansicr iawn ond mae risg sylweddol y bydd yn niweidiol i lesiant plant a phobl ifanc, ac yn gwaethygu'r heriau presennol. Mae llais defnyddiwr, cyd-gynhyrchu ac integreiddio, gan gynnwys trosglwyddiadau mwy di-dor i wasanaethau oedolion, yn parhau i fod yn feysydd allweddol i'w datblygu.

Grŵp Poblogaeth	Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV)
Problemau a Bylchau	<ul style="list-style-type: none"> Mae nifer yr achosion o drais yn erbyn menywod wedi cynyddu yn ystod y pandemig tra bo dioddefwyr o bosibl wedi ei chael hi'n anoddach cael gafael ar wasanaethau. Mae'r trefniadau ariannu cymhleth yn risg sylweddol o ran sicrhau cymorth digonol. Mae bwlbch penodol o ran diffyg gwasanaethau i ddioddefwyr hŷn cam-drin domestig. Nododd Grŵp Strategol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV), sy'n cynnwys comisiynwyr, darparwyr a goroeswyr VAWDASV, y themâu canlynol fel bylchau neu feysydd i'w gwella <ul style="list-style-type: none"> Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc Gwasanaethau sy'n canolbwyntio mwy ar atal Sicrhau bod mewnbwn arbenigol VAWDASV ar gyfer grwpiau penodol h.y. BAME, anabledd, LGBT, pobl hŷn Adolygu'r model lloches a'r opsiynau llety Opsiynau llety a chymorth i bobl ag anghenion cymhleth sy'n herio modelau presennol Gwasanaethau yn y gymuned ar gyfer goroeswyr cam-drin a thrais rhywiol

	<ul style="list-style-type: none"> • Ymyriadau / Gwasanaethau i gyflawnwyr troseddau.
--	--

Grŵp Poblogaeth	Gofalwyr (gan gynnwys gofalwyr ifanc di-dâl)
Problemau a Bylchau	<ul style="list-style-type: none"> • Rhagwelir y bydd lefel y gofal a'r cymorth di-dâl a geisir gan ofalwyr di-dâl yn cynyddu'n sylweddol dros y 10 mlynedd nesaf wrth i'r boblogaeth heneiddio. • Mae llawer o ofalwyr eu hunain dros 65 oed ac mae 46% o ofalwyr hŷn yn darparu mwy na 50 awr o ofal yr wythnos¹⁰. • Mae hyn yng nghyd-destun y cynnydd sylweddol yn nifer y gofalwyr di-dâl sydd wedi adnabod eu hunain yn ystod y pandemig a'r straen presennol ar wasanaethau cymorth gofalwyr arbenigol i ddarparu ymateb amserol. • Mae angen gwella mynediad at wasanaethau a chymorth mewn cymunedau gwledig ar gyfer gofalwyr di-dâl a gwella lefel cynhwysiant digidol gofalwyr di-dâl. • Mae angen mwy o gymorth a gwasanaethau iechyd meddwl ac emosiynol ar ofalwyr ifanc. Mae'r pandemig wedi cael effaith negyddol sylweddol ar ofalwyr ifanc o ran teimlo'n fwy ynysig a straen iechyd meddwl / emosiynol.

Grŵp Poblogaeth	Anabledau Dysgu
Problemau a Bylchau	<ul style="list-style-type: none"> • Rhagwelir y bydd nifer y bobl ag anabledau dysgu sy'n debygol o gyflwyno eu hunain i wasanaethau iechyd a gofal yn parhau'n gymharol gyson dros y 10 mlynedd nesaf. Serch hynny mae disgwyl i nifer y bobl hŷn ag anabledau dysgu gynyddu'n sylweddol, sy'n adlewyrchu gwelliant mewn disgwyliad oes. • Mae'r asesiad o anghenion tai yn nodi'r angen am unedau ychwanegol sylweddol o lety arbenigol (cysylltu bywydau a byw â chymorth) dros y 15 mlynedd nesaf, tra bo disgwyl i nifer y lleoliadau gofal preswyl ostwng yn sylweddol. • Mae llawer o'r heriau oedd yn bodoli cyn y pandemig yn parhau ac wedi'u hamlygu yn PNAs 2017 a 2022.

¹⁰Plattform Amcanestyniadau Poblogaeth Gofal Cymdeithasol Cymru (daffodil)

Grŵp Poblogaeth	Awtistiaeth
Problemau a Bylchau	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd nifer y bobl ag awtistiaeth yn parhau'n gymharol sefydlog dros y 10 mlynedd nesaf • Nododd y PNA fod llawer o bobl ag awtistiaeth yn teimlo nad ydynt yn cael eu cefnogi – yn enwedig y sawl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig. • Mae angen gwell cyfeirio ar draws y rhanbarth, yn enwedig ar gyfer cefnogi pobl ifanc sy'n trosglwyddo i wasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion. • Amseroedd aros sylweddol ar gyfer diagnosis a mynediad cyfyngedig i wasanaethau a chymorth dilynol – yn enwedig opsiynau byw â chymorth a gwasanaethau lechyd Meddwl i bobl ifanc. Ar hyn o bryd mae 900 o oedolion a 1500 o blant ar y rhestr aros ddiagnosteg. • Nododd adroddiad y Rhwydwaith Dysgu a Gwella Tai fod galw sylweddol am dai arbenigol yn y rhanbarth ar gyfer pobl ag Anabledd Dysgu ac Awtistiaeth. • Mae'r pandemig wedi arwain at lefelau uwch o broblemau iechyd meddwl ac ynysu pellach.

Grŵp Poblogaeth	Iechyd Meddwl
Problemau a Bylchau	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r pandemig yn debygol o fod wedi cael effaith ddifrifol ar lesiant meddyliol. Mae'n anodd rhagweld yr effaith hirdymor, ond mae risg sylweddol y bydd mwy o broblemau iechyd meddwl yn deillio o'r pandemig. • Yn y cyfamser mae'r pandemig wedi tarfu ar wasanaethau ac mae mwy o amser aros i gael asesiad neu driniaeth gan CAMHs a gwasanaethau oedolion. Gallai hyn waethygu'r effaith uniongyrchol gaiff y pandemig. • Mae'r asesiad o anghenion tai yn nodi'r angen am unedau llety ychwanegol sylweddol dros y ddau ddegawd nesaf.

Grŵp Poblogaeth	Iechyd ac Anabledd Corfforol
Problemau a Bylchau	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r pandemig wedi cael effaith anghymesur ar bobl anabl a allai ddwysáu'r anghydraddoldebau presennol. Trwy ymgysylltu ynglŷn â'r PNA, amlygwyd nifer o'r rhwystrau cymdeithasol sy'n achosi anabledd, yn enwedig dyluniad adeiladau, gan gynnwys tai, a diffyg trafndiaeth gyhoeddus. Mae sicrhau mynediad i wasanaethau arbenigol i bobl ag amrywiaeth o anghenion mwy cymhleth yn arbennig o heriol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig Mae tystiolaeth am ddigonolrwydd gwasanaethau arbenigol ar gyfer cyflyrau ac anghenion penodol yn gyfyngedig ac mae angen gwneud rhagor o waith i nodi a mynd i'r afael â bylchau.

Grŵp Poblogaeth	Nam ar y Synhwyrâu
Problemau a Bylchau	<ul style="list-style-type: none"> Disgwylir i nifer y bobl â nam ar y synhwyrâu dyfu'n sylweddol wrth i'r boblogaeth heneiddio. Mae angen penodol i leihau unigedd cymdeithasol pobl â nam ar y synhwyrâu mewn cymunedau gwledig gan gynnwys gwelliannau i gymorth cymunedol a mynediad at wasanaethau arbenigol. I'r nifer gymharol fach o bobl iau sydd â nam ar y synhwyrâu, mae angen amrywiaeth o gymorth gan gynnwys offer a chynghor i ddileu rhwystrau a chynyddu cyflogaeth a chyfleoedd.

Grŵp Poblogaeth	Dementia
Problemau a Bylchau	<ul style="list-style-type: none"> Disgwylir i nifer y bobl sy'n byw â dementia gynyddu 49% erbyn 2040¹¹. Mae hwn yn ffactor pwysig o ran cymhlethdod cynyddol anghenion sy'n effeithio ar wasanaethau. Mae nifer y bobl sy'n byw gyda dementia sy'n dechrau'n ifanc yn fach, ond fel arfer mae angen gwasanaethau arbenigol arnynt nad ydynt ar gael yn lleol o bosibl. Mae diffyg cefnogaeth bwrpasol i bobl iau sy'n byw gyda dementia megis gweithgareddau grŵp neu ofal preswyl arbenigol.

¹¹Strategaeth Dementia Ddrafft Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru (WWCP)

Grŵp Poblogaeth	Pobl Hŷn
Problemau a Bylchau	<ul style="list-style-type: none"> • Disgwylir i nifer y bobl sy'n 85 oed neu'n hŷn gynyddu 27.8% erbyn 2031, tra bydd poblogaeth Gorllewin Cymru yn gyffredinol yn cynyddu 1.3% yn unig. ¹² • Mae'r boblogaeth sy'n heneiddio yn golygu y bydd galw cynyddol am wasanaethau gofal a chymorth gan gynnwys amrywiaeth eang o ddewisiadau tai. • Bydd cymhlethdod anghenion hefyd yn parhau i gynyddu wrth i nifer y bobl sy'n byw â dementia ac aml-gyflyrau cyd-forbidrwydd gynyddu. • Mae'r angen i dyfu cymorth cymunedol hyd yn oed yn fwy o ystyried mor fregus yw'r marchnadoedd ar gyfer gwasanaethau a reoleiddir a amlygwyd yn yr asesiadau sefydlogrwydd. • Mae recriwtio a chadw staff yn her allweddol ar draws gofal cymdeithasol ac mae'n cael effaith ddifrifol ar ofal cartref a gofal preswyl. • Mae angen newid parhaus tuag at ofal preswyl a nyrsio mwy arbenigol, ond o dan yr amodau presennol mae'n anodd gweld y farchnad yn cyflawni hynny ar gyflymder neu raddfa ddigonol.

¹² StatsCymru, Amcanestyniadau Poblogaeth a wnaed yn 2018

6 Asesiad Sefydlogrwydd: Rhan B

Mae'r adran hon o'r MSR yn ystyried sefydlogrwydd y gwasanaethau rhagnodedig a reoleiddir fel y nodir yn y Côd Ymarfer. Mae'r asesiad hwn hefyd yn ystyried pa mor ddigonol yw'r gwasanaethau a reoleiddir hyn i ateb y galw a ragwelir.

6.1 Cartrefi gofal i blant a phobl ifanc

Mae'r mwyafrif helaeth o blant sy'n derbyn gofal yn cael eu lleoli gyda gofaluwr maeth neu ofaluwr sy'n berthnasau, ond ar unrhyw un adeg mae grŵp bach o blant na ellir diwallu eu hanghenion mewn lleoliad teuluol naill ai dros dro neu ar sail tymor hwy – tua 25 o blant ym mis Mawrth 2021, neu 5.5% o blant sy'n derbyn gofal.

6.1.1 Digonolrwydd

Yn gyffredinol, mae prinder o ran y lleoedd gofal preswyl sydd ar gael i blant a phobl ifanc yng Ngorllewin Cymru - gan fod y rhan fwyaf o'r ddarpariaeth yn cael ei phrynu gan awdurdodau lleol o'r tu allan i'r rhanbarth. Mae gwahaniaethau hefyd rhwng siroedd o ran y galw.

Er bod cyfraddau'r plant sy'n derbyn gofal yn parhau i fod yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol, mae Ceredigion a Sir Benfro wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer y plant sy'n derbyn gofal, a chynnydd yn nifer y plant a leolir y tu allan i'r sir ac mewn gofal preswyl. Mae'r darlun hwn yn gyffredin ledled Cymru a sawl rhan o Loegr, ond mae Sir Gaerfyrddin yn un o bedwar awdurdod yng Nghymru sydd wedi gweld gostyngiad cyson yn nifer y plant sy'n derbyn gofal dros y blynyddoedd diwethaf.

Mae'r mwyafrif helaeth o gartrefi plant yng Ngorllewin Cymru yn cael eu rhedeg gan ddarparwyr yn y sector annibynnol a, gyda galw mawr o ardaloedd eraill, mae wedi bod yn fwyfwy anodd lleoli plant yn briodol. Ymatebodd pum darparwr cartrefi plant i'r arolwg i ddarparwyr. Rhyngddynt dim ond un lle gwag a gofnodwyd ganddynt. Cafwyd pryniant sylweddol hefyd gan awdurdodau y tu allan i'r rhanbarth gyda dau ddarparwr â mwy na dwy ran o dair o'r lleoedd a brynwyd gan awdurdodau y tu allan i Orllewin Cymru, ac un ohonynt wedi'i gomisiynu'n bennaf gan awdurdodau lleol yn Lloegr.

Pe bai'r holl gapasiti yng Ngorllewin Cymru ar gael i'r rhanbarth ni fyddai prinder, ar wahân i wasanaethau arbenigol efallai. Byddai mwy o gyfle hefyd i ail-lunio darpariaeth ranbarthol i gyd-fynd yn well â'r blaenoriaethau a nodwyd yn Natganiad Sefyllfa Marchnad Canolbarth a Gorrlewin Cymru ar gyfer y Gwasanaethau Gofal Preswyl a Maethu Plant (gweler isod).

Mae data o'r Adnodd Cymorth Comisiynu ar gyfer Plant (CSSR) yn dangos bod 26 o gartrefi plant yng Ngorllewin Cymru ym mis Rhagfyr 2021 a oedd yn darparu uchafswm o 93 o leoedd (44 yn Sir Gaerfyrddin a 49 yn Sir Benfro a dim yng Ngheredigion). Mae'r mwyafrif helaeth o'r lleoedd hyn yn cael eu comisiynu gan awdurdodau lleol y tu allan i'r rhanbarth, ac o ganlyniad mae plant yn cael eu lleoli fwyfwy y tu allan i'r sir ac weithiau y tu allan i'r rhanbarth. Sir Benfro sydd â'r nifer uchaf o blant a leolir mewn gofal preswyl, ac er bod 11 o gartrefi sector annibynnol yn cynnig 43 o leoedd, ym mis Mawrth 2021 roedd 16 o blant mewn cartrefi plant y tu allan i'r sir. Sir Gaerfyrddin sydd â'r capasiti mewnol mwyaf (tair uned, gan gynnwys dwy sy'n darparu gofal seibiant) ond y nifer isaf o blant a leolir mewn gofal preswyl fel roedd hi ym mis Mawrth 2021.

Dengys data'r CSSR fod rhai lleoedd gwag mewn cartrefi plant yng Ngorllewin Cymru – cyfanswm o 12 ym mis Rhagfyr 2021 – ond dylid cofio efallai na fydd y rhain yn addas i anghenion unigol plentyn sydd angen lleoliad.

Lluniwyd Datganiad Sefyllfa ar y Farchnad (MPS) drafft ar gyfer Canolbarth a Gorllewin Cymru (gan gynnwys Powys) ar gyfer gofal preswyl a maethu plant. O ran gofal preswyl, mae'r drafft yn pwysleisio, yn ogystal â'r broblem nad yw capasiti lleol ar gael yn aml, fod bylchau hefyd yn y capasiti sy'n bodloni proffil anghenion plant sy'n derbyn gofal. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Modelau gofal argyfwng lleol
- Camu i lawr o Les Diogel
- Cartrefi â modelau sy'n seiliedig ar dystiolaeth a chanlyniadau profedig
- Cefnogaeth ar gyfer anghenion emosiynol ac iechyd meddwl

Yn gyffredinol mae'r darlun hwn yn awgrymu bod angen ail-gydbwyso'r farchnad cartrefi gofal plant, yn ddaearyddol ac i sicrhau mynediad i gapasiti lleol, a hefyd i gyfateb y blaenoriaethau a nodwyd yn MPS Canolbarth a Gorllewin Cymru yn well. Mae camau ar y gweill i fynd i'r afael â hyn fel y disgrifir isod.

6.1.2 Ansawdd a Dewis

Gan fod nifer y plant sy'n derbyn gofal yn cynyddu, ac angen yn aml eu lleoli ar frys neu gan fod argyfwng, mae'n anodd iawn paru lleoliadau ag anghenion unigol y plentyn. Po fwyaf pell yw'r lleoliad, y mwyaf anodd yw monitro ansawdd a goruchwylio gofal pob plentyn hyd yn oed os yw ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth yn dda.

Mae'r nifer fach o blant yn y rhanbarth y mae angen gofal preswyl arnynt ar hyn o bryd yn aml yn cael eu lleoli y tu allan i'w hardal eu hunain, yn Lloegr o bryd i'w gilydd, sy'n golygu bod cynnal perthnasoedd teuluol a chyfeillgarwch yn anos, neu gysylltiadau cymunedol ac addysgol. Ar gyfer siaradwyr Cymraeg, efallai na fydd lleoliadau'n diwallu eu hanghenion iaith asesedig, er eu bod yn diwallu eu hanghenion gofal a chymorth asesedig a chytunedig.

6.1.3 Tueddiadau

Mae'r cynnydd yn nifer y plant sy'n derbyn gofal yn duedd genedlaethol, er, fel y gwelwch, mae eithriadau gan gynnwys yn Sir Gaerfyrddin. Fodd bynnag, mae nifer y plant sy'n dechrau derbyn gofal bob blwyddyn yng Nghymru wedi bod yn gostwng ers 2017. Mae hyn yn awgrymu bod plant, yn genedlaethol, yn derbyn gofal am fwy o amser ar gyfartaledd, gan fod cyfanswm y plant sy'n derbyn gofal ar unrhyw un adeg wedi parhau i gynyddu.

Mae cartrefi plant modern yn tueddu i fod yn fach iawn – pedair ystafell wely fel arfer – ac yn darparu'n bennaf ar gyfer pobl yn eu harddegau ag anghenion cymhleth, sy'n aml yn arddangos ymddygiad peryglus ac weithiau heriol.

Mae'r farchnad ar gyfer gofal plant wedi dod yn fater dadleuol, wrth i Lywodraeth Cymru ymrwymo i roi terfyn ar elw preifat mewn gofal plant yn nhymor nesaf y Senedd, fel yr argymhellwyd gan Gomisiynydd Plant Cymru. Mae costau uchel lleoliadau hefyd wedi cael eu beirniadu'n eang. Mae'r adolygiad annibynnol cenedlaethol o ofal cymdeithasol

plant wedi tynnu sylw at y mater ac mae'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA) yn cynnal astudiaeth o'r farchnad. Mae adroddiad interim y CMA yn awgrymu bod y farchnad yn methu a chanfu fod darparwyr mawr yn gwneud elw uwch ar hyn o bryd nag a ddisgwylid mewn marchnad sy'n gweithio'n dda. Fodd bynnag, ni chanfu unrhyw dystiolaeth fod yr ansawdd yn waeth yn y sector annibynnol, ac awgrymai hefyd fod costau darparu gofal preswyl yn fewnol yn debyg i'r prisiau a delir gan awdurdodau lleol. Mae'r CMA o'r farn bod elw'n adlewyrchu gorbenion is, costau a chymarebau staffio o fewn y sector annibynnol.

6.1.4 Heriau a Chyfleoedd

Mae'r niferoedd cynyddol o blant sy'n derbyn gofal yn ei gwneud hi'n anodd lleoli plant yn briodol yng Ngheredigion a Sir Benfro ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'n anodd iawn rhagweld tueddiadau yn y dyfodol gan fod y ffactorau sy'n sbarduno amrywiadau yn nifer y plant sy'n derbyn gofal yn gymhleth ac nid ydynt yn cael eu deall yn llawn. Mae comisiynu gwasanaethau arbenigol ar gyfer niferoedd isel ond amrywiol o unigolion (e.e. lleoliadau rhiant a phlentyn neu gamu i lawr o CAMHS Haen 4) yn heriol yn ei hanfod ac mae'n un rheswm pam mae cynghorau wedi tueddu i ddibynnu ar leoliadau prynu ar hap yn y sector annibynnol. Gall cydweithredu rhanbarthol helpu i liniaru hyn.

Nid yw'n hysbys eto pryd, na sut, fydd Llywodraeth Cymru yn gweithredu ei chynigion i waredu elw preifat o ofal plant. Mae hyn eisoes yn achosi ansicrwydd yn y farchnad (fel y cyfeiriwyd ato yng nghyflwyniad Consortiwm Comisiynu Plant Cymru i astudiaeth yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ar farchnadoedd gofal plant) ac fe'i hamlygwyd fel pryder yn yr arolwg i ddarparwyr, gyda dau ymatebydd yn dweud y byddent fel arall wedi ystyried ehangu yn y rhanbarth. Mae hyn yn debygol o barhau hyd nes y caiff y cynigion eu cwblhau ac mae'n amlwg bod risg sylweddol y bydd darpariaeth yn cael ei cholli os na chaiff y cyfnod pontio ei reoli'n ddidrafferth.

Mae recriwtio a chadw yn her a rennir ar draws gofal cymdeithasol ac mae'n berthnasol i ddarpariaeth fewnol ac annibynnol. Mae'r pandemig wedi gwaethygu'r prinder llafurlu ar draws yr economi ac mae gofal cymdeithasol yn cystadlu â sectorau eraill sy'n gallu cynnig cyflogau tebyg neu well am waith llai heriol.

Ni ellir rhagweld effaith hirdymor y pandemig parhaus ar lesiant plant a phobl ifanc, ac felly ni ellir rhagweld maint a math y gwasanaethau y gallai fod eu hangen arnynt yn hyderus ar hyn o bryd.

Mae cyfle i rannu ac adeiladu ar arfer gorau yn y rhanbarth gyda Sir Gaerfyrddin yn llwyddo i leihau'r angen i blant dderbyn gofal oddi wrth eu teuluoedd, yn erbyn y duedd genedlaethol. Mae'r agenda ail-gydbwysu yn cynnig cyfleoedd ochr yn ochr â risgiau ac mae eisoes yn rhoi hwb i gydweithredu rhanbarthol.

6.1.5 Effaith Comisiynu

Am y rhesymau a esboniwyd, mae awdurdodau lleol wedi tueddu i ddibynnu ar brynu lleoliadau ar hap. Mae ffactorau eraill yn cynnwys y gydnabyddiaeth bod cartrefi plant yn wasanaethau anodd i'w rheoli'n dda a bod ganddynt risgiau sylweddol, a 'chostau' uwch contractau cyflogaeth awdurdodau lleol. Mae prynu ar hap, er ei fod yn ddealladwy, wedi arwain at y sefyllfa bresennol lle mae awdurdodau lleol yn teimlo nad

oes ganddynt ddylanwad dros y farchnad ac mae darpariaeth leol yn aml yn cael ei phrynu gan awdurdodau o rannau eraill o'r wlad neu'r DU.

Mae Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru wedi dechrau mynd i'r afael â'r materion hyn drwy ddatblygu cynigion ar gyfer capasiti mewnol ychwanegol. Gwnaed cais llwyddiannus am gyllid gan Lywodraeth Cymru, a oedd yn cynnig hwb rhanbarthol gyda darpariaeth 'cam-i-lawr' leol. Roedd gwaith pellach yn cwestiynu dichonoldeb model yr hwb ond mae cynlluniau ar gyfer darpariaeth leol yn cael eu datblygu ym mhob un o'r tair sir.

6.1.6 Problemau ac Argymhellion

- Nid yw'r farchnad ar gyfer cartrefi plant yn gweithio'n dda yn genedlaethol nac yn rhanbarthol. Ar hyn o bryd, nid oes digon o leoedd ar gael i blant yn eu hardaloedd lleol.
- Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod nod radical o waredu elw preifat o'r farchnad ond nid yw eto wedi nodi'r mecanwaith na'r amserlen, gan greu ansicrwydd i ddarparwyr a chomisiynwyr.
- Bydd angen newid sylweddol tuag at ddarpariaeth fewnol neu drydydd sector dros y degawd nesaf i fodloni'r newid polisi (a lliniaru risgiau posibl mwy o leoliadau 'y tu allan i'r sir').
- Bydd hyn yn gofyn am gyllid refeniw a buddsoddiad cyfalaf.
- Fel ymateb tymor byr i ganolig - archwilio comisiynu darpariaeth annibynnol yn wahanol gyda mwy o ddefnydd o gontractau bloc 'meddal'. Fodd bynnag, byddai angen i delerau contractau fod yn ddeniadol i ddarparwyr (yn enwedig ar gyfer lleoedd gwag) a byddai angen symud o'r ddarpariaeth bresennol i gontract yn ofalus ac yn raddol, gan osgoi gorfod symud plant yn ddiangen.
- Ochr yn ochr â hyn, mae buddsoddi mewn gwasanaethau ataliol ac ar ffiniau gofal seiliedig ar dystiolaeth er mwyn lleihau'n ddiogel yr angen i blant dderbyn gofal yn gallu helpu i wella'r dewis o leoliadau a'r canlyniadau i blant a phobl ifanc.

6.2 Maethu

Mae'r mwyafrif helaeth o blant sy'n derbyn gofal yn byw gyda gofalwyr maeth, gan gynnwys gofalwyr cysylltiedig neu ofalwyr sy'n berthnasau. Mae'r rhan fwyaf o ofalwyr maeth yn cael eu recriwtio a'u cefnogi gan awdurdodau lleol ond mae yna hefyd Asiantaethau Maethu Annibynnol (IFA) sy'n recriwtio ac yn cymeradwyo gofalwyr ac yn cynnig lleoliadau i awdurdodau lleol. Mae'r rhan fwyaf o Asiantaethau Maethu Annibynnol yn y sector annibynnol ond mae rhai yn cael eu gweithredu ar sail nid er elw gan elusennau a mentrau cymdeithasol. O'r 460 o blant sy'n derbyn gofal gan gynghorau Gorllewin Cymru, ym mis Mawrth 2021, roedd 350 (76%) yn derbyn gofal mewn gofal maeth, gan gynnwys 38 (8%) mewn lleoliadau IFA.

6.2.1 Digonolrwydd

Mae nifer y plant sy'n derbyn gofal wedi bod yn cynyddu'n rhanbarthol ac yn genedlaethol. O ganlyniad, mae wedi mynd yn anos lleoli plant yn lleol. Mae data o'r Adnodd Cymorth Comisiynu ar gyfer Plant (CSSR) yn dangos mai nid capasiti yw'r broblem bennaf, ond yn hytrach bod llawer o leoliadau maethu yng Ngorllewin Cymru yn cael eu prynu gan awdurdodau y tu allan i'r rhanbarth. Ym mis Rhagfyr 2021 roedd cyfanswm o 704 o leoedd maethu yng Ngorllewin Cymru ar draws 354 o aelwydydd, llawer mwy o leoedd na'r 350 o blant oedd wedi'u lleoli mewn gofal maeth ym mis Mawrth. Gofalwyr awdurdod lleol yw ychydig dros hanner y lleoliadau maeth, ac mae 45% yn lleoliadau IFA. Dim ond llond llaw o'r lleoliadau IFA sy'n cael eu darparu gan ddarparwyr y trydydd sector (<2% o gyfanswm y lleoliadau maethu yng Ngorllewin Cymru).

Mae lleoliadau IFA yn cynnig dewis, ac weithiau'n diwallu anghenion arbenigol, megis lleoliadau rhiant a phlentyn ond, yn absenoldeb contractau bloc, byddant yn aml yn cael eu prynu gan awdurdodau y tu allan i'r rhanbarth.

Mae'r anhawster cynyddol a geir i ddod o hyd i leoliadau yn amlwg mewn mwyfwy o leoliadau IFA a chynnydd yn nifer y plant a leolir y tu allan i'r sir. Ym mis Mawrth 2021, roedd 38 o blant wedi'u lleoli gydag IFAs o gymharu ag 13 ym mis Mawrth 2018, tra bo 34 o blant wedi'u lleoli gyda gofalwyr maeth y tu allan i'r sir ym mis Mawrth 2021, o gymharu â 29 ym mis Mawrth 2018. Roedd pump o'r lleoliadau hyn y tu allan i'r rhanbarth.

Fodd bynnag, mae gwahaniaethau pwysig rhwng siroedd, gyda Cheredigion a Sir Benfro ill dau'n gweld cynnydd sydyn yn nifer y plant sy'n derbyn gofal, tra bo gostyngiad yn Sir Gaerfyrddin.

Mae Sir Benfro wedi llwyddo i gynyddu nifer yr aelwydydd maethu 'mewnol' a'r lleoedd sydd ar gael dros y pedair blynedd diwethaf, (gall gofalwyr gael eu cymeradwyo i ofalu am fwy nag un plentyn), ond mae capasiti mewnol wedi gostwng yng Ngheredigion a Sir Gaerfyrddin dros yr un cyfnod.

Mae'r CSSR hefyd yn cofnodi lleoedd gwag. Ym mis Rhagfyr 2021 roedd 36 o leoedd maethu gwag ar draws Canolbarth a Gorllewin Cymru (gan gynnwys Powys) neu 4.1% o gyfanswm y lleoedd. Mae hyn ychydig yn uwch na'r gyfradd genedlaethol o 3.9% o leoedd gwag ond mae'n awgrymu marchnad dynn, yn enwedig pan ystyriwch na fydd llawer o'r lleoedd gwag hyn yn briodol ar gyfer plentyn unigol sydd angen lleoliad, er

enghraifft oherwydd eu bod ar gyfer grŵp oedran gwahanol neu am fod ganddynt anghenion ychwanegol.

Mae Datganiad Sefyllfa drafft y Farchnad ar gyfer Canolbarth a Gorllewin Cymru yn pwysleisio, er bod maethu mewnol yn gyffredinol yn gallu diwallu anghenion y rhan fwyaf o blant, fod angen rhagor o leoliadau maeth arbenigol, gan gynnwys:

- Lleoliadau ar gyfer pobl ifanc sydd wedi profi trawma sylweddol ac efallai'n arddangos ymddygiadau risg lluosog gan gynnwys camddefnyddio sylweddau, risg o gamfanteisio'n rhywiol ar blant, gwneud penderfyniadau gwael a rhedeg i ffwrdd.
- Plant ag awtistiaeth ac anabledau dysgu sylweddol
- Lleoliadau rhiant a phlentyn; a
- Gofalwyr maeth sy'n gallu siarad Cymraeg.

At ei gilydd, mae digon o leoliadau maeth ar draws Gorllewin Cymru ond nid yw'r rhain i gyd ar gael i awdurdodau Gorllewin Cymru ac weithiau nid yw diwallu anghenion penodol yn agos at gartref plentyn yn bosibl. Os bydd y galw'n parhau i gynyddu (yn rhanbarthol a/neu'n genedlaethol) bydd dod o hyd i leoliadau sy'n cyfateb i anghenion plant yn dod yn fwyfwy anodd.

6.2.2 Ansawdd a Dewis

Mae ansawdd y gofal a ddarperir gan ofalwyr maeth, boed yn awdurdod lleol neu'n IFA, yn uchel¹³ ar y cyfan, ond po leiaf o leoedd gwag sydd, po anoddaf yw paru plant yn briodol â lleoliadau. Mae lleoliadau pell hefyd yn ei gwneud hi'n anoddach cynnal perthnasoedd a sicrhau parhad addysg a gofal iechyd, tra bo anghenion unigol, yn cynnwys gofal drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg, ddim yn cael eu diwallu o bosibl. I'r mwyafrif helaeth o blant, bydd y lleoliad gorau felly yn lleol i'w hardal gartref.

Mae sawl gwaith mae plant yn newid lleoliad yn ddangosydd pwysig o ansawdd, ac mae symud yn aml yn gysylltiedig â chanlyniadau hirdymor gwaeth. Yn 2021 roedd cyfran y plant oedd yn symud 3 gwaith neu fwy yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol yn Sir Benfro a Cheredigion, ond yn is na'r cyfartaledd yn Sir Gaerfyrddin, yn gyson â'r galw sydd ar y siroedd.

6.2.3 Tueddiadau

Mae'r cynnydd yn nifer y plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru yn duedd hirdymor, gyda'r niferoedd yn cynyddu'n raddol o 4195 yn 2003 i 7265 yn 2021: 73% o gynnydd. Byddai hyn wedi rhoi straen ar y farchnad leol ar gyfer lleoliadau gofal, hyd yn oed pe na bai'r rhanbarth ei hun wedi gweld cynnydd. Sir Gaerfyrddin, fel y gwelsom, yw un o'r pedwar awdurdod yng Nghymru lle bu gostyngiad yn erbyn y duedd hon, ond mae Ceredigion a Sir Benfro wedi gweld cynnydd.

Mae cynnydd yng nghyfran y plant sy'n derbyn gofal gan berthnasau neu ffrindiau yn duedd genedlaethol hirdymor arall a adlewyrchir mewn data lleol. Gall hyn helpu i liniaru'r prinder lleoliadau lleol.

¹³Er enghraifft, ni chanfu [adroddiad interim y CMA](#) unrhyw dystiolaeth o wahaniaethau mewn ansawdd rhwng gofalwyr awdurdodau lleol ac IFA

Mae nod polisi datganedig Llywodraeth Cymru o waredu elw preifat o ofal plant yn ystod tymor nesaf y Senedd yn effeithio ar y rhan fwyaf o Asiantaethau Maethu Annibynnol. Maent hefyd yn dod o fewn cwmpas ymchwiliad yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA) sy'n cwmpasu Cymru, Lloegr a'r Alban. Canfu adroddiad interim y CMA fod yr IFAs mwyaf yn gwneud mwy o elw na fyddid yn ei ddisgwyl mewn marchnad sy'n gweithio'n dda, gan awgrymu bod rhwystrau i fynediad. Hefyd, yn amodol ar gadarnhad, daeth yr adroddiad i'r casgliad bod cost prynu lleoliadau IFA i awdurdodau lleol yn gyffredinol uwch na chostau eu darparu'n fewnol, hyd yn oed o ystyried gorbenion yr awdurdod lleol.

6.2.4 Heriau a Chyfleoedd

Gyda'r galw presennol, o fewn y rhanbarth a thu hwnt, mae'n fwyfwy anodd paru plant â lleoliadau lleol priodol. Heb gamau lliniaru, bydd hyn yn niweidiol i blant a bydd yn gweld pwysau parhaus ar gyllidebau.

Mae recriwtio gofalwyr maeth yn her barhaus sy'n cael ei dwysáu gan y gostyngiad yn y boblogaeth o oedran gweithio ledled y rhanbarth. Mae argaeledd a chost tai yn rhwystr arall, gan fod angen digon o le yn amlwg ar ofalwyr maeth i gynnig cartref i blant. Gall mentrau i gynyddu cyflenwad y tai fforddiadwy i deuluoedd, megis rhaglenni adeiladu tai cynyor ledled y rhanbarth, helpu i fynd i'r afael â hyn.

Mae llwyddiant Sir Benfro o ran recriwtio gofalwyr a Sir Gaerfyrddin o ran lleihau nifer y plant sy'n derbyn gofal yn dangos bod arfer da ar draws y rhanbarth i'w rannu ac i adeiladu arno.

Mae'r agenda 'ail-gydbwysu', yn enwedig y cynigion i waredu elw, yn cyflwyno risgiau a chyfleoedd i'r rhanbarth. Yn dibynnu ar yr amseru a pha mor dda y caiff y cyfnod pontio ei reoli, mae perygl y bydd rhai lleoliadau a pheth arbenigedd yn cael eu colli, gan y gallai fod yn well gan rai gofalwyr roi'r gorau i faethu yn hytrach na newid asiantaeth. Ar y llaw arall, os yw'r newid yn cael ei reoli'n dda, mae potensial i gynyddu'r gronfa o ofalwyr lleol a sicrhau bod y lleoliadau hynny ar gael i blant Gorllewin Cymru.

Mae effaith hirdymor y pandemig parhaus ar faethu yn ansicr iawn. Mae rhywfaint o dystiolaeth y gallai pobl gael eu denu'n fwy at faethu ar ôl ail-werthuso eu bywydau a'u hagwedd at gyflogaeth a chymudo. Rhoddodd y pandemig fod i gynydd mewn gwirfoddoli a gweithredu cymunedol, ond ar y llaw arall gallai atal eraill rhag cynnig lleoliadau, yn enwedig ar sail tymor byr neu seibiant.

Effaith bosibl y pandemig ar blant fydd llesiant emosiynol a meddyliol gwaeth, a fydd yn ei dro yn golygu bod angen hyd yn oed mwy o gymorth ar blant y mae angen gofal arnynt oddi cartref. Gallai hyn waethygu'r tueddiadau presennol tuag at blant yn arddangos anghenion mwy cymhleth a heriol, gan gynnwys materion iechyd meddwl aciwt, awtistiaeth a hunan-niwed.

6.2.5 Effaith Comisiynu

Cafwyd nifer o fentrau cenedlaethol a rhanbarthol i gefnogi'r gwaith o gomisiynu lleoliadau plant yn effeithiol. Mae'r rhain yn cynnwys y Fframwaith¹⁴ Maethu

¹⁴[Adroddiad Terfynol 2018-21](#) y Fframwaith Maethu Cenedlaethol

Cenedlaethol a Chonsortiw Comisiynu Plant Cymru (4Cs), offeryn canfod lleoliadau: yr Adnodd Cymorth Comisiynu ar gyfer Plant (CCSR).

Un mater a godir yn aml gan ddarparwyr yw diffyg eglurder gan gomisiynwyr ynghylch lefel amcanestynedig y galw a'r math o wasanaethau sydd eu hangen. Dylai Datganiad Sefyllfa'r Farchnad a'r MSR hwn helpu i fynd i'r afael â hynny ond mae ymgysylltu a deialog parhaus â darparwyr yn hanfodol.

Mae'r 4Cs yn ffynhonnell bwysig o arbenigedd mewn comisiynu lleoliadau ac mae'r CCSR, pan gaiff ei ddefnyddio'n llawn gan awdurdodau lleol, yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol i gomisiynwyr a darparwyr.

6.2.6 Problemau ac Argymhellion

- Mae nifer cynyddol y plant sy'n derbyn gofal yn rhanbarthol ac yn genedlaethol yn ei gwneud yn anos lleoli plant
- Mae cryn ansicrwydd yn y farchnad gyda'r ymrwymiad i waredu darpariaeth 'er elw' ac effaith y pandemig
- Y cyfyngiad pennaf yw recriwtio digon o ofalwyr maeth sydd â'r sgiliau a'r cymhelliant i ofalu am blant a phobl ifanc sydd fel arfer wedi profi trawma a thrallod sylweddol
- Gall capasiti mewnol helpu i fynd i'r afael â'r heriau hyn. Mae ymgyrchoedd recriwtio ar eu pennau eu hunain yn aml yn aneffeithiol ac mae ganddynt gyfraddau trosi isel. Mae adolygu a lle bo angen, gwella cyfanswm y cynnig i ofalwyr maeth yn fwy tebygol o lwyddo. Mae elfennau anariannol fel cymorth a hyfforddiant y tu allan i oriau yn hynod bwysig. Mae'n werth archwilio'r model Mockingbird, sy'n grwpio gofalwyr i roi cydgefnogaeth i'w gilydd
- Ochr yn ochr â chynyddu capasiti mewnol, mae ymgysylltu â darparwyr IFA sy'n cynnig lleoliadau yng Ngorllewin Cymru yn hanfodol, er mwyn dechrau cynllunio ar gyfer y newid tebygol i fodel nid-er-elw, a manteisio i'r eithaf ar gapasiti lleol ar gyfer plant Gorllewin Cymru. Bydd angen modelau comisiynu gwahanol – fel contractau bloc "meddal" a phartneriaethau cryfach, neu fel arall ni fydd gan IFAs fawr o gymhelliant i deilwra eu cynnig i ofynion lleol.
- Gall buddsoddi mewn gwasanaethau ataliol, seibiant ac ar ffiniau gofal helpu i leihau'r angen i blant dderbyn gofal i ffwrdd o'u teuluoedd. Mae arfer da yn y rhanbarth i'w rannau ac i'w ddefnyddio'n sylfaen.

6.3 Gwasanaethau Mabwysiadu

Mae mabwysiadu yn darparu teuluoedd parhaol i blant na allant fyw'n ddiogel gyda'u teuluoedd biolegol. Mae'n wasanaeth hanfodol sy'n cael effaith gydol oes ond yn un sydd ei angen ar nifer fach o blant yn unig. Ers 2014, darparwyd gwasanaethau mabwysiadu yng Nghymru ar sail ranbarthol, gan gynnwys gan Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru (sy'n cynnwys Powys), gyda chymorth y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol (NAS) ac mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol ac asiantaethau mabwysiadu gwirfoddol. Nid oes unrhyw gyfranogiad gan y sector annibynnol felly nid oes marchnad mewn gwirionedd ar gyfer gwasanaethau mabwysiadu yn yr un modd ag y mae marchnad ar gyfer sectorau eraill e.e. gofal preswyl. Fodd bynnag, mae argaeledd ac ansawdd gwasanaethau mabwysiadu yn effeithio ar y galw am wasanaethau eraill i blant sy'n derbyn gofal, ac i'r gwrthwyneb.

6.3.1 Digionolrwydd

Ar unrhyw un adeg mae nifer y plant sy'n mynd drwy'r broses fabwysiadu yng Ngorllewin Cymru yn fach. Ym mis Mawrth 2021 roedd llai nag 20 o blant wedi'u rhoi i'w mabwysiadu yn nhair sir Gorllewin Cymru (nid yw data cenedlaethol yn nodi'r union nifer ar gyfer Ceredigion gan ei fod yn llai na 5). Ers 2016 mae'r niferoedd wedi amrywio rhwng tua 15 a 30.

Mae recriwtio digon o fabwysiadwyr wedi bod yn her hirdymor yn genedlaethol ac yn rhanbarthol, ac mae'n dal yn anodd dod o hyd i ofalwyr mabwysiadol sy'n gweddu'n dda, yn enwedig ar gyfer plant hŷn, grwpiau o frodyr a chworydd a phlant ag anghenion neu anabledau ychwanegol.

6.3.2 Ansawdd a Dewis

Mae'r canlyniadau i blant sy'n cael eu mabwysiadu yn gadarnhaol ar y cyfan ond gall y broses o asesu gofalwyr a pharu a lleoli plant fod yn hirfaith ac mae ffocws ar leihau oedi. Prin fu'r cynnydd yn genedlaethol o ran lleihau'r amser o fynediad i ofal i fabwysiadu, gyda'r broses yn cymryd tua 800 diwrnod ar gyfartaledd dros y blynyddoedd diwethaf. Yn 2021 cynyddodd hyn i 854 diwrnod, o bosibl oherwydd effaith y pandemig ar amserlenni.

Mae Comisiynwyr wedi nodi, os na ellir clustnodi lleoliad yn y rhanbarth, y bydd chwiliad yn cael ei wneud drwy Gofrestr Mabwysiadu Cymru. Mae'n bosibl bod y mabwysiadwyr hynny wedi'u cymeradwyo gan Asiantaeth Mabwysiadu Gwirfoddol, gwasanaeth mabwysiadu rhanbarthol arall, neu asiantaeth fabwysiadu yn Lloegr. Defnyddir y cynllun Mabwysiadu Gyda'n Gilydd lle mae gan blant anghenion cymhleth iawn.

Mae cydnabyddiaeth gynyddol bod angen cymorth cyson a pharhaus ar deuluoedd sy'n mabwysiadu. Yn ddiweddar, cyhoeddodd yr IPC werthusiad o Fframwaith Cymorth Mabwysiadu Cenedlaethol Cymru, a gyflwynwyd yn 2017 i fynd i'r afael â bylchau yn y cymorth. Nododd hyn gynnydd sylweddol ond mae hefyd yn cefnogi bylchau gan gynnwys ar gyfer plant hŷn ag anghenion mwy cymhleth, gan gynnwys y rhai sy'n pontio i fod yn oedolion.

6.3.3 Tueddiadau

Y duedd hirdymor fu gostyngiad yn oedran cyfartalog plant a fabwysiadwyd yng Nghymru, o 61 mis yn 2003, i 37 mis yn 2021. Mae'n debyg bod hyn o achos penderfyniadau mwy amserol a mwy o ddefnydd o gynllunio cydamserol mewn achosion gofal. Roedd y rhan fwyaf o'r plant a fabwysiadwyd yng Nghymru rhwng 1 a 4 oed (84%).

Mae'r pandemig wedi cael effaith sylweddol ar wasanaethau mabwysiadu. Yn genedlaethol, bu cynnydd o 23% yn nifer yr ymholiadau cychwynnol, ac 20% yn yr asesiadau mabwysiadwyr oedd yn dechrau, gan adlewyrchu o bosibl y cynnydd mewn anhunanoldeb a gwirfoddoli a welwyd yn ystod y pandemig, a'r cyfle i bobl ailasesu eu blaenoriaethau a'u ffyrdd o fyw. Fodd bynnag, roedd ymarferoldeb cwblhau asesiadau yng nghanol cyfyngiadau Covid yn golygu bod llai o fabwysiadwyr yn cael eu cymeradwyo, gyda gostyngiad o 8% yn genedlaethol. Mae'n ansicr iawn a fydd y diddordeb cynyddol mewn mabwysiadu yn parhau.

Mae'r pandemig hefyd yn debygol o gael effaith andwyol ar lesiant emosiynol a meddyliol plant a phobl ifanc. Gallai hyn o bosibl waethygu tueddiadau presennol plant sy'n arddangos anghenion mwy cymhleth, yn aml oherwydd problemau iechyd meddwl. Canfu'r gwerthusiad IPC a grybwyllir uchod fod gan blant wedi'u mabwysiadu lawer mwy o anawsterau, fel y mesurir yn yr Holiadur Cryfderau ac Anawsterau (SDQ), na sampl arferol o blant Prydeinig.

6.3.4 Heriau a Chyfleoedd

Yr her sylfaenol o hyd yw recriwtio cronfa ddigonol o deuluoedd sy'n mabwysiadu i sicrhau y gellir paru plant yn dda, ac y gellir diwallu eu hanghenion unigol, gan gynnwys i lawer, y cyfle i dyfu lan mewn teulu sy'n siarad Cymraeg.

Yn y cyd-destun hwn, mae'r pandemig yn cynnig cyfleoedd a heriau. Efallai bydd mwy o bobl yn cael eu denu i fabwysiadu mewn byd lle mae gwaith yn gynyddol hyblyg, ond cyn belled â bod y pandemig yn parhau gall fod heriau ac oedi i brosesau asesu.

6.3.5 Effaith Comisiynu

Mae datblygu gwasanaethau rhanbarthol wedi sicrhau bod sgiliau arbenigol ar gael i awdurdodau a fyddai fel arall yn gweithio gyda dim ond llond llaw o blant y mae angen eu mabwysiadu ar unrhyw un adeg. Maent hefyd yn helpu i sicrhau cysondeb ac ansawdd wrth asesu a pharu.

6.3.6 Problemau ac Argymhellion

- Bydd gwella'r cymorth i deuluoedd sy'n mabwysiadu o fudd i blant a hefyd yn lleihau'r risg o leoliadau mabwysiadu yn methu. Efallai mai dyma'r ffordd orau o hyrwyddo recriwtio mabwysiadwyr oherwydd, fel maethu, siarad yn gadarnhaol am y peth yw'r dull recriwtio mwyaf effeithiol o bell ffordd.
- Dylai Gorllewin Cymru ystyried argymhellion y gwerthusiad cenedlaethol o gymorth mabwysiadu, sef:

- Bod pob plentyn sy'n cael ei fabwysiadu yn cael y math iawn o gymorth a sylw mewn ysgolion neu golegau, lle maent yn aml yn ei chael hi'n anodd, yn aml yn fwy felly nag yn y cartref.
- Bod mynediad cyson i deuluoedd at fathau gwerthfawr o gymorth wedi'i dargedu ar draws pob rhanbarth a / neu asiantaethau cymorth, yn enwedig y rhai sy'n gallu darparu cymorth therapiwtig neu seicolegol 'cyfnod cynnar' effeithiol cyn i deuluoedd gyrraedd argyfwng, hefyd cyngor rhagweithiol am gyswllt â theuluoedd biolegol a gwaith stori bywyd therapiwtig o ansawdd da.
- Mwy o fynediad cyffredinol at gymorth arbenigol wedi'i dargedu lle mae ei angen ar deuluoedd sy'n mabwysiadu ledled Cymru, gan gynnwys ar gyfer plant hŷn neu bobl ifanc ag anghenion cymhleth, ac ar gyfer y plant hynny a allai fod â chyflyrau niwro-ddatblygiadol ac mae angen eu harchwilio a'u cefnogi ymhellach.

6.4 Llety Diogel

Mae llety diogel yn ddarpariaeth arbenigol dros ben, ac mae'r defnydd ohono'n cael ei reoli'n briodol gan fframwaith cyfreithiol tynn i sicrhau mai dim ond pan fo hynny'n gwbl angenrheidiol y caiff plant eu rhoi mewn amgylcheddau sydd wedi'u cloi ac am gyfnod mor fyr â phosibl. Gellid ond defnyddio llety diogel er lles plentyn, yn hytrach na mewn achosion troseddol, gyda'r awdurdodiad llys angenrheidiol, er mwyn sicrhau diogelwch y plentyn neu eraill.

6.4.1 Digonolrwydd

Dim ond un uned ddiogel i blant sydd yng Nghymru: *Hillside Secure Children's Home* yng Nghastell-nedd, sydd ag uchafswm o 22 o leoedd. Rhennir lleoedd yn Hillside rhwng y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid, ar gyfer lleoliadau oherwydd trosedd, ac awdurdodau lleol Cymru at ddibenion llesiant. Fel arfer dim ond un neu ddau leoliad diogel y flwyddyn sydd eu hangen ar Orllewin Cymru, ac mewn rhai blynyddoedd, dim.

Gan fod cyn lleied o unedau diogel (mae ychydig yn Lloegr hefyd), maent yn tueddu i gael eu defnyddio'n genedlaethol a gall fod yn anodd dod o hyd i le pan fydd angen. Mae'r broblem gomisiynu hon yn un genedlaethol, ac nid yw'n rhywbeth y gellir mynd i'r afael ag ef yn iawn ar lefel ranbarthol.

Oherwydd eu natur, bydd lleoliadau diogel fel arfer yn bell o gartref y plentyn, a byddant felly bob amser, os nad oes lleoedd gwag yng nghartref diogel Castell-nedd.

6.4.2 Ansawdd a Dewis

Mae *Hillside Secure Children's Home* yn cael ei arolygu gan Arolygiaeth Gofal Cymru a chan Estyn ar gyfer y ddarpariaeth addysg ar y safle.

O gofio mai dim ond un ddarpariaeth o'r math hwn sydd, mae'n amlwg bod diffyg dewis o ddarpariaeth ac os oedd unrhyw bryderon ynghylch ansawdd, yr unig ddewisiadau eraill oedd yn Lloegr. Mae hyn yn amlwg yn peri risg ar lefel genedlaethol pe bai unrhyw broblemau'n codi yn Hillside neu os na fydd lleoedd ar gael am unrhyw reswm.

Mae'r ffaith bod yr uned yn gymharol agos i'r rhanbarth yn fuddiol.

6.4.3 Tueddiadau

Mae nifer y plant sydd angen llety diogel yn fach a'r disgwyl yw bydd hynny'n parhau.

6.4.4 Heriau a Chyfleoedd

Mae'n anodd iawn sicrhau bod digon o'r math hwn o ddarpariaeth yn ôl yr angen ar unrhyw un adeg, o gofio bod nifer y plant sydd ei angen mor fach. Mae llety diogel yn gostus ac yn anodd ei ddarparu ac mae'n anodd recriwtio a chadw staff medrus sy'n barod i weithio mewn amgylchedd heriol.

I Gymru, mae cael un uned yn unig yn achosi risgiau sylweddol, ac mae'n golygu y bydd lleoedd fel arfer ymhell o gartref, ac weithiau ddim ar gael yng Nghymru pan fydd eu hangen ar blant.

6.4.5 Effaith Comisiynu

Mae comisiynu llety diogel yn gyfrifoldeb cenedlaethol.

6.4.6 Problemau ac Argymhellion

- Ar yr adegau prin pan fydd plentyn o Orllewin Cymru angen llety diogel, efallai na fydd ar gael yng Nghymru gan mai dim ond un uned ddiogel sydd ar gael.
- Dylid rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru os oes pryderon ynghylch digonolrwydd llety diogel.

6.5 Canolfannau Preswyl i Deuluoedd

Mae canolfannau preswyl i deuluoedd yn wasanaeth arbenigol iawn arall nad oes gofyn amdano'n aml gan awdurdodau lleol yng Ngorllewin Cymru. Maent yn darparu asesiadau ac ymyriadau therapiwtig i deuluoedd, fel arfer yng nghyd-destun achosion gofal lle credir bod risgiau sylweddol i'r plentyn neu'r plant, y mae angen eu monitro'n agos iawn.

6.5.1 Digonolrwydd

Dim ond dwy ganolfan breswyl i deuluoedd sydd yng Nghymru gyfan, ac mae un wedi ailagor yn ddiweddar ar ôl bod ar gau. Nid yw'r naill na'r llall yng Ngorllewin Cymru.

Anaml y mae angen lleoliadau mewn canolfannau preswyl i deuluoedd ond mae lleoliadau achlysurol gan awdurdodau Gorllewin Cymru, gan gynnwys un yn ddiweddar. Yn gyffredinol, mae lleoliadau maethu rhiant a phlentyn yn aml yn cael eu ffafrio a gallant ddarparu asesiad mewn 'lleoliad mwy naturiol'. Fodd bynnag, mae lleoliadau rhiant a phlentyn yn brin ac yn un o'r blaenoriaethau a nodwyd yn MPS drafft Canolbarth a Gorllewin Cymru ar gyfer gofal preswyl a maethu plant.

6.5.2 Ansawdd a dewis

Gyda dim ond dwy ganolfan yn genedlaethol, mae'n amlwg nad oes llawer o ddewis, a bydd unrhyw leoliadau bob amser y tu allan i'r rhanbarth.

6.5.3 Tueddiadau

Yn genedlaethol, bu newid i ffwrdd o fodolau asesu preswyl tuag at faethu rhiant a phlentyn. Caiff hyn ei adlewyrchu ym mhrinder y ddarpariaeth. Mae'r defnydd o ganolfannau preswyl i deuluoedd yn dibynnu i raddau helaeth ar ganfyddiadau'r llysoedd o'u gwerth.

6.5.4 Heriau a Chyfleoedd

Heriol yw comisiynu gwasanaethau sy'n cael eu defnyddio'n anaml ond sy'n bwysig, fel canolfannau preswyl i deuluoedd. Mae'r ffaith mai dim ond dwy ganolfan o'r fath sydd yng Nghymru yn golygu efallai na fydd lleoedd ar gael pan fydd eu hangen.

Gall maethu rhiant a phlentyn gynnig dewis arall, er mae'n bwysig cydnabod ei fod yn wasanaeth gwahanol ac efallai na fydd yn briodol. Gall comisiynu darpariaeth faethu rhiant a phlentyn ranbarthol neu ei datblygu'n fewnol liniaru risgiau a darparu dewisiadau eraill mwy lleol a chost-effeithiol.

6.5.5 Effaith Comisiynu

Mae prynu lleoedd achlysurol ar hap pan fo eu hangen yn osgoi ymrwymo adnoddau i ddarpariaeth nad oes ei hangen o bosibl. Fodd bynnag, mae yn golygu bod costau'n debygol o fod yn uchel pan fydd eu hangen, a bydd lleoliadau'n bell ac o bosibl y tu allan i Gymru.

6.5.6 Problemau ac Argymhellion

- Nid oes digon o angen am leoliadau preswyl i deuluoedd i gyfiawnhau comisiynu darpariaeth ranbarthol benodol.
- Bydd cynyddu capasiti maethu rhiant a phlentyn rhanbarthol, naill ai'n fewnol neu wedi'i gomisiynu gan IFA, yn golygu bod asesiadau preswyl hyd yn oed yn fwy prin, a byddai'n darparu capasiti lleol y mae gan gomisiynwyr lawer mwy o ddylanwad drosto o ran cost ac ansawdd.

6.6 Gwasanaethau Eiriolaeth Plant

Mae eiriolaeth yn golygu hyrwyddo barn, dymuniadau a theimladau unigolyn er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu hystyried yn llawn ac y gweithredir yn eu cylch yn ystod prosesau gwneud penderfyniadau. Mae sbectrwm eang o eiriolaeth ffurfiol ac anffurfiol sy'n cwmpasu pob math o anghenion a grwpiau oedran, ond dim ond agweddau penodol iawn ar eiriolaeth sy'n cael eu rheoleiddio: sef eiriolaeth ar gyfer plant sydd angen gofal a chymorth neu sy'n derbyn gofal.

6.6.1 Digonolrwydd

Arweiniodd pryderon ynghylch argaeledd a chysondeb eiriolaeth i blant at gyflwyno ymagwedd genedlaethol at wasanaethau eiriolaeth statudol yn 2017. Caiff gwasanaethau eu comisiynu ar draws Canolbarth a Gorllewin Cymru (ar yr un ôl troed â **Byrddau Diogelu**) ond o fewn fframwaith cenedlaethol gan gynnwys manyleb y gwasanaeth, safonau cenedlaethol a 'chynnig rhagweithiol' a gynlluniwyd i sicrhau bod plant yn cael cynnig eiriolaeth fel mater o drefn pan fyddant yn destun cynhadledd amddiffyn plant neu'n dechrau derbyn gofal. Yng Ngorllewin Cymru comisiynir y gwasanaeth ar sail Canolbarth a Gorllewin Cymru (gan gynnwys Powys), ac fe'i darperir gan TGP Cymru, sef elusen hawliau plant. Neilltuir eiriolwr proffesiynol annibynnol i blant cymwys sy'n manteisio ar y cynnig. Mae llinell gymorth genedlaethol – Meic - ar gael i blant a phobl ifanc nad ydynt yn gymwys i gael eiriolaeth annibynnol statudol.

Mae tymor presennol y contract yn dod i ben ac mae proses gaffael wedi'i chwblhau er mwyn i'r contract newydd ddechrau o fis Ebrill 2022.

Mae gwybodaeth gan gomisiynwyr yn awgrymu bod y cynnig gweithredol yn gweithio'n dda a bod eiriolaeth ar gael i'r holl blant hynny sydd ei angen. Mae bwlch wedi'i nodi ar gyfer eiriolaeth i rieni, sy'n anstatudol, ac mae cynllun peilot i fynd i'r afael â hyn yn cael ei ystyried yn Sir Benfro.

O ran y cynnig eiriolaeth ehangach ar draws Canolbarth a Gorllewin Cymru, mae gwasanaeth Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol i oedolion (IPA) newydd gael ei gomisiynu'n rhanbarthol gyda'r bwriad o ddatblygu darpariaeth eiriolaeth ar draws y sbectwm eiriolaeth, ac mae'n gyfuniad o ddarparwyr eiriolaeth yn gweithio gyda'i gilydd i fodol sydd wedi'i gyd-gynhyrchu.

6.6.2 Ansawdd a dewis

Yn genedlaethol, dim ond dau ddarparwr cofrestredig o eiriolaeth plant, Tros Gynnal Plant (TGP Cymru) a'r Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuencid Cenedlaethol (NYAS) sydd ar gael.

Gyda dim ond dau ddarparwr cofrestredig a nifer fach o brynwyr mae'r farchnad ar gyfer eiriolaeth annibynnol plant yn amlwg yn fach. Gellir lliniaru hyn i raddau drwy feithrin gallu eiriolaeth yn fwy cyffredinol ledled Gorllewin Cymru.

Rhodddwyd adborth cadarnhaol iawn gan bobl ifanc yn yr arolwg defnyddwyr a gynhaliwyd gan TGP yn ystod y pandemig, gyda 99% yn dweud eu bod yn teimlo bod gweithio gyda TGP Cymru o gymorth drwy'r amser neu'r rhan fwyaf o'r amser. Cynhaliwyd yr arolwg ledled Cymru ond roedd 40 o'r 95 o ymatebwyr yn dod o Ganolbarth a Gorllewin Cymru.

Mae Comisiynwyr yng Ngorllewin Cymru yn sôn yn gyson am adborth cadarnhaol gan blant a phobl ifanc sy'n derbyn eiriolaeth.

6.6.3 Tueddiadau

Mae data a gyhoeddwyd gan Stats Cymru yn awgrymu bod cyfanswm nifer y plant sy'n derbyn gofal a chymorth wedi gostwng ychydig rhwng 2018 a 2020 (o 1380 i 1285). Fodd bynnag, fel y nodwyd uchod, cynyddodd nifer y plant sy'n derbyn gofal dros yr un cyfnod. Mae'r tueddiadau hyn yn dylanwadu ar y galw posibl am wasanaethau eiriolaeth

a reoleiddir, ond mae'r galw gwirioneddol yn cael ei ysgogi'n fwy gan ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth ac i ba raddau y mae plant a phobl ifanc yn arfer eu hawl i eiriolwr annibynnol.

6.6.4 Heriau a Chyfleoedd

Mae'r contract newydd wedi rhoi cyfle i adolygu'r trefniadau adrodd gyda'r bwriad o wneud y mwyaf o'r hyn a ddysgwyd o eiriolaeth heb beryglu cyfrinachedd. Bydd adroddiadau cliriach yn rhoi gwell dealltwriaeth i gomisiynwyr o farn plant a phobl ifanc ac yn helpu i nodi themâu ar gyfer gwella.

6.6.5 Effaith Comisiynu

Mae'r ymagwedd genedlaethol yn dod â mwy o gysondeb mewn eiriolaeth statudol i blant a phobl ifanc ledled Cymru. Fodd bynnag, gyda dim ond dau ddarparwr cofrestredig, prin yw'r dewis i gomisiynwyr a'r risgiau pe bai'r naill ddarparwr neu'r llall mewn trafferthion am unrhyw reswm.

6.6.6 Problemau ac Argymhellion

- Sicrhau bod y gwasanaeth yn parhau i gael ei hyrwyddo drwy'r cynnig rhagweithiol.
- Meithrin gallu mewn gwasanaethau eiriolaeth ehangach ledled Gorllewin Cymru i gryfhau lleisiau defnyddwyr a gofalwyr a sicrhau cronfa amrywiol o eiriolwyr medrus.
- Ystyried treialu eiriolaeth i rieni i ategu'r cynnig statudol.
- Manteisio i'r eithaf ar ddysgu o eiriolaeth drwy brosesau adrodd symlach.

6.7 Gwasanaethau Lleoli Oedolion

Mae cynlluniau Lleoli Oedolion, a elwir bellach yn Gysylltu Bywydau fel arfer, yn cynnwys gofalwyr yn darparu gofal i oedolion yng nghartref y gofalwyr eu hunain, naill ai ar sail hirdymor, seibiant neu ddydd. Mae Cysylltu Bywydau yn cynnig cyfle i bobl fyw fel rhan o aelwyd yn y gymuned, gan eu helpu i fod mor annibynnol â phosibl tra'n cynnal eu cysylltiadau â theulu, y gymuned a ffrindiau.

6.7.1 Digonolrwydd

Mae un cynllun Cysylltu Bywydau yng Ngorllewin Cymru yn cwmpasu'r rhanbarth cyfan. Ariennir y gwasanaethau ar y cyd gan Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro a'u cynnal gan Sir Gaerfyrddin.

Cynhaliwyd adolygiad annibynnol o'r gwasanaeth gan Cysylltu Bywydau yn 2019. Ar y pryd roedd cynllun Gorllewin Cymru yn darparu gofal i 142 o unigolion, gyda 91 o bobl wedi'u lleoli mewn trefniadau Cysylltu Bywydau a 51 yn derbyn gwasanaethau seibiant byr yn unig. Roedd 78 o Ofalwyr Cysylltu Bywydau mewn 58 o aelwydydd. Er bod y cynllun yn agored i bobl ag amrywiaeth o anghenion, roedd anabledau dysgu gan y mwyafrif helaeth o bobl a leolwyd (129/142). Nid oedd y cynllun yn gyson ar draws y

rhanbarth ac roedd 109 o'r bobl oedd yn cael eu cefnogi yn dod o Sir Gaerfyrddin (76%).

Yn seiliedig ar feincnodi gyda chynlluniau eraill, nododd yr adolygiad gyfle i gynyddu'r cynllun Cysylltu Bywydau yn sylweddol a gwneud gwelliannau ar draws Sir Benfro a Cheredigion. Yn yr ardal sy'n perfformio orau yn y DU, defnyddiwyd Cysylltu Bywydau gan 2.2% o'r boblogaeth gofal cymdeithasol i oedolion, a chan 9.4% o'r boblogaeth anabledd dysgu leol, o gymharu â 0.97% a 5.6% yng Ngorllewin Cymru. Roedd cyfran y bobl ag anabledau dysgu a gynorthwyr yng Ngorllewin Cymru yn amrywio o 2.2% yng Ngheredigion i 7.6% yn Sir Gaerfyrddin.

Mae Cynllun Datblygu Cysylltu Bywydau Gorrlewin Cymru 2019-2022 yn nodi targedau i ehangu'r gwasanaeth gyda 22 o leoliadau ychwanegol yn Sir Gaerfyrddin, 31 yng Ngheredigion a 29 yn Sir Benfro erbyn 2025.

6.7.2 Ansawdd a dewis

Daeth yr adolygiad i'r casgliad bod Cysylltu Bywydau Gorrlewin Cymru yn "gwneud arbedion blynyddol sylweddol, tra'n sicrhau hefyd ganlyniadau gwyh i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth".

Mae gan Cysylltu Bywydau y potensial i alluogi mwy o bobl i barhau i fyw yn eu cymunedau eu hunain, a chyn belled â bod cronfa ddigonol o ofalwyr, i gyfateb mewn ffordd well i anghenion a dewisiadau unigol na byw â chymorth neu ofal preswyl. Mae'r model yn addas iawn i'r rhanbarth o ystyried yr heriau o ddarparu gofal a recriwtio staff mewn ardaloedd gwledig.

6.7.3 Tueddiadau

Mae trefniadau Cysylltu Bywydau wedi bod yn tyfu'n gyflym yn genedlaethol ac mae cynlluniau wedi bod yn cael eu newid i ddiwallu ystod ehangach o anghenion. Yn ôl Adroddiad Blynyddol Cysylltu Bywydau Cyflwr y Genedl, cynyddodd lleoliadau cysylltu bywydau 42% rhwng 2015 a 2020. Mae cynlluniau bellach yn darparu ar gyfer ystod eang o anghenion gan gynnwys iechyd meddwl, dementia, trefniadau rhiant a phlentyn, a'r rhai sy'n gadael gofal, ac mae cynlluniau peilot arloesol wedi bod o ran defnyddio cysylltu bywydau mewn llwybrau rhyddhau o'r ysbyty. Bu i nifer y bobl â dementia sy'n cael eu cefnogi gan Cysylltu Bywydau fwy na dyblu rhwng 2018/19 a 2019/20.

Argymhellodd yr adolygiad o Gysylltu Bywydau Gorrlewin Cymru fod y cynllun yn newid yn ogystal â chynyddu, gyda'r potensial i ddarparu ar gyfer salwch meddwl, pobl hŷn, pobl sy'n gadael gofal, oedolion anabl a gofalwyr teuluol sydd eisiau seibiannau byr, rhyddhau o'r ysbyty, gofal dementia, a phobl sydd wedi bod yn byw mewn unedau gofal preswyl neu unedau asesu a thrin hirdymor.

6.7.4 Heriau a Chyfleoedd

Mae'r pandemig wedi dod â heriau o ran asesu gofalwyr, cyflwyno rhai newydd, a lleoliadau newydd. Mae'r rhain wedi arafu'r broses o weithredu'r Cynllun Datblygu.

Yn ogystal â dangos posibilrwydd i ehangu a newid y gwasanaeth, tynnodd yr adolygiad sylw hefyd at y ffaith bod gan Orllewin Cymru botensial da i recriwtio gofalwyr. Roedd dadansoddiad o ddemograffeg yn edrych ar nodweddion aelwydydd ac yn cymharu'r

rhain â phroffil nodweddiadol gofawyr Cysylltu Bywydau. Canfu hyn fod gan 48 o'r 156 o wardiau yn y rhanbarth nifer uwch na'r cyfartaledd o breswylwyr ag ystafelloedd sbâr a bod gan 43 o'r wardiau hyn bobl â'r nodweddion gofynnol i fod yn ofalwr Cysylltu Bywydau

Gallai'r gwasanaeth Cysylltu Bywydau gael ei ategu gan fodolau tai cymunedol a chydweithredol eraill. Er enghraifft, mae Cynllun Rhannu Cartref yn cynnwys person, fel arfer ag anghenion cymorth lefel is, yn gosod ystafell am bris gostyngol yn gyfnewid am ychydig oriau o gymorth a chwmnïaeth yr wythnos. Fel Cysylltu Bywydau, mae hon yn ymagwedd gynaliadwy sy'n dibynnu ar barodrwydd pobl i gefnogi ei gilydd ac yn gwneud y defnydd gorau o'r lle sydd ar gael mewn tai. Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu tri chynllun peilot Rhannu Cartref, y mae cyfle i fynegi diddordeb ynddynt. Mae Cysylltu Bywydau a'r Cynllun Rhannu Cartref yn ychwanegu gwerth sylweddol at gymunedau.

Dywedodd y Comisiynwyr fod trafodaethau rhanbarthol cynnar yn cael eu cynnal i ystyried y cyfle i ymestyn y cynnig Cysylltu Bywydau i gefnogi pobl ifanc sy'n pontio o wasanaethau plant a oedd mewn lleoliadau maeth.

6.7.5 Effaith Comisiynu

Mae gan Orllewin Cymru gynllun Cysylltu Bywydau llwyddiannus sydd wedi hen ennill ei blwyf ac sy'n darparu sylfaen ardderchog ar gyfer twf. Mae'r achos busnes dros Gysylltu Bywydau yn gryf iawn gydag arbedion sylweddol o gymharu â mathau eraill o leoliadau. Er enghraifft amcangyfrifodd yr adolygiad y gallai ehangu'r cynllun ar gyfer pobl ag anabledau dysgu, fel bod 10% o bobl yn cael cymorth drwy Gysylltu Bywydau, arwain at arbedion o £1.1 miliwn y flwyddyn ledled y rhanbarth.

Mae'r Cynllun Datblygu Gwasanaeth yn sail dda ar gyfer tyfu'r gwasanaeth a mynd i'r afael â'r diffyg gofawyr presennol yng Ngheredigion a Sir Benfro.

6.7.6 Problemau ac Argymhellion

- Mae Cysylltu Bywydau yn cydweddu'n rhagorol â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu Gorllewin Cymru.
- Dylid ailedrych ar y Cynllun Datblygu, a buddsoddi adnoddau ychwanegol os oes angen i oresgyn unrhyw oedi a achosir gan y pandemig.
- Ystyried mynegi diddordeb ar gyfer cynllun peilot Rhannu Cartref i ategu gwasanaeth Cysylltu Bywydau estynedig ac amrywiol.

6.8 Cartrefi Gofal ar gyfer Oedolion o Oedran Gweithio

Mae un categori cofrestru ar gyfer cartrefi gofal pa bynnag grŵp oedran y maent yn darparu ar ei gyfer yn bennaf. Fodd bynnag, mae'r ystod o anghenion a ddiwellir gan gartrefi gofal mor eang fel bod asesiadau sefydlogrwydd ar wahân, at ddibenion asesu sefydlogrwydd, wedi cael eu gwneud ar gyfer tri sector o'r farchnad: plant, oedolion o oedran gweithio a phobl hŷn.

Diffinnir oedolion o oedran gweithio fel pobl 18-64 oed sydd ag amrywiaeth o anghenion gan gynnwys anabledau dysgu, anghenion iechyd meddwl, namau ar y synhwyrâu, cyflyrau niwrolegol, anabledau corfforol, dementia, a heriau defnyddio sylweddau. Mae mwyafrif llethol yr oedolion o oedran gweithio sydd ag anghenion o'r fath yn byw yn eu cymunedau, yn aml yn cael eu cefnogi gan ofalwyr anffurfiol ac yn derbyn amrywiaeth o wasanaethau cymorth, megis tai â chymorth, gwasanaethau dydd, offer a gofal cartref. Fodd bynnag, mae nifer fach o bobl ag anghenion mwy sylweddol neu gymhleth yn byw mewn gofal preswyl.

6.8.1 Digonolrwydd

Mae capasiti sylweddol mewn cartrefi gofal sy'n darparu gofal i oedolion o oedran gweithio yng Ngorllewin Cymru ond, fel yn achos cartrefi plant, mae llawer o leoedd yn cael eu prynu gan awdurdodau y tu allan i'r rhanbarth ac mae pobl yn aml yn cael eu lleoli y tu allan i'r sir.

Mae'n anodd cael data ar gapasiti cartrefi gofal ar gyfer oedolion o oedran gweithio oherwydd newidiadau yn y ffordd y caiff ei gasglu'n genedlaethol. Tan 2018 roedd Arolygiaeth Gofal Cymru yn cyhoeddi data ar gartrefi gofal ar gyfer oedolion o oedran gweithio ar wahân, ond nid yw'r data mwy diweddar yn cael ei rannu.

Trwy driongli data a ddarparwyd gan y siroedd ar gyfer yr MSR, data cenedlaethol a gwybodaeth o'r astudiaeth fanwl o gartrefi gofal i bobl hŷn, mae tua 85 o gartrefi'n darparu gofal i oedolion o oedran gweithio gyda chyfanswm o tua 800 o welyau ar draws y rhanbarth. Mae hyn yn cymharu â chyfanswm o 429 o oedolion o oedran gweithio a leolwyd gan awdurdodau Gogledd Cymru ym mis Mawrth 2021, ac roedd 22 ohonynt mewn cartrefi â nyrsio. Roedd gan y rhan fwyaf o oedolion o oedran gweithio a oedd yn gweithio mewn gofal preswyl Anabledau Dysgu (237/429) a phobl ag anghenion iechyd meddwl oedd y grŵp mwyaf nesaf (131/429). Gyda'i gilydd, roedd y ddau grŵp hyn yn cyfrif am dros 85% o oedolion o oedran gweithio mewn cartrefi gofal, ac 81% o'r gwariant gros ar ofal preswyl i oedolion o oedran gweithio.

Prin yw'r cartrefi gofal ar gyfer oedolion o oedran gweithio sy'n darparu gofal nyrsio ac mae bron pob un ohonynt yn y sector annibynnol. Mae dros 95% o gyfanswm gwariant gros awdurdodau lleol ar ofal preswyl neu nyrsio yng Ngorllewin Cymru yn y sector annibynnol, ac nid oes marchnad hunangyllidol o bwys.

Er gwaethaf ymgyrch genedlaethol a rhanbarthol hirdymor i symud tuag at ddarpariaeth yn y gymuned, mae nifer yr oedolion o oedran gweithio a leolir mewn cartrefi gofal wedi cynyddu ychydig ers 2018 (i fyny o 400 i 429 neu 7%). Er bod hyn yn llawer is na'r uchafswm capasiti rhanbarthol, mae tua 40% o'r lleoliadau ar gyfer oedolion o oedran gweithio y tu allan i'r sir (171 ym mis Mawrth 2021, heb fawr o newid dros y pedair blynedd diwethaf). Ceredigion sydd â'r gyfran uchaf o leoliadau y tu allan i'r sir o bell ffordd, sy'n adlewyrchu diffyg darpariaeth yn yr ardal, ond hyd yn oed yn Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin mae lleoliadau y tu allan i'r sir yn gyffredin (30% yn Sir Benfro a 28% yn Sir Gaerfyrddin).

Mae'r ymatebion i'r arolwg darparwyr yn dangos mai un o'r prif resymau am hyn yw bod llawer o leoedd yn cael eu prynu gan awdurdodau y tu allan i'r rhanbarth. Ymatebodd 13 o gartrefi gofal ar gyfer oedolion o oedran gweithio, gan gynnwys un cartref nyrsio, i'r arolwg. Roedd gan dri darparwr leoedd a brynwyd gan awdurdodau lleol Cymru y tu

allan i Orllewin Cymru, un gan Fwrdd Iechyd arall yng Nghymru ac roedd gan ddau leoedd a brynwyd gan awdurdodau lleol o Loegr.

Mae Comisiynwyr yn credu bod rhai lleoliadau a brynwyd gan awdurdodau lleol o'r tu allan i'r rhanbarth yn cael eu sicrhau drwy gyfraddau uwch na'r rhai a delir gan gynghorau Gorllewin Cymru a'r Bwrdd Iechyd. Nid oes unrhyw ddata cenedlaethol na lleol i brofi'r dybiaeth hon yn llawn ond mae adborth gan ddarparwyr yn dangos bod sicrhau'r cyfraddau uchaf yn flaenoriaeth.

Gall y gyfran uchel o leoliadau y tu allan i'r sir hefyd ddangos diffyg cyfatebiaeth rhwng y math o ddarpariaeth sydd ar gael yn lleol ac anghenion pobl y mae angen eu lleoli. Nododd y Comisiynwyr ei bod yn anodd dod o hyd i leoliadau lleol priodol ar gyfer pobl ag anghenion mwy cymhleth megis cyflyrau lluosog, ymddygiad sy'n herio ac anaf i'r ymennydd.

Ar gyfer Gorllewin Cymru gyfan, mae digon o gapasiti ar bapur, ond yn ymarferol nid oes llawer ohono ar gael pan fydd angen lleoliad, ac mae'n anodd diwallu anghenion unigol. Mae diffyg darpariaeth yng Ngheredigion ac o ganlyniad mae'r rhan fwyaf o oedolion o oedran gweithio sydd angen gofal preswyl yn cael eu lleoli y tu allan i'r sir.

6.8.2 Ansawdd a Dewis

Mae adroddiadau arolygu yn dangos bod y gofal a ddarperir mewn llawer o gartrefi o safon uchel, ond bod diffyg gwybodaeth systematig am yr ansawdd yn genedlaethol ac yn rhanbarthol. Mae angen ffyrdd gwell o fesur a monitro ansawdd sy'n rhoi llais cryf i ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr. Po bellaf yw'r lleoliadau o gymunedau pobl a'u teuluoedd, po anoddaf yw hi iddynt gynnal cydberthnasau ac i gomisiynwyr fonitro ansawdd.

Mae'r anhawster o ran dod o hyd i leoliadau i unigolion a nifer y lleoliadau y tu allan i'r sir yn dangos bod diffyg dewis yn y farchnad o ran rhoi lleoliadau am y cyfraddau ffioedd presennol a delir i gynghorau Gorllewin Cymru a'r Bwrdd Iechyd. Efallai na fydd anghenion siaradwyr Cymraeg yn cael eu diwallu'n dda ychwaith.

6.8.3 Tueddiadau

Rhagwelir y bydd poblogaeth oed gweithio Gorllewin Cymru yn gostwng dros y degawdau nesaf. Os yw pethau eraill yn gyfartal, dylai hyn leihau'r galw am ofal preswyl a gofal nyrsio i oedolion iau. Fodd bynnag, mae rhai tueddiadau i'r gwrthwyneb, gan gynnwys y ffaith i'w chrosawu bod disgwyliad oes pobl â llawer o anabledau yn gwella. Mae tystiolaeth hefyd bod nifer yr achosion o rai cyflyrau fel problemau iechyd meddwl ac awtistiaeth wedi bod yn cynyddu yn y tymor hir, a gall y pandemig waethygu hyn mewn perthynas ag iechyd meddwl.

Bu strategaeth hirdymor i leihau'r angen i bobl fyw mewn gofal preswyl a chynyddu dewisiadau eraill fel tai â chymorth a chysylltu bywydau. Roedd yr asesiad diweddar o'r angen am dai â chymorth gan y Rhwydwaith Gwella a Dysgu Tai yn cael ei briodoli i ostyngiadau sylweddol yn nifer y bobl a leolir mewn gofal preswyl neu mewn ysbytai dros y ddau ddegawd nesaf. Mae hon yn dybiaeth resymol, ond mae'r data'n awgrymu, er gwaethaf twf mewn opsiynau tai â chymorth, fod nifer y bobl mewn gofal preswyl wedi cynyddu ychydig yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Nodir bod y rhanbarth wedi datblygu Datganiad o Sefyllfa'r Farchnad ar gyfer Anabledau Dysgu (nid yw wedi'i

gyhoeddi), a ddisgrifiodd amcan strategol o leihau'r ddarpariaeth breswyl a chynyddu llety arall i gefnogi annibyniaeth.

Bu cynnydd diweddar yn nifer yr oedolion iau mewn gofal nyrsio, er bod hynny o sylfaen isel, o 16 ym mis Mawrth 2020 i 22 ym mis Mawrth 2021. Mae'r rhan fwyaf o'r cynnydd hwn mewn pobl ag 'anghenion eraill' (h.y. dim Anabledd Dysgu, iechyd meddwl, anabledd corfforol na nam ar y synhwyrau). Mae hyn yn cynnwys cyflyrau fel anaf i'r ymennydd a dementia cynnar. Adlewyrchir y duedd hon mewn cynnydd sylweddol yn y gwariant gros ar ofal nyrsio i oedolion iau yn y data Alldro Refeniw, o £9.6 miliwn yn 2018/20 i £12 miliwn yn 2020/21 ar draws pob categori o angen (25.7%).

6.8.4 Heriau a Chyfleoedd

Mae'n heriol iawn comisiynu gwasanaethau sy'n hygyrch yn lleol ar gyfer amrywiaeth eang o anghenion unigol. Fodd bynnag mae cyfanswm y gwariant ar gartrefi gofal i oedolion iau yn sylweddol ac yn cynyddu (dros £50 miliwn o wariant gros awdurdodau lleol yn 2020/21) sy'n awgrymu bod cyfle i sicrhau gwell cyfatebiaeth rhwng angen a darpariaeth drwy ymagwedd fwy strategol o gomisiynu'n lleol ac yn rhanbarthol.

Gellid mynd i'r afael â'r mater o brynu darpariaeth leol gan awdurdodau y tu allan i'r rhanbarth naill ai drwy gynyddu dewisiadau amgen, gan gynnwys darpariaeth fewnol, neu ymgysylltu â'r farchnad mewn ffordd wahanol, gyda mwy o ddefnydd o gontractau bloc rhanbarthol neu leol. Fodd bynnag, bydd angen ystyried yr opsiynau hyn yn ofalus a dadansoddi achosion busnes er mwyn deall costau.

Mae'r heriau o ran y gweithlu a deimlir ar draws gofal cymdeithasol yn cael eu rhannu gan gartrefi gofal oedolion o oedran gweithio ac maent yn arbennig o ddifrifol mewn ardaloedd gwledig. Cadarnhawyd hyn gan ddarparwyr yn yr arolwg a oedd hefyd yn pryderu am bwysau cost, lefelau ffioedd a gofynion cofrestru.

Mae'r pandemig wedi cael effaith fawr ar gartrefi gofal o bob math, er bod cartrefi i oedolion o oedran gweithio wedi gweld llai o ostyngiad mewn deiliadaeth na'r sector pobl hŷn. Roedd gan bump o'r 13 darparwr a ymatebodd i'r arolwg ddeiliadaeth o 100%, ac roedd y rhan fwyaf ohonynt yn 85% neu'n uwch. Ond er nad yw deiliadaeth yn achos pryder mawr i'r rhan fwyaf o ddarparwyr, rhennir heriau eraill y pandemig â gwasanaethau gofal cymdeithasol eraill: rheoli heintiau, mwy o arwahanwydd i breswylwyr, recriwtio, chwyddiant, a llai o lesiant meddyliol yn achos preswylwyr a staff.

Mae effaith hirdymor y pandemig yn ansicr iawn ond gall yr effaith ar lesiant meddyliol ac emosiynol ychwanegu at gymhlethdod anghenion oedolion o oedran gweithio sydd angen cymorth.

6.8.5 Effaith Comisiynu

Ceir Fframwaith Cydweithredol Cenedlaethol ar gyfer Oedolion (18+ oed) mewn cartrefi gofal Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu a chartrefi gofal gyda nyrsio ar gyfer y GIG ac awdurdodau lleol yng Nghymru ('Fframwaith Cartrefi Gofal')¹⁵. Fodd bynnag, yr adborth gan gomisiynwyr yw bod y defnydd o'r fframwaith yn anghyson ar draws y rhanbarth, sy'n golygu nad yw cyfleoedd i sicrhau darpariaeth leol yn cael eu cymryd bob amser.

¹⁵ [Datganiad Sefyllfa Blynyddol 2019/20](#)

Oherwydd yr amrywiaeth o anghenion ymhlith oedolion o oedran gweithio, mae prynu 'ar hap' yn fodel deniadol. Fodd bynnag, mae amodau presennol y farchnad yn dangos cyfyngiadau'r ymagwedd hon gyda llawer o bobl wedi'u lleoli y tu allan i'r sir a dylanwad cyfyngedig gan gomisiynwyr dros bris ac ansawdd. Nid yw darparwyr yn derbyn arwyddion clir na chyson am y ddarpariaeth sy'n ofynnol, ac nid oes ganddynt fawr o gymhelliant i flaenoriaethu lleoliadau lleol. Maent hefyd yn wynebu'r risg o amrywiadau yn y galw a'r ddeiliadaeth, sy'n dylanwadu ar benderfyniadau am fuddsoddi.

Bu cynnydd da o ran datblygu dewisiadau eraill yn hytrach na gofal preswyl megis tai â chymorth, tai gofal ychwanegol a chysylltu bywydau. Fodd bynnag, nid yw hyn wedi bod yn ddigon cyflym i leihau cyfanswm y niferoedd mewn gofal preswyl yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

6.8.6 Problemau ac Argymhellion

- Mae angen ymagwedd fwy strategol at gomisiynu cartrefi gofal ar gyfer oedolion o oedran gweithio er mwyn sicrhau bod mwy o ddarpariaeth leol ar gael a thrwy hynny wella canlyniadau i bobl.
- Dylai hyn gynnwys buddsoddiad pellach i ddatblygu a chynyddu darpariaeth gymunedol amgen, gan gynnwys amrywiaeth eang o opsiynau tai arbenigol (fel y cyfeirir atynt yn adroddiad y Rhwydwaith Gwella a Dysgu Tai).
- Dylid hefyd ystyried sicrhau darpariaeth leol bwrpasol, boed yn fewnol, neu drwy gontractau (mae llawer o opsiynau rhwng prynu ar hap yn unig a chontractau bloc anhyblyg).
- Efallai yr hoffai Comisiynwyr ystyried cynnig unrhyw ddarpariaeth "sbâr" i gynghorau eraill yng Ngorllewin Cymru neu gynnig y rhain yn fwy cyffredinol drwy LATC pan nad oes eu hangen yn rhanbarthol. Mae'n bwysig bod trefniadau o'r fath yn rhoi ystyriaeth lawn i gostau ac yn sicrhau bod capasiti'n cael ei ddychwelyd i'r cyngor lletyol/arweiniol os oes angen.
- Gall defnydd cyson o'r Fframwaith Cydweithredol Cenedlaethol hefyd helpu i sicrhau darpariaeth leol.
- Mae adnoddau ac arbenigedd comisiynu wedi'u gwasgaru'n denau neu'n canolbwyntio ar y meysydd gwariant uwch eu gwariant fel pobl hŷn. Mae gan fuddsoddi mewn adnoddau a phrosiectau penodol ar gyfer oedolion o oedran gweithio y potensial i roi bod i welliannau sylweddol o ran ansawdd a gwell gwerth am arian yn y tymor hwy, yn ogystal â sicrhau capasiti.
- Dylai gwell data am ansawdd, gan gynnwys llais y defnyddiwr, fod yn flaenoriaeth
- Dylid cynnwys y sector oedolion o oedran gweithio mewn dull traws-system o fynd i'r afael â heriau'r gweithlu.

6.9 Gwasanaethau Gofal Cartref

6.9.1 Digonolrwydd

Mae gwasanaethau gofal cartref a reoleiddir yn rhan bwysig o'r "ffabrig" gofal cymdeithasol sy'n cefnogi pobl leol i gynnal eu hannibyniaeth yn eu cartrefi eu hunain. Mae'r gwasanaethau hyn yn cefnogi gwytnwch a llesiant ac yn cynnig dewisiadau eraill yn hytrach na darpariaeth breswyl, yn ogystal â chymorth ailalluogi i hwyluso trosglwyddiadau hwylus a diogel o ysbytai a chyfrannu at leihau derbyniadau brys i'r ysbyty.

Mae gwasanaethau gofal cartref ar gael i bob grŵp oedran, ond yn ymarferol maent yn canolbwyntio'n bennaf ar gefnogi pobl hŷn ag anghenion gofal a chymorth. Yn gyffredinol, mae plant ac oedolion o oedran gweithio yn cael eu cefnogi i fod yn annibynnol yn eu cymunedau eu hunain drwy drefniadau eraill - fel byw gyda chymorth a gofal seibiant - sy'n seiliedig ar anghenion a disgwyliadau gwahanol y grwpiau poblogaeth hyn.

Mae'r ffaith taw gwasanaeth i bobl hŷn i raddau helaeth iawn yw gofal cartref yn cael ei adlewyrchu yn y data alldro refeniw. Yng Ngorllewin Cymru, mae 93% o'r gwariant ar oedolion a gaiff ei gategoreiddio fel gofal cartref yn cael ei wario ar bobl hŷn, gyda'r gweddill yn cael ei wario ar oedolion o oedran gweithio. Nid oes categori ar gyfer gofal cartref i blant, sy'n adlewyrchu'r ffaith mai prin yw'r cymorth a roddir yn y cartref i blant ag anabledau, ac na fyddai'n cael ei ddisgrifio fel arfer fel gofal cartref. Os caiff 'cymorth arall i blant anabl' ei gyfuno â gofal cartref, yna mae gwariant ar bobl hŷn yn dal i gynrychioli 91% o'r cyfanswm, a hynny ar blant 1.4%.

Mae'r darlun cenedlaethol yn debyg, gan fod y rhan fwyaf o ofal cartref yn cael ei ddarparu i bobl hŷn ond mae cyfran y gwariant ar oedolion o oedran gweithio yn sylweddol uwch nag yng Ngorllewin Cymru (22.4% ar gyfer Cymru gyfan o gymharu â dim ond 6.97% yng Ngorllewin Cymru yn 2021). Mae hyn yn dangos bod lefel y cymorth gofal cartref a gomisiynwyd ar gyfer oedolion o oedran gweithio ledled Gorllewin Cymru yn is na lefel awdurdodau lleol eraill yng Nghymru, sy'n awgrymu bwlch mewn digonolrwydd nad yw'n cael ei esbonio'n llawn gan lai o bobl o oedran gweithio yn y boblogaeth leol.

Mae fersiwn drafft PNA 2022 yn ail-gadarnhau bod yn well gan bobl hŷn i'w hanghenion gofal gael eu diwallu yn eu cartrefi eu hunain, a bod y galw am ofal yn cynyddu, wrth i boblogaeth y rhanbarth heneiddio, gyda chymhlethdod iechyd cynyddol. Adlewyrchwyd y darlun o'r galw cynyddol hefyd mewn ymatebion gan ddarparwyr i'r arolwg, sydd ar y cyfan yn disgwyl i'r gwaith a gomisiynir gan yr awdurdod lleol gynyddu yn y dyfodol, er yn llai felly i hunan-gyllidwyr sy'n prynu gofal cartref.

Mae'n anodd cael syniad gwirioneddol o union faint y farchnad hunangyllidol. Nid oes unrhyw setiau data cenedlaethol sy'n casglu'r wybodaeth hon, ac mae systemau'r awdurdod lleol yn canolbwyntio ar weithgarwch a gomisiynir yn unig. Mae ymchwil a wnaed gan y Gymdeithas Gofal Cartref yn amcangyfrif bod 21% o ofal cartref yn cael ei brynu gan hunan-gyllidwyr ledled Cymru.

Dengys dadansoddiad o ddata gweithgarwch dros y cyfnod rhwng mis Ebrill 2020 a mis Medi 2021 ddarlun gweddol wastad o weithgarwch o ran nifer y bobl a gefnogir gan y cynghorau a'r oriau a gomisiynwyd. Ar gyfer Gorllewin Cymru gyfan, roedd 2,217 o

bobl ar gyfartaledd yn derbyn gofal cartref cyffredinol bob wythnos (h.y. heb gynnwys ailalluogi neu fyw â chymorth), gyda chyfartaledd o 25,567 awr yr wythnos yn cael eu darparu – sy'n cyfateb i 11.5 awr y person yr wythnos.

O ran llunio barn ar ddigonolrwydd gwasanaethau gofal cartref a reoleiddir ar gyfer pobl hŷn, mae nifer o ffactorau ar waith sy'n awgrymu bod gwasanaethau'n cael eu hystyried ac nad yw pobl hŷn leol yn gallu cael gafael ar wasanaethau sy'n eu cefnogi i aros yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain. Mae adborth gan gomisiynwyr a darparwyr a dadansoddiad o ddata gweithgarwch cartref a gomisiynwyd yn dangos bod:

- Mae darparwyr yn trosglwyddo contractau yn ôl gan eu bod yn dweud nad oes ganddynt y capasiti staffio yn y manau cywir i dderbyn atgyfeiriadau newydd.
- Mae prinder gweithlu, gan gynnwys y gallu i gadw staff gofal cartref o ansawdd da, yn cael ei amlygu gan ddarparwyr a chomisiynwyr fel yr un risg fwyaf arwyddocaol i ddigonolrwydd a sefydlogrwydd y farchnad ar draws y farchnad gofal yn ei chyfarwydd.
- Mae adborth gan gomisiynwyr yn dangos bod y pwysau ar y farchnad gofal cartref ar ei fwyaf yn Sir Benfro a Cheredigion. Mae gan y ddwy sir restrau aros ac mae gwasanaethau'n cael eu trosglwyddo nôl, er, mae problemau tebyg yn Sir Gaerfyrddin.
- Dywedodd llawer o ddarparwyr yn yr arolwg nad oeddent yn gallu talu'n ddigonol i gystadlu â sectorau eraill (fel hamdden, manwerthu a thwristiaeth) gan beri risg i sefydlogrwydd eu busnes. Cynyddu ffioedd oedd yr opsiwn ail mwyaf poblogaidd i "wella sefydlogrwydd eu busnes"
- Fodd bynnag, mae dadansoddiad a wnaed gan y Gymdeithas Gofal Cartref yn 2021 yn dangos mai Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro yw'r cynghorau sy'n talu uchaf yng Nghymru, a dyma'r unig ddau yn genedlaethol sy'n talu uwchlaw'r gyfradd isaf a argymhellir gan y Gymdeithas Gofal Cartref sef £21.43 yr awr, er adroddwyd bod Ceredigion yn talu'n is na'r gyfradd¹⁶ isaf a argymhellir.
- Mae gan y tri chynghor restrau aros cynyddol ers haf 2021 (gweler yr atodiad technegol).
- Mae Comisiynwyr yn sôn bod defnydd cynyddol o ofal preswyl i gefnogi unigolion sy'n cael eu rhyddhau o'r ysbyty ac sy'n aros am becyn gofal cartref, sy'n dangos prinder yn y farchnad.
- Mae Comisiynwyr yn adrodd eu bod wrthi'n adolygu pecynnau gofal cartref er mwyn ystyried lleihau nifer yr oriau a ddarperir lle y bo'n briodol a cheisio mwy o gymorth gan ofalwyr teuluol yn lle hynny, a chael mynediad at opsiynau cymorth cymunedol ataliol ehangach. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu mewn data gweithgarwch ar gyfer 2021 (gweler y ddogfen dechnegol), sy'n dangos bod nifer yr oriau sy'n cael eu comisiynu naill ai'n aros yr un peth neu'n lleihau er gwaethaf y cynnydd yn y galw.

Mae'r amgylchiadau hyn yn cyd-fynd i raddau helaeth â chanlyniadau dau ffactor allweddol, yn gyntaf y pandemig parhaus ac yn ail y pwysau parhaus ar gyllideb y sector cyhoeddus sydd wedi golygu bod angen gwneud arbedion dros gyfnod hir.

Y consensws cyffredinol yw bod sefydlogrwydd y farchnad gofal cartref yn y rhanbarth yn fregus ac yn peryglu digonolrwydd o ran bodloni'r galw a disgwyliadau pobl leol.

¹⁶ The Homecare Deficit 2021, Home Care Association, p125

6.9.2 Ansawdd a Dewis

Ar hyn o bryd, nid yw Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn cyhoeddi sgoriau ei harolygiadau gan gynnwys y rhai ar gyfer gwasanaethau cartref a reoleiddir - ond yn hytrach maent yn defnyddio "system dawel" lle mae'r sgôr ar gael i'r rheoleiddiwr yn unig. Nid yw'r trefniant hwn yn helpu unigolion i arfer dewisiadau yn seiliedig ar werthusiadau proffesiynol o safon. O dan delerau Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, y bwriad oedd cyflwyno system sgorio o 2021 ymlaen, ond gohiriwyd hyn oherwydd y pandemig.

Mae data AGC o 2020 yn dangos taw 15.2% oedd cyfran y gweithwyr gofal cartref cofrestredig a oedd yn rhugl yn y Gymraeg ar draws y rhanbarth, sy'n is na'r cyfartaledd rhanbarthol o siaradwyr Cymraeg rhugl (37% o'r boblogaeth yn 2011) ac mae'r bwlch yn fwy amlwg yn Sir Benfro lle dim ond 5.9% o'r gweithlu hwn oedd yn siaradwyr Cymraeg rhugl.

Mae natur wledig y rhanbarth a'r nifer gymharol isel o ddarparwyr y pen yn awgrymu bod gan bobl leol, mewn rhai rhannau o Orllewin Cymru, lai o ddewis rhwng darparwyr gofal cartref. Mae'n ymddangos bod hyn yn fwy amlwg yn Sir Benfro a Cheredigion.

6.9.3 Tueddiadau

Er bod ansicrwydd o hyd beth fydd canlyniadau hirdymor y pandemig, mae rhai tueddiadau clir yn dod i'r amlwg a fydd yn effeithio ar ddigonolrwydd a sefydlogrwydd y farchnad gofal cartref yn y dyfodol, sef:

- Mae'r gwariant ar ofal cartref a gomisiynwyd gan bob un o'r tair sir wedi cynyddu yn ystod y pandemig ond mae nifer yr oriau a gomisiynwyd wedi aros yn gymharol wastad. Ar yr un pryd, mae cyfran yr oriau a gyflenwir yn fewnol wedi cynyddu, gan arwain at gostau uwch posibl am wasanaethau mewnol (awgrymir eu bod yn gysylltiedig â gwell telerau ac amodau i staff).
- Mae fersiwn drafft PNA 2022 yn cadarnhau bod pobl leol yn gynyddol eisiau i ofal gael ei ddarparu a bod ar gael yn eu cartrefi eu hunain fel dewis arall yn lle gofal preswyl.
- Awgryma adborth gan gomisiynwyr a darparwyr fod y pandemig wedi cael effaith negyddol ar farn pobl am ofal preswyl. Mae pobl yn ymdopi gartref ar eu pen eu hunain am hirach a llawer llai parod i fynd i leoliadau gofal ffurfiol oherwydd cyfyngiadau a phryderon am COVID.
- Mae darparwyr a chomisiynwyr yn nodi lefelau cynyddol o gymhlethdod ymhlith pobl sy'n derbyn gofal cartref. Mae hyn yn cael effaith sylweddol ar allu darparwyr i ymateb o ystyried prinder gweithlu yn eang ar draws y sector.
- Mae darparwyr yn dweud bod cyfrannau uwch o oriau o ofal cartref a brynwyd gan awdurdodau lleol o gymharu ag oriau a brynwyd gan hunan-gyllidwyr. Dengys adborth fod gan hunan-gyllidwyr fwy o ddewis ynghylch cael gafael ar ofal a chymorth a'u bod yn dewis peidio â defnyddio gofal cartref (neu hyd yn oed ofal preswyl) oherwydd pryderon am y pandemig. Nododd tua 50% o'r darparwyr a ymatebodd i'r arolwg i ddarparwyr fod nifer yr oriau a brynwyd gan hunangyllidwyr wedi gostwng yn ystod 2020/21.
- Mae adborth gan gomisiynwyr yn dangos bod cyfle i gynnig modelau newydd o ofal cartref i hunan-gyllidwyr drwy ehangu microfusnesau. Nid yw llawer o'r gwasanaethau hyn yn cael eu rheoleiddio ond maent yn cynnig cymorth i unigolion i

gynnal eu hannibyniaeth. Mae Sir Benfro yn buddsoddi yn y farchnad hon ac wedi cefnogi cyflwyno 30 o ficrofusnesau i'r ardal.

- Dim ond 15% o'r darparwyr a ymatebodd i'r arolwg i ddarparwyr oedd yn disgwyl i'r gweithgarwch hunan-gyllidol gynyddu'n sylweddol dros y 12 mis nesaf (gan ddangos gwelliant bach yn hyder y farchnad), ond roedd 40% yn disgwyl i weithgarwch yr awdurdodau lleol a'r Byrddau Iechyd gynyddu dros yr un cyfnod.
- Fodd bynnag, cynhaliwyd yr arolwg hwn i ddarparwyr ddiwedd 2021 cyn amrywiolyn Omicron, ac mae ansicrwydd o hyd ynghylch pryd ac os bydd lefelau gweithgarwch, yn enwedig ymhlith hunan-gyllidwyr, yn dychwelyd i'r lefelau oedd cyn y pandemig.
- Mae cynghorau sir wedi cynyddu eu cyfran o'r ddarpariaeth yn y farchnad gofal cartref dros y 3 blynedd diwethaf. Yn fwyaf nodedig, roedd ymadawiad darparwr mawr yn 2021 yn arwydd o newid sylweddol tuag at ddarpariaeth fewnol wrth i gynghorau ymateb i sicrhau parhad gofal fel rhan o'u dyletswyddau yn y farchnad.
- Fodd bynnag, mae lefel y ddarpariaeth fewnol yn wahanol iawn rhwng y tri chyingor sir - adroddir bod y ddarpariaeth fewnol yn brin yng Ngheredigion o ran darpariaeth gofal cartref hirdymor; mae Sir Benfro wedi cynyddu ei chyfran o'r rhan hon o'r farchnad o 0% i 17% dros y 3 blynedd diwethaf; ac mae Sir Gaerfyrddin yn dweud ei bod bellach yn cwmpasu 32% o'r farchnad hon o ran yr oriau a brynwyd.
- O ran ailalluogi (gwasanaethau tymor byr eu natur i helpu unigolion yn gyffredinol i adennill annibyniaeth wrth gael eu trosglwyddo o'r ysbyty), nodir bod y rhain i gyd yn cael eu darparu'n fewnol ar draws y rhanbarth, gyda Sir Benfro yn symud ei holl ddarpariaeth ailalluogi yn fewnol yn 2019/20 fel rhan o'i bwriad strategol i ddatblygu gwasanaethau gofal canolraddol.

6.9.4 Heriau a chyfleoedd

- Mae'r galw am ofal cartref yn debygol o gynyddu yn y tymor hir oherwydd y boblogaeth sy'n heneiddio a'r niferoedd cynyddol o bobl â dementia ac anghenion cymhleth eraill.
- Gall y pandemig waethygu'r sefyllfa hon gan fod pobl yn gohirio symud i ofal preswyl. Bydd hyn yn atgyfnerthu'r duedd bresennol tuag at fwy o gymhlethdod o ran anghenion pobl sy'n cael eu cefnogi yn y gymuned.
- Mae darparu gofal cartref yn fwy heriol a drud mewn ardaloedd gwledig ac mae hyn yn anghymhelliad i ddarparwyr newydd neu ddarparwyr presennol gynyddu'r ddarpariaeth (er enghraifft, nododd rhai darparwyr na thalwyd amser teithio rhwng ymweliadau - ac mae angen sicrhau cysondeb ar draws y rhanbarth o ran talu costau teithio a chostau ychwanegol).
- Mae recriwtio a chadw staff wedi dod yn fwyfwy heriol, yn rhannol oherwydd y pandemig, ond hefyd mae'n adlewyrchu'r gystadleuaeth am staff gyda sectorau eraill. Mae hyn yn debygol o barhau oherwydd amcanestynnir bydd y boblogaeth o oedran gweithio yn gostwng.
- Mae'r heriau eisoes yn amlygu eu hunain mewn rhestrau aros, rhai'n gadael y farchnad, a throsglwyddo contractau yn ôl. Mae hyn wedi annog symud tuag at ddarpariaeth fewnol dros y tair blynedd diwethaf mewn ymgais i sicrhau darpariaeth. Mae'r newid hwn yn cyflwyno her, ond hefyd gyfleoedd i gomisiynwyr a darparwyr ail-lunio'r ddarpariaeth yn rhagweithiol a datblygu modelau newydd.
- Mae cyfleoedd i gryfhau partneriaethau gyda rhwydweithiau cymorth cymunedol, sydd wedi ffynnu yn ystod y pandemig, a hefyd i gynyddu modelau darpariaeth *hub and spoke*, gan gynnwys cartrefi preswyl a gwasanaethau iechyd, ochr yn ochr â gofal cartref a darpariaeth y trydydd sector.

6.9.5 Effaith Comisiynu

Yn genedlaethol, mae pryder bod maint yr elw ar gyfer darparwyr gofal cartref yn dynn iawn a bod modelau comisiynu, fel systemau prynu deinamig, wedi annog darparwyr i gystadlu ar bris yn hytrach nag ansawdd mewn 'ras i'r gwaelod'. Mae'r cyfraddau a delir gan awdurdodau Gorllewin Cymru yn uwch na'r cyfartaledd, ond efallai na fydd hyn yn ddigon i wrthbwysu heriau gwledigrwydd a'r gweithlu.

Mae Comisiynwyr wedi gweithredu'n gyflym i ddod â gwasanaethau'n fewnol ac i ymateb i bwysau yn y farchnad ac i ddarparwyr yn gadael y farchnad. Fodd bynnag, bydd angen dull mwy rhagweithiol o ail-gydbwysu'r farchnad yn y tymor hwy, er mwyn sicrhau marchnad gynaliadwy gyda chymysgedd dda o ddarpariaeth.

Mae cryn le i wella partneriaeth ac arloesedd gyda chomisiynwyr a darparwyr yn cydweithio i ddatblygu modelau ailalluogi mwy effeithiol a gwneud gwell defnydd o dechnoleg.

6.9.6 Problemau ac Argymhellion

- Mae'r farchnad gofal cartref yn hanfodol i helpu pobl i fyw'n annibynnol a lleihau / oedi'r angen am wasanaethau iechyd aciwt a gofal preswyl. Fodd bynnag, dyma'r sector hefyd sydd o dan y pwysau mwyaf efallai, sy'n peryglu sefydlogrwydd a digonolrwydd y cyflenwad.
- Mae angen i gomisiynwyr a darparwyr gydweithio i fynd i'r afael â phroblemau gweithlu sylweddol ar draws y sector.
- Mae angen ymgysylltu'n barhaus â darparwyr hefyd er mwyn datblygu modelau newydd a hyrwyddo arloesedd.
- Dylai'r rhanbarth ddatblygu dull strategol o ymdrin â'r farchnad, gan symud y tu hwnt i'r mesurau brys adweithiol sydd wedi bod yn fwyfwy gofynnol yn ystod y pandemig.
- Dylid adolygu methodolegau ffioedd i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â chostau (megis ymrwymiad cenedlaethol i'r Cyflog Byw Go lawn) a cheisio mwy o gysondeb ar draws y rhanbarth. Nodir bod Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro wedi cynnwys modelau cost unedau'r Gymdeithas Gofal Cartref yn eu tendrau presennol ar gyfer 2022, ac mae'r ddwy sir ar hyn o bryd yn talu uwchlaw'r gyfradd isaf a argymhellir gan y Gymdeithas Gofal Cartref - tra bo Ceredigion yn talu'n is na'r gyfradd hon a argymhellir.
- Anogir ymchwilio ymhellach i fuddsoddi mewn atebion ataliol ac ymyrraeth gynnar yn y gymuned (gan gynnwys argaeledd llety addas) i wrthbwysu'r galw a lefelau cynyddol o gymhlethdod. Er enghraifft, mae potensial i ehangu ar ymagwedd Sir Benfro o gefnogi "microfusnesau" wrth ddarparu gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac ataliol yn y gymuned.

6.10 Cartrefi Gofal ar gyfer Pobl Hŷn

6.10.1 Digonolrwydd

Ar y cyfan nid yw nifer y cartrefi gofal a'r gwelyau ar gyfer pobl hŷn yng Ngorllewin Cymru wedi newid fawr ddim dros y pum mlynedd diwethaf.

Mae mwyafrif helaeth cartrefi gofal Gorllewin Cymru yn y sector annibynnol. Mae gan bob sir rywfaint o ddarpariaeth fewnol; gan Geredigion mae'r mwyafrif a Sir Benfro'r lleiaf, ond ym mhob un o'r tair sir ceir ychydig o gartrefi trydydd sector.

Mae'r rhan fwyaf o gartrefi yng Ngorllewin Cymru yn eiddo i fusnesau bach neu ganolig eu maint ac nid oes llawer o ddarpariaeth gan fusnesau cenedlaethol mawr. Mae gan hyn gryfderau o ran ymrwymiad hirdymor i gymunedau lleol ond mae'n golygu efallai na fydd gan fusnesau fynediad at gyfalaf ar gyfer ailfodelu gwasanaethau presennol neu fuddsoddi mewn cyfleusterau newydd.

Er na fu llawer o newid yn nifer y cartrefi na'u perchnogaeth dros y pum mlynedd diwethaf, mae newid wedi bod yn y math o ddarpariaeth, gyda gostyngiad cymedrol yn nifer y gwelyau mewn cartrefi nyrsio a chynnydd yn nifer y gwelyau i 'henoed bregus eu meddwl' (EMI) mewn cartrefi gofal preswyl heb nyrsio. I raddau, mae'r tueddiadau hyn yn cyd-fynd â'r ymgyrch i alluogi pobl i fyw yn eu cartrefi am fwy o amser, sy'n golygu bod pobl yn symud i ofal preswyl yn hŷn a chyda cydafiechedd.

Fodd bynnag, mae gostyngiad mewn gwelyau nyrsio yn golygu efallai nad oes digon o ofal eisoes o ran nyrsio i ddiwallu anghenion pobl, yn enwedig y rheini ag anghenion mwy cymhleth, megis ymddygiad sy'n gysylltiedig â dementia, sy'n aml yn cael eu lleoli y tu allan i'r sir neu'r tu allan i'r rhanbarth.

Mae'r pandemig parhaus wedi cael effaith ddifrifol ar ddarparwyr sydd â galw is, costau uwch, a mwy o anawsterau o ran recriwtio a chadw. Mae cymorth gan Lywodraeth Cymru a chomisiynwyr yn rhanbarthol wedi lliniaru hyn i raddau helaeth, ond wrth i gymorth ariannol ddiplannu'n raddol (daw Cronfa Galedi Llywodraeth Cymru i ben ym mis Mawrth 2022), mae'r rhagolygon i ddarparwyr yn ansicr iawn. Mae hon yn ergyd arall i fuddsoddiad ac mae'n golygu ei bod yn debygol y bydd mwy o ddiffyg yn y ddarpariaeth fwy arbenigol sydd ei hangen yn y dyfodol.

Ar hyn o bryd mae digon o ddarpariaeth breswyl gyffredinol i ateb y galw, ond gallai hyn newid dros y 6-12 mis nesaf os bydd y pwysau ar ddarparwyr yn arwain at gynydd cyflym yn y nifer sy'n gadael y farchnad wrth i gyllid caledi ddod i ben.

6.10.2 Ansawdd a Dewis

Nid oes gan Arolygiaeth Gofal Cymru system ar gyfer sgorio cartrefi gofal. Mae hyn yn ei gwneud yn anos meincnodi ansawdd yn erbyn meysydd eraill neu i unigolion a'u teuluoedd ddewis gofal yn hyderus. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn awgrymu bod ansawdd y gofal a ddarperir gan gartrefi yng Ngorllewin Cymru yn dda ar y cyfan. O bryd i'w gilydd, fodd bynnag, nodir pryderon sylweddol drwy fonitro neu ddilyn arolygiadau. Mae protocol rhanbarthol ar waith i nodi a mynd i'r afael â phryderon, ac os oes angen, eu cyfeirio ymlaen.

Mae diffyg data am ansawdd o safbwynt y defnyddiwr. Mae hwn yn faes heriol o ystyried anghenion preswylwyr ond mae lle i wella.

Mae llawer o gartrefi gofal yng Ngorllewin Cymru yn adeiladau sydd wedi'u haddasu ac mae angen gwneud buddsoddiad sylweddol i wella'r ddarpariaeth bresennol ac i ddarparu'r math o gyfleusterau modern pwrpasol y mae'n well gan bobl sydd angen gofal arnynt. (Nodir bod Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) yn gofyn am safonau ffisegol uwch ar gyfer cartrefi gofal newydd ac estyniadau, gydag *en-suite* yn ofynnol ym mhob ystafell sy'n cynnwys cawod yn ogystal â gofynion o ran mwy o le). Mae darparwyr wedi nodi bod y cyfle i fuddsoddi yn heriol gan arwain at ddiffyg dewis – ac efallai na fydd pobl yn gallu dod o hyd i ofal o'r ansawdd maent am ei gael, neu'r math sydd ei angen arnynt, yn agos i gartref neu i'r teulu.

Mae cartrefi gofal yn darparu gwerth cymdeithasol sylweddol drwy'r cyfraniad pwysig a wnânt at lesiant a gweithrediad cyffredinol y system iechyd a gofal cymdeithasol. Maent hefyd yn gyflogwyr pwysig ac mae'r ffaith bod y rhan fwyaf o ddarparwyr presennol yn fusnesau Gorllewin Cymru yn helpu i gadw gwariant a refeniw o fewn yr economi leol.

Amcangyfrifodd astudiaeth yn 2016 mai cyfanswm gwerth uniongyrchol, anuniongyrchol, ac ysgogedig y sector gofal cymdeithasol i oedolion yng Nghymru oedd £2.2 biliwn. Amcangyfrifwyd mai cyfanswm GYC y sector (y gwerth uniongyrchol) oedd £1.1 biliwn gyda thros chwarter - £328 miliwn - mewn gofal preswyl.¹⁷

Mae lle i gynyddu'r gwerth cymdeithasol a ddarperir drwy annog mwy o ddarpariaeth yn y trydydd sector a hyrwyddo cydweithio rhwng cartrefi gofal, darparwyr eraill, a'r cymunedau maent yn gweithredu ynddynt. Gallai cartref gofal preswyl gydweithio â rhwydweithiau cymunedol lleol a darparwyr gofal cartref er enghraifft. Mae Sir Benfro yn dechrau profi ymagwedd o'r fath, gan weithio gyda chartref gofal preswyl annibynnol a gwasanaethau gofal dydd i gynnig cymorth i bobl yn y gymuned. Mae'r ymagwedd hon yn cynnwys creu rolau gofal hyblyg sy'n caniatáu i staff weithio mewn gwahanol leoliadau – sy'n ychwanegu at foddhad pobl yn eu swydd, ac o bosibl, yn gwella lefelau cadw a recriwtio staff.

6.10.3 Tueddiadau

Mae'r farchnad wedi bod yn gymharol sefydlog gydag ychydig yn ymuno neu'n gadael, ond ar ôl i gyllid caledi ddod i ben ym mis Mawrth 2022, efallai fydd darparwyr nad yw eu deiliadaeth wedi'i hadfer yn llwyr barhau i'w gweld hi'n anodd (fel yr adlewyrchir yn yr arolwg i ddarparwyr). Mae hyn yn fwyaf tebygol o fod yn berthnasol i gartrefi hŷn y mae angen buddsoddi ynddynt, sy'n cynnig gofal preswyl cyffredinol.

Pe bai hyn yn digwydd yn raddol ochr yn ochr â chynnydd mewn darpariaeth fwy arbenigol, byddai hyn yn cyfateb yn well i'r galw, ond y risg yw bod colli darpariaeth yn digwydd yn rhy gyflym heb ddigon o fuddsoddiad mewn darpariaeth newydd.

Mae costau cyfalaf sylweddol o ran ymuno â'r farchnad ofal a safonau rheoleiddio i'w bodloni, ond nododd yr arolwg i ddarparwyr mai ar hyn o bryd, yr angen i recriwtio a chadw staff â'r sgiliau priodol, yn enwedig nyrsys cofrestredig, oedd y rhwystr mwyaf.

Mae'r duedd tuag at fod yn fwy craff o ran anghenion preswylwyr wedi'i nodi. Roedd un darparwr a gafodd ei gyfweld yn ehangu gofal nyrsio ac wedi sefydlu busnes gofal

¹⁷ [Gwerth Economaidd y sector Gofal Cymdeithasol i Oedolion – Cymru, ICF Consulting, a gomisiynwyd gan Sgiliau ar gyfer Gofal a Datblygu, 2016](#)

cartref yn ystod y pandemig, ond roedd hyn yn eithriad. Dywedodd llawer o ddarparwyr nad oeddent yn gallu troi at ofal nyrsio naill ai oherwydd cyfyngiadau ffisegol yr adeilad a manylebau uwch ar gyfer estyniadau ac adeiladau newydd, mynediad gwael at gyfalaf, neu bryderon sylweddol ynghylch recriwtio nyrsys cofrestredig a staff gofal. Nododd comisiynwyr hefyd fod rhai cartrefi gofal yn ei chael hi'n anodd ymdopi ag anghenion mwy cymhleth preswylwyr, a oedd yn waeth oherwydd prinder y gweithlu.

Os bydd gwasanaethau cymunedol i helpu pobl i fyw'n annibynnol am fwy o amser yn ehangu, mae nifer y bobl y mae angen gofal preswyl arnynt yn debygol o dyfu'n gymedrol, os o gwbl, ond byddant yn symud i gartrefi gofal yn ddiweddarach gydag anghenion mwy cymhleth. Mae'r senario hwn yn debygol o arwain at arosiadau byrrach mewn lleoliadau gofal preswyl, ac o ganlyniad cyfradd trosiant uwch a chyfnod hirach cyn derbyn rhywun newydd. Dangosodd dadansoddiad gan Lywodraeth Cymru yn 2018 y "gall gymryd sawl wythnos yn aml i wneud trefniadau i lenwi lle gwag pan fydd preswlydd yn gadael neu'n marw – ac yn hirach os oes angen ailaddurno mawr". Mae'r oedi hwn yn ychwanegu pwysau pellach at sefydlogrwydd darpariaeth cartrefi gofal.

Mae darparwyr a chomisiynwyr wedi nodi'r defnydd cynyddol o opsiynau seibiant mewn cartrefi gofal i helpu i adsefydlu unigolion sy'n cael eu trosglwyddo o'r ysbyty (yr agenda 'Rhesymoli') a chynnig gofal nes bod gofal cartref ar gael. Mae'r trefniadau hyn wedi'u cynllunio i fod yn rhai dros dro yn unig, ond mae comisiynwyr yn cydnabod, wrth i restrau aros gynyddu, fod perygl y bydd unigolion yn cael eu 'sefydlu' po hwyaf y bydd pecynnau o'r fath yn para. At hynny, mae darparwyr wedi dweud bod opsiynau seibiant yn gostus iawn i'w rheoli (mae pob symudiad i gartref gofal yn gofyn am asesiad llawn newydd – yn aml mae angen amser staff ychwanegol) ac nid yw trefniadau o'r fath yn rhoi'r un sicrwydd cynllunio â lleoliadau neu dderbyniadau hirach.

Ni fydd cyhoeddiadau diweddar gan y llywodraeth genedlaethol am gapio'r costau gofal i unigolion yn cynnig cyllid ychwanegol sylweddol, yn y tymor canolig o leiaf, a bydd yn aneglur sut eir i'r afael â'r bwlch rhwng cyfraddau awdurdodau lleol a hunangyllidol.

Bydd angen ymyrraeth fwy gweithredol a llunio'r farchnad er mwyn sicrhau digonolrwydd a sefydlogrwydd. Heb hyn, mae'n debygol na fydd digon o ofal preswyl a nyrsio arbenigol, diffyg buddsoddiad ac arloesedd, a chynnydd yn y sawl sy'n gadael y farchnad, gan ddwysáu'r pwysau ar ddigonolrwydd cyffredinol y farchnad.

6.10.4 Heriau

Yr heriau allweddol sy'n wynebu darparwyr yw:

- Anhawster sylweddol i recriwtio a chadw staff medrus a chymwysedig, yn enwedig yng nghyd-destun y pandemig, cyflog isel a statws ar draws y sector, cynyddu'r gystadleuaeth i staff (a ffioedd asiantaethau uwch o ganlyniad) a llai o boblogaeth o oedran gweithio yn y rhanbarth.
- Ansicrwydd ynghylch effaith hirdymor y pandemig ar alw, yn enwedig ymhlith hunangyllidwyr
- Mwy o graffter o ran anghenion ymhlith trigolion; ac
- Adeiladau a addaswyd sy'n anodd ac yn gostus i'w diweddarau neu eu hehangu

6.10.5 Effaith Comisiynu

Mae comisiynwyr wedi helpu i gynnal y ddarpariaeth drwy gyfi cyllidol yn y sector cyhoeddus a'r pandemig. Fodd bynnag, nid ydynt wedi llwyddo i ail-lunio'r farchnad ar gyfer y dyfodol. Nid yw hyn yn syndod o ystyried y cyfyngiadau sy'n wynebu comisiynwyr gan gynnwys cyllidebau tynn, blaenoriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd, a chapasiti estynedig.

Mae cydweithredu rhanbarthol, gan gynnwys trefniadau cronfeydd cyfun cysgodol, wedi cynyddu tryloywder ac wedi helpu i godi peth o'r pwysau, ond bydd angen dull mwy gweithredol o lunio'r farchnad i gyfateb i raddfa'r heriau a'r cyfleoedd ar ôl y pandemig. P'un a yw hyn ar ffurf cymell buddsoddiad yn y math o ddarpariaeth sydd ei hangen, hwyluso darpariaeth y sector annibynnol neu'r trydydd sector, neu gynyddu'r ddarpariaeth fewnol, bydd angen lefel gymesur o adnoddau ar gyfer comisiynu a thrawsnewid.

6.10.6 Problemau ac Argymhellion

- Mae mwy o risg o rai'n gadael y farchnad wrth i gymorth dros dro y llywodraeth ddiffannu'n raddol.
- Mae ansicrwydd ynghyd â phwysau cynyddol ar y gweithlu yn rhwystr mawr i fuddsoddi a thrawsnewid.
- Mae amodau'r farchnad yn annhebygol o gymell buddsoddiad digonol heb lunio'r farchnad ac ymyrryd mwy ynddi.
- Mae nifer y bobl y mae angen gofal preswyl arnynt yn annhebygol o gynyddu yn unol â newidiadau demograffig ond bydd y duedd o fwy o anghenion gan drigolion yn parhau.
- Felly, mae angen darpariaeth fwy arbenigol a nyrsio yn enwedig ar gyfer pobl â dementia, a nodir mai cyfleusterau modern pwrpasol sy'n tueddu i gael y defnydd mwyaf. Mae'r pandemig wedi cyflymu'r duedd hon, yn enwedig yn y farchnad hunangyllidol.
- Monitro deiliadaeth yn agos wrth i gyllid caledi ddiffannu er mwyn nodi darparwyr a allai fod yn ei chael hi'n anodd ac er mwyn ceisio sicrhau bod unrhyw achosion o adael na ellir eu hosgoi yn cael eu cynllunio a'u cefnogi.
- Ceisio cymell buddsoddiad mewn gofal dementia a nyrsio newydd/estynedig yn y rhanbarth, er enghraifft drwy gcontractau sy'n rhannu risgiau deiliadaeth, darparu safleoedd, hwyluso caniatâd cynllunio a chefnogi mentrau'r gweithlu.
- Ystyried a ddylid caffael cartrefi sydd mewn perygl o gau naill ai i gynnal darpariaeth, ailbwrpasu at ddibenion eraill sy'n cefnogi pobl i fod yn annibynnol megis byw gyda chymorth, neu ryddhau'r cyfalaf i ailfuddsoddi mewn darpariaeth newydd.
- Ystyried yr achos busnes i ddatblygu darpariaeth nyrsio fewnol (gan gynnwys rhoi sylw dyledus i ofynion cofrestru) er mwyn ail-gydbwysu'r farchnad a mynd i'r afael â methiannau yn y farchnad.
- Datblygu modelau mewngymorth ac allgymorth gyda chartrefi preswyl yng nghanol eu cymunedau (y cyfeirir atynt hefyd fel modelau *Hub a Spoke*). Bydd hyn o fudd i gartrefi a'r amrywiaeth ehangach o wasanaethau a chymorth cymunedol.

7 Opsiynau ledled y Rhanbarth

O fewn yr asesiad sefydlogrwydd (Rhan B), mae nifer o argymhellion i fynd i'r afael â materion penodol yn ymwneud â'r maes gwasanaeth rheoledig hwnnw wedi'u nodi. I ategu'r argymhellion hyn, mae'r adran hon yn disgrifio opsiynau strategol ehangach y gellir eu defnyddio'n unigol neu'n gyfunol yn ôl amgylchiadau a blaenoriaethau rhanbarthol a sirol.

Mae'r opsiynau wedi'u llunio fel awgrymiadau ar gyfer trafodaeth a chytundeb achosion strategol a busnes. Lle y bo'n bosibl, mae'r MSR hwn yn cynnwys enghreifftiau o arloesi a datblygu'r farchnad mewn modd a all gefnogi'r trafodaethau hyn.

7.1 Canolbwyntio ar ansawdd a chanlyniadau

Mae adborth yn awgrymu bod y ffocws ar wneud y mwyaf o adnoddau cyhoeddus prin wedi bod ar draul canolbwyntio ar ansawdd a chanlyniadau. Dywedodd y Comisiynwyr eu bod yn ei chael yn anodd sicrhau ansawdd y lleoliadau a wneir y tu allan i'w hardal a'r canlyniadau sy'n cael eu cyflawni. Mae hyn yn rhannol oherwydd diffyg mesurau canlyniadau cenedlaethol (sy'n gweithio ar draws ffiniau sefydliadol), a chyswllt cyfyngedig rhwng y comisiynydd a'r darparwr oherwydd gwahaniaethau mewn pellter.

Mae'r bartneriaeth ranbarthol wedi ymrwmo i ganlyniadau o safon uchel a rhai gwell, fel bloc adeiladau allweddol i sicrhau digonolrwydd a sefydlogrwydd yn y farchnad. Mae gwasanaethau a chyfleusterau o ansawdd da, sy'n seiliedig ar ganlyniadau, yn fwy deniadol i bobl sydd angen gofal a chymorth, ac mae buddsoddiad cyhoeddus a phreifat yn fwy tebygol lle gall gwasanaethau fodloni disgwyliaid y farchnad a chael eu gweld i fod yn ychwanegu gwerth ar draws y system gyfan.

Mae angen i'r pwyslais hwn ar ddatblygu ansawdd a gwell canlyniadau gael ei wneud mewn partneriaeth â darparwyr - ac, yn bwysig, gyda phobl sydd â phrofiad byw o ofal a chymorth (a gellir eu cefnogi drwy ddatblygu'r gwasanaeth Eiriolaeth Proffesiynol Annibynnol rhanbarthol). Awgrymir y dylid gwneud unrhyw waith datblygu sydd wedi'i gyd-gynhyrchu ar lefel ranbarthol i gefnogi parhad ac integreiddio, annog mewnfuddsoddiad ac ategu'r ffurflenni data a rennir presennol a systemau gwybodaeth reoli - er cydnabyddir bod angen gwella systemau data cenedlaethol ar yr un pryd.

Mae llais y plentyn yn allweddol. Mae angen i'r rhanbarth adeiladu ar ei waith o ran cefnogi eiriolaeth.

Yn ddiweddar, mae Ceredigion wedi lansio "Strategaeth Gydol Oed a Llesiant 2021-2027"¹⁸ sydd yn rhannol yn mynd i'r afael â chanlyniadau llesiant pobl leol drwy ddull "gydol oed" nad yw'n gwahaniaethu rhwng proffiliau oedran ond sy'n hytrach yn canolbwyntio ar gontinwmm o wella canlyniadau dros oes yr unigolyn. Mae'r dull hwn yn rhagweld newid mewn adnoddau tuag at atal.

7.2 Buddsoddi mewn Gofalwyr Di-dâl

Mae cyfraniad gofalwyr di-dâl yn cael ei gydnabod a'i werthfawrogi'n eang fel rhywbeth sy'n allweddol i gefnogi pobl i aros yn annibynnol yn eu cartrefi a'u cymunedau eu

¹⁸ <https://www.ceredigion.gov.uk/resident/social-care-wellbeing/through-age-wellbeing-strategy/>

hunain. Fodd bynnag, ni ellir cymryd y cyfraniad hwn yn ganiataol ac mae angen i'r rhanbarth sicrhau bod gofalwyr di-dâl yn cael eu cefnogi yn eu rolau hanfodol bwysig. Mae Strategaeth Gofalwyr Di-dâl Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru 2020-25 yn darparu'r fframwaith ar gyfer y cymorth hwn, ond mae angen gwneud rhagor o waith i sicrhau bod gwasanaethau a chymorth pwrpasol ar gael ac yn hygyrch i bob gofalwr di-dâl ar draws pob rhan o'r rhanbarth, gan gyfeirio'n benodol at wella'r cynnig digidol i gefnogi gofalwyr di-dâl mewn cymunedau gwledig.

7.3 Buddsoddi mewn atal ac ymyrraeth gynnar

Fel sylfaen i ddigonolrwydd a sefydlogrwydd y farchnad, mae'r MSR hwn yn cadarnhau arwyddocâd buddsoddi a chefnogi atal ac ymyrraeth gynnar. Ategir hyn ym mhapur Llywodraeth Cymru "Cymru Iachach" a oedd yn pwysleisio *"Dros y degawd nesaf, byddwn yn gweld gwasanaethau'n symud o ysbytai i gymunedau, ac o gymunedau i gartrefi. Bydd pobl yn cael cefnogaeth i gadw'n brysur a bod yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain cyhyd â phosib. Bydd llawer o'r newid hwn o ganlyniad i gynnal iechyd da, drwy roi mwy o bwyslais ar atal"* ac mae'r ymrwymiad i atal ac ymyrraeth gynnar yn rhan annatod o Gynllun Ardal Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru a'i rhaglen waith trawsnewid.

Fodd bynnag, roedd adborth gan arweinwyr systemau yn cydnabod bod y pwysau aruthrol ar yr elfen "statudol" o wasanaethau gofal a chymorth yn tynnu ffocws ac adnoddau oddi wrth yr union elfennau sy'n cefnogi pobl leol i aros yn annibynnol ac yn ddiogel yn eu cartrefi eu hunain neu gyda'u teuluoedd am fwy o amser. Mae'r PNA yn disgrifio bylchau yn y gwasanaethau ataliol cymunedol hyn ar draws grwpiau poblogaeth oedolion a phlant, ac mae adborth gan ddarparwyr preswyl a darparwyr gofal cartref yn dangos bod y prinder canfyddedig o wasanaethau cymunedol yn rhoi pwysau ar eu gwasanaethau yng nghyd-destun cymhlethdod cynyddol lleoliadau ac atgyfeiriadau newydd.

Mae angen gwneud rhagor o waith yn rhanbarthol ac ar lefel sirol i adeiladu cydnerthedd cymunedol ac unigol, cefnogi mentrau cymunedol (fel y model catalydd cymunedol yn Sir Benfro) a chreu cyfleoedd newydd i'r trydydd sector gyfrannu yn eu cymunedau eu hunain. Mae'r pandemig wedi rhyddhau ymdeimlad cynyddol o weithredu cymunedol - y gellir adeiladu arno, ond fel y nodwyd yn y PNA, mae llawer o grwpiau poblogaeth yn teimlo'n ynysig ac yn ddi-gefnogaeth ac mae angen cyflymu cynnydd ar frys ar draws pob rhan o'r rhanbarth.

7.4 Ail-ddarparu gwasanaethau

Anogir comisiynwyr a darparwyr i ystyried opsiynau i ail-ddarparu gwasanaethau presennol mewn modelau gofal eraill - wrth wynebu methiannau posibl yn y farchnad neu mewn ymateb i gyfleoedd yn y farchnad. Gall enghreifftiau gynnwys ail-ddarparu hen gartref gofal yn unedau tai gofal ychwanegol fel sydd i'w gweld yng Ngheredigion. Gall y newid hwn oddi wrth fodolau gofal traddodiadol i ddulliau newydd ganiatáu i gapasiti presennol y farchnad gael ei gadw - ond sydd wedi'i raddnodi'n agosach gyda disgwyliadau cynyddol y cyhoedd. Mae'r opsiwn i ail-ddarparu cartrefi gofal yn dai arbenigol wedi'i amlygu'n benodol fel dull ymarferol o ymateb i'r galw a ragwelir am dai arbenigol ledled y rhanbarth, o fewn model busnes sy'n fwy addas ar gyfer cadw a recriwtio staff.

7.5 Ad-drefnu gwasanaethau

Nododd adborth gan gomisiynwyr a darparwyr enghreifftiau lle gellir ad-drefnu ac ehangu modelau gwasanaeth presennol i wahanol elfennau o'r farchnad neu ffyrdd o ddarparu gwasanaethau a chymorth, tra'n cadw'r model presennol. Mae enghreifftiau'n cynnwys datblygu modelau "hub and spoke" - cyfuno gofal preswyl â gwasanaethau cymunedol, a all gynnig ffordd fwy deinamig o gefnogi unigolion i aros yn annibynnol yn eu cartrefi ond gyda'r opsiynau o gymorth preswyl. Gall dulliau o'r fath hefyd gynnig mwy o hyblygrwydd i staff o ran amodau a phrofiadau gwahanol - a all roi hwb i staff o ran lefelau recriwtio a chadw staff.

7.6 Datblygu gwasanaethau newydd

Mae arweinwyr, comisiynwyr a darparwyr systemau i gyd wedi cydnabod manteision 'dechrau o'r dechrau, wrth ddatblygu gwasanaethau newydd i fodloni lefelau rhagamcanol o angen a disgwyliadau newidiol y farchnad. Mae'r MSR hwn yn nodi meysydd twf penodol yn y farchnad i gynnwys gofal preswyl arbenigol i bobl hŷn, gofal cartref, a thai arbenigol ar gyfer oedolion o oedran gweithio a phobl hŷn.

Fodd bynnag, ystyrir nad yw amodau presennol y farchnad yn ffafriol i fuddsoddiad newydd gan y sector preifat. Yr adborth cyffredinol gan ddarparwyr yw bod pryderon am bwysau'r gweithlu a lefelau incwm, yn ogystal â manyleb uwch ar gyfer adeiladau newydd, yn cyfyngu ar gyfleoedd i ehangu a buddsoddi yn y farchnad - a nodir bod llawer o'r darparwyr sy'n gweithredu yn y rhanbarth yn Fusnesau Bach a Chanolig sydd â mynediad cyfyngedig at gyfalaf buddsoddi a chapasiti mewnol ar gyfer gwaith prosiect datblygu.

Fodd bynnag, mae'r dadansoddiad wedi nodi rhai pocedi bach o dwf diweddar yn y farchnad, er enghraifft mae Sir Gaerfyrddin wedi gweld twf yn nifer y darparwyr gofal cartref a reoleiddir yn y 3 blynedd diwethaf (o 23 yn 2018 i 32 yn 2020) ac adeiladwyd nifer o ddatblygiadau gofal ychwanegol newydd yn ddiweddar yn Sir Benfro a Cheredigion ar gyfer pobl hŷn yn ogystal ag oedolion o oedran gweithio.

Mae cynghorau sir yn allweddol o ran cefnogi'r amodau er mwyn i newydd-ddyfodiaid i'r farchnad (ac ehangu'r darparwyr presennol) allu datblygu gwasanaethau gofal a chymorth newydd. Mae adborth gan arweinwyr a chomisiynwyr systemau yn nodi amrywiaeth o opsiynau sy'n cynnwys;

- Mynediad at grantiau cyfalaf gan gynnwys grantiau Cyfrif Refeniw Tai a mentrau a grantiau cyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru (mae Sir Benfro wedi dechrau adeiladu tai cyngor eto yn ddiweddar, gan gynnwys tai arbenigol) a chymorth datblygu economaidd. Mae Sir Gaerfyrddin yn ystyried sut i ddefnyddio'r grant Cyfrif Refeniw Tai hwn i gefnogi datblygiad unedau Byw â Chymorth a Gofal Ychwanegol yn y sir (fel y nodwyd yn yr adroddiad Rhwydwaith Dysgu a Gwella Tai). Awgrymir bod gwell mynediad at gyllid cyfalaf yn flaenoriaeth allweddol i'r rhanbarth er mwyn ysgogi cynnig gofal a chymorth newydd.
- Rhyddhau banciau tir i'w datblygu (er enghraifft, mae Ceredigion wedi rhyddhau tir yng ngogledd y sir yn ddiweddar i weithio mewn partneriaeth â darparwr annibynnol i ddatblygu Cartref Gofal newydd i'r Henoed Bregus eu Meddwl)
- Cynllunio defnydd tir a chymorth a chefnogaeth ynghylch rheoli prosiectau. Gall cynghorau sir gynnig mynediad at arbenigedd rheoli prosiectau mewnol, yn enwedig

i ddarparwyr bach eu maint, sy'n dominyddu'r farchnad ofal ar draws y rhanbarth ac a allai fod heb gapasiti mewnol

- Lle y bo'n bosibl, dylai cynghorau sir adolygu eu Cynlluniau Datblygu Lleol i chwilio am gyfleoedd i gefnogi datblygiad gwasanaethau gofal a chymorth newydd – gan gynnwys darparu unedau tai arbenigol.

7.7 Gwella comisiynu rhanbarthol ar gyfer gwasanaethau arbenigol

Roedd arweinwyr a chomisiynwyr systemau yn cydnabod y byddai nifer o feysydd gwasanaeth dan y trefniadau presennol (yn enwedig gwasanaethau arbenigol i oedolion a hefyd ar gyfer plant) yn elwa ar ddull rhanbarthol mwy cydgysylltiedig at gomisiynu ac adnoddau. Mae'r MSR hwn yn tynnu sylw at wasanaethau cost uchel cyfaint isel, sydd fwyaf addas ar gyfer trefniadau rhanbarthol mwy cydgysylltiedig. Mewn rhai marchnadoedd mae digon o ddarpariaeth ar bapur ond yn ymarferol fe'i defnyddir yn bennaf gan awdurdodau y tu allan i'r rhanbarth. Lle mae trefniadau cenedlaethol a rhanbarthol eisoes ar waith, megis Consortiwm Comisiynu Plant Cymru, mae lle i wneud gwell defnydd ohonynt, ond yn y pen draw bydd angen symud oddi wrth brynu ar hap er mwyn sicrhau mynediad cyson i ddarpariaeth y sector annibynnol lleol.

7.8 Ailgydbwysu'r farchnad

Yn unol â gofynion statudol sy'n ymwneud â pharhad busnes, rhaid i awdurdodau lleol weithio gyda darparwyr presennol i ddod o hyd i atebion os ydynt mewn trafferthion a gweithredu fel darparwr dewis olaf os bydd rhywun yn gadael y farchnad. Er enghraifft, mae ymadawiad diweddar darparwr cartref grŵp yn Sir Benfro wedi golygu bod yr awdurdod lleol yn ymgymryd â chyfran gynyddol o'r farchnad leol (sydd bellach yn 17% o'r farchnad a ddarperir yn fewnol).

Mae natur ymyriadau o'r fath yn broblemus, a serch bod ymatebion o'r fath yn sicrhau parhad gofal, mae'r ymadawiadau hyn yn aml yn gyflym ac yn annisgwyl, yn enwedig lle mae'r darparwr yn rhan o grŵp sy'n gweithredu y tu allan i'r ardal leol (efallai fod penderfyniadau i adael o ganlyniad i benderfyniad nad yw wedi'i gysylltu'n uniongyrchol â'r ardal leol), ac yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol weithredu'n hwylus heb yr opsiynau i lunio ymateb strategol mwy ystyriol o ran goblygiadau hirdymor penderfyniadau i ymyrryd.

Gallai'r penderfyniad i adael y farchnad fod o ganlyniad i fusnes sy'n methu - ac mae'r awdurdod lleol mewn perygl o ymgymryd â gwasanaeth nad yw'n hyfyw neu sy'n gofyn am fuddsoddiad sylweddol (h.y. adnewyddu adeiladau ac ati). Mae'r angen am achosion busnes cadarn yn allweddol i unrhyw ymyrraeth yn y farchnad ochr yn ochr â rhoi sylw clir i sicrhau parhad gofal. Bydd cael capasiti mewnol (ac felly gallu) hefyd yn golygu bod yr awdurdod lleol mewn sefyllfa well i gefnogi darparwyr sy'n profi anawsterau a rheoli trosglwyddiadau posibl o ddarpariaeth breifat i ddarpariaeth gyhoeddus.

Nodir bod cyfle i ddatblygu ymagwedd ranbarthol at "Gau Cartrefi" yn seiliedig ar bolisiau lleol sydd eisoes ar waith yng nghynghorau Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin.

7.9 Adeiladu capasiti'r gweithlu

I raddau helaeth, gellir priodoli amodau presennol dirywiol y farchnad i brinder sylweddol yn y gweithlu ar draws y sector cyfan. Er bod llawer o gamau gweithredu sylfaenol y gweithlu cenedlaethol y tu allan i gwmpas y bartneriaeth ranbarthol ac ati, nodwyd bod nifer o opsiynau'n adeiladol o ran lliniaru (yn rhannol) beth o'r pwysau hyn ac yn bwysig i sefydlu llwyfan ar gyfer gweledigaeth feiddgar o ddatblygu'r farchnad a newid yn y dyfodol. Mae'r dewisiadau'n cynnwys;

- Gofal hybrid a rolau nyrsio - gan ganiatáu i staff weithio'n hyblyg rhwng gwasanaethau. Mae'r rhain eisoes yn cael eu datblygu yng Ngheredigion a Sir Benfro a gellir eu hehangu ar draws y rhanbarth
- Ymgyrchoedd recriwtio lleol a rhanbarthol - i gynnwys adnoddau ar-lein a gynhelir gan yr awdurdod lleol neu'r bartneriaeth ranbarthol
- Mae Dysgu a Datblygu yn cynnig cefnogi cynnydd gyrfa staff ar draws y sectorau darparu mewnol ac annibynnol
- Cronfa o staff mewnol y gall darparwyr annibynnol wneud defnydd ohonynt fel y bo'r angen.
- Cydraddoldeb o ran telerau ac amodau ar draws y sector. I wneud hyn bydd angen dulliau buddsoddi a phartneriaeth rhwng y Bwrdd Iechyd a chynghorau sir.
- Cysylltu mentrau economaidd lleol – fel Strategaeth Adfywio Sir Benfro i gefnogi'r broses o recriwtio a chadw staff gofal, ochr yn ochr â gweithgarwch ysgogi economaidd a mentergarwch ehangach.
- Ymrwymiad i'r Cyflog Byw Gwirioneddol - Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi dangos cefnogaeth ac mae tendrau newydd yn cael eu datblygu yn y rhanbarth (cynghorau Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin) sy'n nodi ymrwymiad i'r Cyflog Byw Gwirioneddol. Bydd yr ymrwymiad hwn yn gofyn am fuddsoddiad sylweddol ar draws pob rhan o'r farchnad - er enghraifft mae ymchwil gan y Gymdeithas Gofal Cartref yn nodi y bydd angen i gyfraddau gofal cartref gynyddu tua 12%¹⁹ yn 2022 ledled Cymru.

7.10 Methodoleg Ffioedd

Nododd y rhan fwyaf o ddarparwyr a ymatebodd i'r arolygon MSR fod costau cynyddol yn her sylweddol i'w sefydlogrwydd yn y farchnad, yn enwedig mewn gwasanaethau i bobl hŷn. Ar yr un pryd, mae comisiynwyr mewn rhannau eraill o'r farchnad, yn enwedig cartrefi plant a maethu annibynnol, yn pryderu am gost uchel lleoliadau. Nodir bod yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd wrthi'n cynnal ymchwiliad i wasanaethau plant, sy'n debygol o ddylanwadu ar bolisi cenedlaethol wrth symud ymlaen²⁰.

Mae'r broses o bennu ffioedd ar gyfer gofal preswyl a gofal cartref i bobl hŷn yn wahanol ar draws y rhanbarth ac er gwaethaf cydnabyddiaeth yn y Papur Gwyn Ail-gydbwyso fod angen fframwaith safonol ar gyfer pennu ffioedd, mae trefniadau lleol yn parhau, sy'n codi pryder ymhlith darparwyr ar hyn o bryd ynghylch tryloywder a chysondeb ar draws y rhanbarth (er enghraifft, mae'r gyfradd gofal cartref yng Ngheredigion yn wahanol iawn i'r ddau gyngor sir arall). Mae'r amrywiad hwn yn creu tensiynau mewnol yn y farchnad o ran sefydlogrwydd rhwng siroedd a gwasanaethau,

¹⁹ <https://www.homecareassociation.org.uk/resource/real-living-wage-for-careworkers-in-wales-must-be-funded.html>

²⁰ <https://www.gov.uk/cma-cases/childrens-social-care-study>

er cydnabyddir bod y trefniadau hyn yn cael eu pennu gan amrywiaeth o ffactorau lleol i gynnwys, er enghraifft, costau gwledigrwydd gwahanol.

Mae Comisiynwyr wedi nodi bod capasiti rhanbarthol (yn enwedig cartrefi gofal i oedolion o oedran gweithio) yn cael ei ddefnyddio gan awdurdodau lleol y tu allan i'r rhanbarth sy'n barod i dalu cyfradd gystadleuol i sicrhau lleoliadau. Mae angen i gynghorau Gorllewin Cymru a'r Bwrdd Iechyd ystyried cystadleuaeth allanol wrth gyfrifo eu ffioedd.

Mae cyfle i'r rhanbarth symud gyda'i gilydd tuag at fwy o gysondeb yn y ffordd y mae'n pennu ffioedd lleoli ar draws y tri chyngor a'r Bwrdd Iechyd (ffioedd Gofal Iechyd Parhaus), a bydd dulliau o'r fath yn gofyn am ymgysylltu'n agos â darparwyr gan ddefnyddio dull a fformiwla llyfr agored sy'n mynd i'r afael â'r angen i sicrhau gwerth am arian tra'n darparu gwasanaethau o ansawdd da sy'n gwella canlyniadau.

Caiff y dull hwn ei gymeradwyo'n glir gan Lywodraeth Cymru ac mae cyfle i adeiladu ar y cynnydd sydd eisoes yn cael ei wneud yn y rhanbarth er mwyn hwyluso methodolegau a rennir - er enghraifft, defnydd Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin o'r fframwaith "Lets Agree to Disagree" ar gyfer cartrefi gofal pobl hŷn, a model cost uned y Gymdeithas Gofal Cartref ar gyfer pennu ffioedd gofal cartref. Mae Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru wedi sefydlu Grŵp Ffioedd Rhanbarthol fel fforwm i weithio gyda'i gilydd tuag at gael mwy o gysondeb wrth bennu ffioedd ac mae angen blaenoriaethu'r gwaith hwn wrth symud ymlaen.

7.11 Cefnogi hyder y farchnad

Yr adborth gan gomisiynwyr a darparwyr cartrefi gofal i oedolion oedd bod contractau bloc yn hytrach na chontractau ar hap yn rhoi sicrwydd busnes mwy cadarn wrth gynllunio. Er bod angen ystyried trefniadau o'r fath yn ofalus er mwyn sicrhau bod adnoddau prin yn cael eu defnyddio'n effeithlon ac yn effeithiol, cydnabuwyd y gall contractau bloc, hyd yn oed os cânt eu gosod dros gyfnod byr, gynnig sicrwydd i ddarparwyr pan fo lefelau deiliadaeth yn is na'r pwynt adennill costau ariannol - gan roi opsiynau diogel i gomisiynwyr wrth iddynt wneud lleoliadau. Gwneir mwyfwy o ddefnydd mewn rhai ardaloedd o gontractau bloc 'meddal' sy'n rhannu risgiau deiliadaeth.

7.12 Ailgychwyn y gwaith a ohiriwyd gan y pandemig

Yr adborth cyffredinol gan arweinwyr, comisiynwyr a darparwyr systemau oedd bod llawer o'r blaenoriaethau rhanbarthol a lleol presennol i gefnogi pobl leol i aros yn annibynnol yn eu cartrefi a'u cymunedau eu hunain wedi bod yn destun oedi neu atal dros dro yn ystod y pandemig, gan gynnwys, er enghraifft, prosiectau a ariannwyd drwy'r Gronfa Gofal Integredig megis y Cynlluniau Rhyddhau i Adolygu ac Asesu (D2RA) a oedd yn atal y defnydd llawn o gyfleusterau camu-i-lawr arfaethedig. Awgrymir bod y bartneriaeth ranbarthol yn adolygu ei blaenoriaethau cyn y cylch gwariant nesaf h.y. cynnal archwiliad o'r Cynllun Ardal i nodi pa rai o'r blaenoriaethau presennol hyn y dylid eu hadfer os cawsant eu hatal dros dro gan y pandemig. Nodir bod Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno dyletswydd statudol o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 i awdurdodau lleol baratoi Adolygiad Gwella Blynyddol, a all fod yn gatalydd ar gyfer yr archwiliad arfaethedig hwn.

7.13 Buddsoddi mewn Arloesedd Technoleg

Nodwyd gan yr holl randdeiliaid fod defnydd ehangach o dechnoleg ddigidol yn opsiwn i helpu unigolion i aros yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain am fwy o amser, tra hefyd yn cefnogi gwell cydlyniant cymunedol a gwytnwch. Ystyriwyd bod yr elfennau hyn yn hanfodol er mwyn mynd i'r afael â chymhlethdod cynyddol y galw ar farchnadoedd gofal lleol.

Mae'r rhanbarth eisoes wedi croesawu technoleg ddigidol ac mae grŵp digidol rhanbarthol wedi'i sefydlu'n ddiweddar i fwrw ymlaen â'r agenda hon. Fodd bynnag, yr adborth gan gomisiynwyr a darparwyr oedd bod llawer o'r dechnoleg ddigidol a ddefnyddid yn y rhanbarth ar hyn o bryd yn cael ei hystyried yn dechnoleg sylfaenol – fel larymau codwm, larymau gwddf a synwryddion – a bod cyfle i gynyddu'r lefelau presennol o fabwysiadu digidol a'r mathau o dechnoleg ddigidol sy'n cael eu defnyddio - megis defnyddio technoleg AI yng nghartrefi pobl (gan gynnwys cartrefi gofal preswyl) a chofnodion gofal digidol er enghraifft. At hynny, mae'r PNA wedi nodi pryderon ynghylch diffyg cynhwysiant digidol pobl ag anghenion gofal a chymorth ledled y rhanbarth - yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Mae'r pandemig wedi golygu bod hyd a lled yr allgáu digidol hwn yn waeth ac wedi cyfyngu ar fynediad ffisegol i wasanaethau a chymorth.

Yn ddiweddar, mae'r rhanbarth wedi sefydlu'r Ganolfan Cydgysylltu Ymchwil, Arloesi a Gwella (RIICH) a ariennir gan y Gronfa Trawsnewid gan ddwyn ynghyd staff y Bwrdd Iechyd a'r cyngor sir, darparwyr ac entrepreneuriaid gyda'r nod o *"alluogi timau a gwasanaethau i rannu dysgu, cael gafael ar wybodaeth, cyngor ac arfer da, ac edrych ar gyfleoedd i uwchraddio a lledaenu syniadau a ffyrdd newydd o weithio"* ar draws y system iechyd a gofal rhanbarthol.

Awgrymir bod y bartneriaeth ranbarthol yn adeiladu ar waith y ganolfan hon i gefnogi defnydd ehangach o arloesedd technoleg ddigidol. Gall hyn gynnwys cynyddu prosiect CONNECT y rhanbarth ar ddefnyddio technoleg ddigidol i gefnogi gweithgareddau ymyrraeth gynnar ac atal, yn ogystal ag archwilio ac annog comisiynwyr, darparwyr a chyflenwyr technoleg i gydweithio ar ddatblygu gwasanaethau gofal a chymorth digidol newydd.

Ymhlith enghreifftiau eraill o gynnydd mae gwaith a wnaed yn Sir Benfro yn ystod y pandemig i gefnogi pobl leol i gael mynediad i dechnoleg ddigidol, yn cynnwys benthyca offer digidol. Cafodd y fenter hon ei chydnabod yn genedlaethol (*MJ finalists*).

At hynny, anogir y cyngorau sir i archwilio'r defnydd o gyllid a mentrau²¹ llywodraeth genedlaethol i gefnogi cysylltedd digidol ar draws y rhanbarth, yn ogystal ag edrych ar adnoddau mewnol a'r gallu i helpu pobl leol i fod yn "ddinasyddion digidol" – fel cynlluniau i roi benthyg caledwedd digidol - fel llechi a gliniaduron i bobl leol.

²¹ <https://gov.wales/digital-strategy-wales-html>

8 Casgliad – Galwad i Weithredu

Mae'r MSR a'r PNA hyn yn disgrifio system gofal a chymorth sydd o dan straen sylweddol. Gellir priodoli llawer i effeithiau'r pandemig, cyni cyllidol yn y sector cyhoeddus a phwysau ar y gweithlu ar draws pob rhan o'r farchnad. Fodd bynnag, mae'r sector hefyd wedi dangos gwytnwch a hyblygrwydd mawr - a'r cryfderau hyn, ochr yn ochr â chydabyddiaeth gyffredin fod angen gweithredu beiddgar, sy'n cynnig ymdeimlad o optimistiaeth a gweledigaeth ar gyfer y dyfodol.

Mae llawer i enghraifft o arferion a darpariaeth arloesol i adeiladu arnynt - ochr yn ochr â chyfle gwirioneddol i lunio marchnad sydd wedi'i seilio ar ddisgwyliadau a gofynion dinasyddion yr 21ain Ganrif. Nid yw hyn yn golygu anghofio am y gorffennol, ond yn hytrach atgyfnerthu'r hyn sy'n gweithio'n dda a cheisio dulliau arloesol i ddelio â chyfleoedd sy'n codi a heriau fel y disgrifir yn yr MSR hwn.

Bydd llawer yn dibynnu ar ddull cydweithredol o geisio ymrwymiad, cysondeb a pharhad o ran gwella ansawdd a chanlyniadau. Mae'r broses o ddyrannu cyllid cenedlaethol sydd ar y gweill yn arbennig o amserol i ategu rhywfaint o'r uchelgais hwn o bosibl - yn enwedig o ran ysgogi buddsoddiad cyfalaf i helpu i roi hwb i wasanaeth newydd (ac arloesol) i sicrhau economi gymysg fywiog o wasanaethau gofal a chymorth.

Mae Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru mewn sefyllfa dda i gydgysylltu a llywio'r agenda hon er mwyn sicrhau marchnad gofal a chymorth sefydlog a digonol ar draws y rhanbarth cyfan sy'n hyrwyddo Llesiant i bobl a chymunedau lleol.

Atodiad 1: Asesiadau Digonolrwydd Llawn

1 Plant a Phobl Ifanc

Mae plant a phobl ifanc yn dibynnu ar ystod eang o wasanaethau i ategu'r gofal a ddarperir gan eu teuluoedd. Mae'r rhain yn amrywio o wasanaethau cyffredinol fel ysgolion ac ymweliadau iechyd i wasanaethau arbenigol i blant ag anghenion penodol megis gofal preswyl a gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed. Mae angen i'r holl wasanaethau hyn fod yn ddigonol o ran sylwedd ac ansawdd a gweithio'n dda gyda'i gilydd i alluogi plant a phobl ifanc i gyflawni'r canlyniadau gorau posibl.

Dim ond rhai o'r gwasanaethau hyn sy'n wasanaethau a reoleiddir sy'n dod o fewn cwrpas Côt Ymarfer MSR yn uniongyrchol:

- Cartrefi gofal i blant a phobl ifanc
- Maethu
- Gwasanaethau mabwysiadu
- Llety diogel
- Canolfannau preswyl i deuluoedd
- Eiriolaeth a Reoleiddir

Yn ogystal, mae angen gwasanaethau gofal cartref ar blant a phobl ifanc weithiau, ond gan fod y gwasanaethau hyn wedi'u hanelu i raddau helaeth iawn at oedolion, cânt eu cynnwys mewn man arall yn yr MSR hwn.

Mae'r gwasanaethau plant sydd o fewn cwrpas yr MSR yn cynrychioli hanner y rhestr o wasanaethau a reoleiddir ond dim ond cyfran fach iawn o blant a phobl ifanc yn lleol sydd eu hangen, ac mewn rhai achosion, megis llety diogel, llai na 30 o blant ledled Cymru gyfan ar unrhyw un adeg.

Er mwyn osgoi dyblygu, mae'r asesiad digonolrwydd yn ystyried gwasanaethau i blant a phobl ifanc yn gyffredinol yn seiliedig ar y PNA. Ceir asesiad sefydlogrwydd ar wahân ar gyfer pob un o'r gwasanaethau a reoleiddir sy'n benodol ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae'n bwysig cofio bod y graddau y bydd angen y gwasanaethau a reoleiddir yn dibynnu, yn bwysig iawn, ar yr ystod ehangach o wasanaethau cyffredinol ac a dargedwyd ar gyfer plant, pobl ifanc a'u teuluoedd neu ofalwyr.

1.1 Edrych yn ôl

Nododd PNA 2017 fod nifer y plant yng Ngorllewin Cymru yn debygol o aros yn weddol sefydlog dros y 15 mlynedd nesaf, sef tua 85,000. Roedd hefyd yn nodi bod cyfradd y plant oedd yn derbyn gofal yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru.

Yn gyffredinol, daeth y PNA i'r casgliad 'bod y gwasanaethau statudol gofynnol ar waith i ddiwallu anghenion y plant a'r bobl ifanc mwyaf agored i niwed ac i'w cadw rhag niwed' ond 'bod datblygu gwasanaethau addas i'r diben ar draws yr ystod, fodd bynnag, yn daith barhaus a bod nifer o feysydd lle gellir gwneud gwelliannau pellach'. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Cryfhau llais a rheolaeth y defnyddiwr

- Cynyddu cyd-gynhyrchu; a
- Datblygu partneriaeth ac integreiddiad cydweithredu

Roedd y blaenoriaethau a nodwyd yn y Cynllun Ardal yn cynnwys dau oedd yn ymwneud yn benodol â gwasanaethau a reoleiddir, sef:

- Ad-drefnu prosesau comisiynu ar gyfer pecynnau gofal a chymorth cost uchel, nifer isel i blant ag anghenion cymhleth, er mwyn darparu gwasanaethau cost-effeithiol cyson sy'n sicrhau'r canlyniadau gorau i ddefnyddwyr gwasanaethau
- Lleihau nifer yr achosion o symud rhwng lleoliadau yn achos Plant sy'n Derbyn Gofal a Lleihau dibyniaeth ar ofal preswyl

Er bod cynnydd wedi cael ei wneud o ran comisiynu darpariaeth arbenigol, lleoliadau cost uchel, niferoedd isel, yn dal i fod yn her. Dros y pedair blynedd diwethaf mae nifer y plant sy'n derbyn gofal yng Ngorllewin Cymru wedi cynyddu, o 390 ym mis Mawrth 2018 i 455 ym mis Mawrth 2021, tra bo nifer y plant mewn gofal preswyl hefyd wedi cynyddu. Mae'r darlun wedi amrywio ar draws y rhanbarth, fodd bynnag mae'r nifer yn codi'n sydyn yng Ngheredigion a Sir Benfro ond yn disgyn yn Sir Gaerfyrddin. Mae hyn yn awgrymu bod angen cyfuno partneriaeth ranbarthol ag atebion dwyochrog ac un sir pan fo'n briodol.

Adroddir hefyd am fylchau mewn gwasanaethau arbenigol a rhai sydd wedi'u targedu, gan gynnwys cymorth i blant anabl a gwasanaeth CAMHS.

1.2 Edrych ymlaen

Mae'r amcangyfrifon poblogaeth diweddaraf yn awgrymu, er bydd poblogaeth Gorllewin Cymru yn tyfu'n gymedrol dros y degawd nesaf (1.3% erbyn 2031), bydd nifer y plant o dan 16 oed yn gostwng 8%, neu tua 5000 yn llai o blant, gyda'r gostyngiad mwyaf yng Ngheredigion a Sir Benfro. Bydd hyn yn effeithio ar y galw am wasanaethau cyffredinol, ond mae'n annhebygol o arwain yn uniongyrchol at lai o alw am wasanaethau arbenigol, yn wir mae tueddiadau cyffredol yn dangos cynnydd.

Mae'r ffactorau sy'n pennu nifer y plant y mae angen cymorth arbenigol arnynt yn gymhleth ac mae'r amrywiad rhwng ardaloedd a chyfnodau amser yn faes trafod ac ymchwil parhaus yn genedlaethol. Mae fersiwn drafft PNA 2022 yn tynnu sylw at yr ansicrwydd mawr mae effaith pandemig Covid-19 wedi ei chreu. Mae tystiolaeth yn dod i'r amlwg fod y pandemig wedi cael effaith andwyol ar lesiant plant a phobl ifanc mewn amrywiaeth o ffyrdd, yn enwedig eu hiechyd meddwl, ac wedi cynyddu profiadau niweidiol fel cam-drin domestig. Effeithiwyd mewn modd difrifol iawn ar addysg hefyd, ac mae'n bosibl bod yna blant sy'n dioddef neu sydd mewn perygl o niwed nad ydynt wedi cael eu hadnabod neu nad ydynt yn cael cymorth mor gyflym ag o'r blaen. Dim ond dros yr ychydig flynyddoedd nesaf y daw effaith hirdymor y pandemig i'r amlwg ond byddai'n ddoeth rhagweld cynnydd tebygol yn nifer y plant a'r bobl ifanc ag anghenion mwy cymhleth sydd angen gwasanaethau arbenigol a rhai wedi'u targedu.

Mae'r asesiadau Llesiant drafft yn tynnu sylw at bryderon ynghylch digonolrwydd gofal plant fforddiadwy, yn enwedig yn Sir Benfro a Cheredigion. Mae diffyg gofal plant yn rhwystr i gyflogaeth ac mae costau gofal plant uchel yn ffactor arwyddocaol o ran tlodi mewn gwaith. Ar gyfer gwasanaethau cyffredinol eraill, megis ysgolion, mae'r tueddiadau demograffig yn awgrymu ei bod yn debygol y bydd digon o wasanaethau, er

gall y rhain ddisgwyl wynebu heriau sylweddol o ran y gweithlu gyda'r gostyngiad a ragwelir yn y boblogaeth o oedran gweithio ledled y rhanbarth.

Nodir lefelau uwch o dlodi plant yn yr Asesiadau Llesiant drafft fel blaenoriaeth ranbarthol. Mae'r cyfraddau'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer Cymru ac wedi cynyddu ym mhob un o'r tair sir rhwng 2018/19 a 2019/20.

Canfu adroddiad a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2020 gan y gynghrair Dileu Tlodi Plant, a oedd yn defnyddio ymchwil ar sail data'r Adran Gwaith a Phensiynau, mai Sir Benfro oedd â'r gyfradd tlodi plant uchaf yng Nghymru (ar ôl ystyried costau tai) lle bernir bod 31.4% o'r plant yn byw mewn tlodi (cyfanswm o 4,376 o blant). (Ceredigion oedd y pedwerydd uchaf yn 30.3% a Sir Gaerfyrddin yn 9fed yn 29.3%)²².

Mae'n ddigon posibl y bydd y galw am wasanaethau mwy arbenigol yn cynyddu oherwydd canlyniadau uniongyrchol ac anuniongyrchol y pandemig, gan gynnwys yr effaith economaidd. Mae hyn yn hynod heriol o ystyried yr anawsterau o ran darparu gwasanaethau mewn ardaloedd mwy gwledig. Efallai fydd diffygion yn y gwasanaethau arbenigol sydd ar gael o fewn pellter rhesymol i gartref y plentyn ac sydd yn cyfateb yn dda i'w hanghenion, er enghraifft yn y Gymraeg lle bo angen.

Mae rhai o'r materion a nodwyd yn y PNA blaenorol megis gwella llais a rheolaeth defnyddiwr a gwella'r broses o gydgysylltu gwasanaethau a'r trosglwyddiadau rhyngddynt wedi'u hamlygu eto.

1.3 Problemau a Bylchau

- Mae'r asesiadau Llesiant drafft yn tynnu sylw at bryderon ynghylch digonolrwydd gofal plant fforddiadwy, yn enwedig yn Sir Benfro a Cheredigion.
- Mae tlodi plant wedi cynyddu ar draws Gorllewin Cymru.
- Rhagwelir y bydd poblogaeth y plant yn gostwng ar y cyfan, ond efallai fydd y galw am gymorth a gwasanaethau arbenigol fel CAMHs a gofal preswyl, sydd eisoes yn anodd eu cyrchu'n lleol, yn cynyddu.
- Mae effaith hirdymor y pandemig parhaus yn ansicr iawn ond mae risg sylweddol y bydd yn niweidiol i lesiant plant a phobl ifanc, ac yn gwaethgu'r heriau presennol.
- Mae llais defnyddiwr, cyd-gynhyrchu ac integreiddio, gan gynnwys trosglwyddiadau mwy di-dor i wasanaethau oedolion, yn parhau i fod yn feysydd allweddol i'w datblygu.

²²Asesiad Llesiant Drafft Sir Benfro

2 Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol

Mae trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV) yn broblem iechyd cyhoeddus fawr, yn fater cyfiawnder troseddol a hawliau dynol, ac mae'n achosi amryw ganlyniadau andwyol o ran iechyd a llesiant ar hyd oes. Mae'n achosi niwed i unigolion a theuluoedd, a gellir teimlo ei effaith ar draws cymunedau, cymdeithasau ac economïau cyfan.

Er gellir canfod union nifer yr achosion o VAWDASV a adroddwyd, nid oes dull cytûn ar gyfer canfod nifer yr unigolion yr effeithir arnynt yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gan VAWDASV. Y rheswm am hyn yw nad oes modd rhagweld achosion o VAWDASV. Nododd PNA 2017 fod 1,215 o achosion o gam-drin wedi'u hadrodd yn Sir Gaerfyrddin yn 2018, 1,062 o achosion yng Ngheredigion a 717 o achosion yn Sir Benfro, o gymharu â chyfanswm o 22,410 o achosion o gam-drin ledled Cymru, ond nid oedd y rhain wedi cael eu bwrw ymlaen.

Nododd data a ddarparwyd gan Swyddfa Ystadegau Gwladol fod heddluoedd Cymru, rhwng mis Mawrth 2018 a 2019, wedi cofnodi 80,924 o ddigwyddiadau cysylltiedig â VAWDASV yn genedlaethol, ond eto, mae'r data a gofnodir gan yr heddlu dim ond yn dangos rhan fach o'r darlun go iawn, gan na roddir gwybod am ddigwyddiadau yn aml iawn.

Mewn ymateb i raddfa a difrifoldeb VAWDASV, mae Llywodraeth Cymru wedi adnewyddu ei Strategaeth VAWDASV genedlaethol am 2016-21 yn ddiweddar. Un o brif amcanion y strategaeth VAWDASV genedlaethol yw gwneud ymyrraeth gynnar ac atal yn flaenoriaeth, gan gydnabod bod atal yn hanfodol i dorri'r cylch o drais mewn teuluoedd a chymunedau.

Yn yr un modd, cychwynnwyd Strategaeth VAWDASV ar gyfer Canolbarth a Gorllewin Cymru (Bywydau Mwy Diogel, Teuluoedd Iachach) yn 2018, i adlewyrchu'r strategaeth genedlaethol hon ac i weithredu fel catalydd ar gyfer gwell gwaith partneriaeth rhwng comisiynwyr a darparwyr i fynd i'r afael â VAWDASV a sicrhau bod ymyriadau cymorth ac atal priodol ar gael ac yn hygyrch lle a phan fo angen.

Mae gwasanaethau a chymorth VAWDASV yn amrywio o ddyletswyddau statudol, megis darparu canolfannau lloches a chymorth i amrywiaeth o wasanaethau a chymorth anstatudol i gynnwys, er enghraifft, mynediad at wasanaethau cwnsela arbenigol a chymorth a chyingor ar-lein. Mae'r ystod o wasanaethau a gwmpesir yn cynnwys;

- Modelau Llety
- Gwasanaethau yn y gymuned
- Mentrau Ymyrraeth Gynnar ac Atal
- Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc
- Gwasanaethau sy'n gysylltiedig â throseddwyr
- Mentrau Gwasanaethau Cyhoeddus
- Gwasanaethau Trais a Cham-drin Rhywiol

Mae'r dadansoddiad diweddaraf gan Grŵp Strategaeth VAWDASV Canolbarth a Gorllewin Cymru yn dangos bod y rhanbarth wedi derbyn cyfanswm o £2.9m o gyllid yn 2018, er nodwyd bod canfod cyfanswm yr adnoddau ariannol yn parhau i fod yn dasg

gymhleth o achos sut caiff cyllidebau ar gyfer cymorth cyffredinol eu rhannu. Cafodd cyfran fawr o'r arian hwn ei gyfeirio drwy'r Grant Cymorth Tai ac mae llawer o wasanaethau hefyd yn dibynnu ar grantiau gan elusennau. Roedd y Grŵp Strategaeth o'r farn bod y trefniant ariannu cymhleth hwn yn creu heriau sylweddol o ran cynllunio a darparu gwasanaethau'n effeithiol.

2.1 Edrych yn ôl

Roedd PNA 2017 yn rhagflaenu strategaeth VAWDASV Canolbarth a Gorllewin Cymru ac yn nodi'r bylchau canlynol yn y gwasanaethau a ddarperir a'r meysydd i'w gwella:

- Codi proffil a dealltwriaeth y cyhoedd o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, gan gynnwys ymhlith grwpiau sy'n agored i niwed fel Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig, pobl anabl, y gymuned LGBT, pobl hŷn, ffoaduriaid a mudwyr.
- Sefydlu arferion da o ran adnabod, gwybodaeth, ymgynghori ac integreiddio gwasanaethau cysylltiedig eraill.
- Nodi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn gynharach.
- Gwella addysg am berthnasoedd iach a chydaddoldeb rhywiol.
- Sicrhau bod gweithwyr proffesiynol yn cael eu hyfforddi i ddarparu ymatebion effeithiol, amserol a phriodol i ddioddefwyr a goroeswyr.
- Darparu mynediad cyfartal i ddioddefwyr i wasanaethau o ansawdd uchel sydd wedi eu harwain gan anghenion, sydd wedi eu seilio ar gryfderau ac sy'n ymatebol i rywedd ar draws y rhanbarth.
- Datblygu gwasanaethau yn y gymuned sydd wedi'u cyd-gynhyrchu, sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr, sy'n atal unigedd ac yn hyrwyddo llesiant a gwynnwch.
- Cynyddu ymgysylltiad goroeswyr wrth gynllunio, darparu a monitro gwasanaethau.
- Datblygu a gweithredu llwybr integredig ar gyfer pob math o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.
- Mwy o ffocws ar gyflawnwyr troseddau, gan eu dwyn i gyfrif am eu gweithredoedd a darparu cyfleoedd, drwy ymyrraeth a chymorth, iddynt newid eu hymddygiad.

2.2 Edrych ymlaen

Mae'r pandemig parhaus wedi cael effaith sylweddol ar oroeswyr VAWDASV, ac mae'r canlyniadau wrth symud ymlaen yn dal yn ansicr. Ers yr achosion o COVID-19, mae data sy'n dod i'r amlwg, ac adroddiadau gan y rhai sy'n gweithio mewn gwasanaethau rheng flaen wedi dangos bod llawer o fathau o VAWDASV, yn enwedig trais domestig, wedi gwaethygu.”

Mae fersiwn drafft y PNA 2022 wedi cael y fantais o allu adeiladu ar y dadansoddiad bwlch mwy diweddar a gynhaliwyd gan Grŵp Strategol VAWDASV Canolbarth a Gorllewin Cymru, er mwyn paratoi ar gyfer cyflwyno Manyleb Gwasanaeth VAWDASV Ranbarthol. Nododd y Grŵp Strategol a oedd yn cynnwys comisiynwyr, darparwyr a goroeswyr VAWDASV y themâu canlynol fel bylchau neu feysydd i'w gwella. Sylwer, mae'r themâu hyn eu hunain yn fwy penodol na'r rhai a nodwyd yn PNA 2017, sy'n cael eu hystyried yn fwy generig ac sy'n rhoi pwys ar ymagwedd yn hytrach na darparu gwasanaethau.

- Gwasanaethau plant a phobl ifanc.
- Gwasanaethau sy'n canolbwyntio mwy ar atal.

- Sicrhau bod mewnbwn arbenigol VAWDASV ar gael ar gyfer grwpiau penodol h.y. pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, anabledd, LGBT, pobl hŷn.
- Adolygu'r model lloches a'r opsiynau llety.
- Opsiynau llety a chymorth i bobl ag anghenion cymhleth sy'n herio modelau presennol.
- Gwasanaethau yn y gymuned ar gyfer goroeswyr cam-drin a thrais rhywiol.
- Ymyriadau / Gwasanaethau i gyflawnwyr troseddau.

Ochr yn ochr â dadansoddiad o fylchau drafft PNA 2022, mae gwaith a wnaed gan Grŵp Strategaeth VAWDASV Canolbarth a Gorllewin Cymru yn 2021 wedi darparu golwg fanylach ar fylchau o ran gwasanaeth a chymorth yn ardal pob cyngor sir.

Mewn ymateb i'r heriau a wynebir o ran darparu gwasanaethau cyson o ansawdd uchel ar draws y rhanbarth, mae Grŵp Strategaeth VAWDASV yn paratoi lansio Manyleb Gwasanaeth VAWDASV Ranbarthol, i ategu Strategaeth "Bywydau Mwy Diogel, Teuluoedd Iachach" Canolbarth a Gorllewin Cymru 2018. Mae'r amseru ar gyfer cyflwyno'r cynllun hwn yn digwydd yr un pryd ag y bydd pob sir yn adnewyddu eu contractau VAWDASV yn 2022.

2.3 Problemau a Bylchau

- Mae nifer yr achosion o drais yn erbyn menywod wedi cynyddu yn ystod y pandemig tra bo dioddefwyr o bosibl wedi ei chael hi'n anoddach cael gafael ar wasanaethau.
- Mae'r trefniadau ariannu cymhleth yn risg sylweddol o ran sicrhau cymorth digonol.
- Mae bwlbh penodol o ran diffyg gwasanaethau i ddioddefwyr hŷn cam-drin domestig
- Nododd Grŵp Strategol VAWDASV Canolbarth a Gorllewin Cymru, sy'n cynnwys comisiynwyr, darparwyr a goroeswyr VAWDASV, y themâu canlynol fel bylchau neu feysydd i'w gwella
 - Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc
 - Gwasanaethau sy'n canolbwyntio mwy ar atal
 - Sicrhau bod mewnbwn arbenigol VAWDASV ar gael ar gyfer grwpiau penodol h.y. BAME, anabledd, LGBT, pobl hŷn
 - Adolygu'r model lloches a'r opsiynau llety
 - Opsiynau llety a chymorth i bobl ag anghenion cymhleth sy'n herio modelau presennol
 - Gwasanaethau yn y gymuned ar gyfer goroeswyr cam-drin a thrais rhywiol
 - Ymyriadau / Gwasanaethau i gyflawnwyr troseddau.

3 Gofalwyr (gan gynnwys gofalwyr ifanc di-dâl)

Ystyr gofalwr yw unrhyw un sy'n rhoi gofal am ddim i ffrind/aelod o'r teulu/cymydog sydd ag unrhyw fath o gyflwr iechyd, salwch, anabledd, problem iechyd meddwl neu ddibyniaeth ac na all ymdopi gartref heb gymorth ychwanegol. Goruchwylir gwasanaethau i ofalwyr di-dâl gan Grŵp Datblygu Gofalwyr Gorllewin Cymru sy'n

cynnwys cynrychiolaeth o'r Bwrdd Iechyd, cyngorau sir, partneriaid y trydydd sector a gofalwyr di-dâl.

Mae Deddf Llesiant Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014 yn nodi bod ystod o ddyletswyddau ar awdurdodau lleol i gefnogi gofalwyr di-dâl, sy'n cwmpasu:

- Adnabod a chydabod
- Cyngor a gwybodaeth
- Asesu anghenion gofalwyr
- Cymorth ymarferol
- Eiriolaeth
- Cymorth cyflwr-benodol i'r gofalwr a'r person maent yn gofalu amdano

Fodd bynnag, mae gofalwyr di-dâl hefyd yn cael eu cefnogi drwy lu o wasanaethau a chymorth, i gynnwys;

- **Gwasanaethau cyffredinol:** Er enghraifft, canolfannau hamdden, canolfannau cymunedol, llyfrgelloedd a chyfleoedd addysg i oedolion.
- **Gwasanaethau ataliol:** Er enghraifft, cynlluniau cymydog da, clybiau cinio, mentrau cymunedol, gwasanaethau cymunedol/gwirfoddol.
- **Cyfleoedd Dydd:** Darparu cyswllt cymdeithasol, lleihau unigedd ac unigrwydd, cynnal a / neu adfer annibyniaeth, cynnig gweithgareddau sy'n darparu ysgogiad meddyliol a chorfforol, darparu gwasanaethau gofal, cynnig cymorth lefel isel.
- **Darpariaeth Gofal Seibiant:** fodd bynnag, mae'r gwasanaethau hyn yn ddewisol.
- **Taliadau Uniongyrchol:** Mae'r rhain yn ffordd arall i unigolion gael mynediad at ystod o gyfleoedd drwy allu dewis pwy sy'n darparu'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.

3.1 Edrych yn ôl

Bu i'r PNA yn 2017 nodi'r bylchau a'r cyfleoedd canlynol i gefnogi gofalwyr (di-dâl) ledled y rhanbarth;

- Mae heriau o ran gwella canlyniadau i ofalwyr. Gall cyfrifoldebau gofalu gynyddu dros amser ac felly nid yw unigolion yn sylweddoli'n syth eu bod wedi dod yn 'ofalwr' neu y gallai cymorth fod ar gael.
- Mae angen cynllunio a datblygu gwasanaethau ataliol.
- Mae angen gwella asesiadau gofalwyr a gwneud rhagor i sicrhau bod gwasanaethau sy'n cefnogi'r person sy'n derbyn gofal yn hygyrch ac ar gael.
- Mae angen cryfhau rôl mentrau cymdeithasol a gwasanaethau a arweinir gan ddefnyddwyr.
- Mae angen datblygu dull llawer mwy cydgysylltiedig rhwng partneriaid ac asiantaethau eraill i sicrhau bod y materion sy'n wynebu gofalwyr yn cael eu hystyried wrth gynllunio rhaglenni cymunedol fel trafndiaeth, tai, datblygiadau technoleg, a rhaglenni cymunedol eraill.

3.2 Edrych ymlaen

Mae dadansoddiad o fersiwn drafft PNA 2022 yn dangos bod graddau a nifer y gwasanaethau a'r cymorth a gynigir i ofalwyr di-dâl ar draws y rhanbarth yn annigonol ar hyn o bryd o'u gosod yn erbyn niferoedd presennol y gofalwyr di-dâl.

Nodwyd yn Adroddiad "*Track the Act*" Gofalwyr Cymru ym mis Hydref 2019 fod disgwyl i'r boblogaeth Gofalwyr di-dâl ledled Cymru gynyddu'n sylweddol yn y blynyddoedd i ddod. Erbyn 2037 amcangyfrifir y bydd y boblogaeth Gofalwyr yn cynyddu o 370,000 i dros hanner miliwn.

Fel gwaelodlin, amcangyfrifodd Cyfrifiad 2011 fod dros 47,000 o ofalwyr di-dâl, a oedd yn cynrychioli 12.5% o drigolion Gorllewin Cymru yn 2011, ac mae PNA 2022 wedi nodi, er bod nifer y bobl sy'n hunan-adnabod fel gofalwyr wedi cynyddu yn ystod y pandemig, fod nifer y gofalwyr a nodwyd yn is na'r niferoedd a amlygwyd yn nadansoddiad Cyfrifiad 2011. Mae hyn yn awgrymu bod bwch sylweddol yn nifer y gofalwyr sy'n cael eu cydnabod a'u cefnogi yn eu rolau gofalu hanfodol bwysig.

Mae nifer sylweddol a chynyddol o ofalwyr hŷn. Er rhagwelir y bydd nifer y gofalwyr di-dâl yn cynyddu 2% rhwng 2020 a 2030, rhagwelir y bydd y gyfran dros 65 oed yn cynyddu 17%. Amcangyfrifir bod 30% o ofalwyr yn darparu 50 awr neu fwy yr wythnos o ofal, ond mae hyn yn codi i 46% o ofalwyr 65 oed a hŷn²³.

Mae hyn yn adlewyrchu amcanestyniadau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ynghylch poblogaeth sy'n gynyddol hŷn ar draws y rhanbarth, o gymharu â gostyngiad yn y boblogaeth oedran gweithio. Mae data SYG yn dangos y rhagwelir y bydd nifer y bobl dros 85 oed yn cynyddu 27.8% rhwng 2021 a 2031, tra rhagwelir bydd y boblogaeth o oedran gweithio yn gostwng 3.1% dros yr un cyfnod. Bydd y diffyg cyfatebiaeth hwn yn rhoi pwysau cynyddol ar yr angen i nodi a chefnogi gofalwyr di-dâl.

Fel y nodwyd, mae'r pandemig wedi cael effaith sylweddol ar ofalwyr di-dâl. Mae dadansoddiad gan y gwasanaethau Gwybodaeth a Chymorth i Ofalwyr wedi cadarnhau cynnydd sylweddol yn nifer y ceisiadau am gymorth dros y cyfnod hwn;

- i fyny 31% yn Sir Gaerfyrddin,
- i fyny 15% yn Sir Benfro, a
- i fyny 32% yng Ngheredigion.
- Mae fersiwn drafft PNA 2022 yn cyfrifo bod cyfanswm o 10,081 o ofalwyr hysbys yn rhanbarth Gorllewin Cymru a nodwyd drwy bractisau meddygon teulu, gwasanaethau cymdeithasol a lleoliadau addysg – y mae 9,500 ohonynt yn ofalwyr sy'n oedolion a thros 400 yn ofalwyr ifanc.

At hynny, nododd y Bwrdd Iechyd fod 8,483 o ofalwyr di-dâl yn hysbys i bractisau meddygon teulu ar 31 Mawrth 2020. O fewn deuddeg mis roedd hyn wedi cynyddu dros 2,000 (25%) ac o ganlyniad i gyflwyno'r rhaglen frechu erbyn mis Mai 2021, roedd 3,000 o ofalwyr di-dâl eraill wedi hunan-adnabod eu hunain fel gofalwyr, sef cynnydd cyffredinol o fwy na 5,500 o ofalwyr di-dâl (64%) yn ystod y 15 mis diwethaf.

²³Platform Amcanestyniadau Poblogaeth Gofal Cymdeithasol Cymru, Daffodil

Ers y PNA yn 2017, mae'r rhanbarth wedi gweld datblygiad sylweddol yn ei ymagwedd o gefnogi gofalwyr di-dâl, er bod y bylchau a nodwyd yn 2017 yn parhau. Yn fwyaf nodedig, ym mis Tachwedd 2020, lansiodd Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru 'Strategaeth Gofalwyr Gorllewin Cymru 2020-2025: Gwella Bywydau Gofalwyr'. Mae'r strategaeth hon yn canolbwyntio ar gefnogi gofalwyr di-dâl i gyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt yn gymdeithasol, yn economaidd, yn addysgol ac i gynnal iechyd a llesiant meddyliol da. Mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar 4 blaenoriaeth allweddol;

- **Blaenoriaeth 1:** Gwella'r broses o adnabod Gofalwyr yn gynnar a hunan-adnabod ymysg Gofalwyr gan gynnwys Gofalwyr Ifanc a Gofalwyr sy'n Oedolion Ifanc.
- **Blaenoriaeth 2:** Sicrhau bod amrywiaeth o wasanaethau ar gael i gefnogi lles Gofalwyr o bob oed, yn eu bywyd ochr yn ochr â gofalu.
- **Blaenoriaeth 3:** Cynorthwyo Gofalwyr i gael mynediad i gyfleoedd addysg, hyfforddiant a chyflogaeth.
- **Blaenoriaeth 4:** Cefnogi Gofalwyr i gael eu cynnwys yn ddigidol.

Roedd fersiwn drafft PNA 2022 hefyd yn rhoi mwy o fanylion am fylchau mewn gwasanaethau a chymorth i ofalwyr di-dâl – y gellir eu crynhoi fel a ganlyn:

- Effaith negyddol bod yn ofalwr ar lesiant ac iechyd meddwl, a'r angen am fwy o wasanaethau cymorth emosiynol a chwnsela.
- Anhawster o ran cael gafael ar gymorth a'r angen am well cyfeirio, gwybodaeth hygyrch a llywio.
- Problemau o ran cael gafael ar wasanaethau a chymorth i ofalwyr mewn cymunedau gwledig.
- Cefnogi gofalwyr i gael eu cynnwys yn ddigidol.
- Cymorth wedi'i dargedu'n well ar gyfer gofalwyr ifanc i gynnwys gwell mynediad at seibiant, iechyd meddwl a chymorth a gwasanaethau emosiynol.

3.3 Problemau a Bylchau

- Rhagwelir bydd lefel y gofal a'r cymorth di-dâl a geisir gan ofalwyr di-dâl yn cynyddu'n sylweddol dros y 10 mlynedd nesaf wrth i'r boblogaeth heneiddio.
- Mae llawer o'r gofalwyr eu hunain dros 65 oed ac mae 46% o'r gofalwyr hŷn yn darparu mwy na 50 awr o ofal yr wythnos²⁴
- Mae hyn yng nghyd-destun y cynnydd sylweddol yn nifer y gofalwyr di-dâl sydd wedi adnabod eu hunain yn ystod y pandemig a'r straen presennol ar wasanaethau cymorth gofalwyr arbenigol i ddarparu ymateb amserol.
- Mae angen gwella mynediad at wasanaethau a chymorth mewn cymunedau gwledig ar gyfer gofalwyr di-dâl a gwella lefel cynhwysiant digidol gofalwyr di-dâl.
- Mae angen mwy o gymorth a gwasanaethau iechyd meddwl ac emosiynol ar ofalwyr ifanc. Mae'r pandemig wedi cael effaith negyddol sylweddol ar ofalwyr ifanc o ran teimlo'n fwy ynysig a straen iechyd meddwl / emosiynol.

²⁴ Plattform Amcanestyniadau Poblogaeth Gofal Cymdeithasol Cymru (daffodil)

4 Anableddau Dysgu

Mae gan bobl ag anableddau dysgu lai o allu i ddeall gwybodaeth newydd neu gymhleth ac i ddysgu sgiliau newydd. Yn ogystal, yn aml mae gan bobl sydd ag Anableddau Dysgu lai o gapasiti i fyw'n annibynnol. Yn bwysig, diagnosis yw Anableddau Dysgu ac nid yw'n gyflwr iechyd ac ni ddylid ei gymysgu â diagnosisau eraill fel 'problemau iechyd meddwl' neu 'anawsterau dysgu'.

Yn gyffredinol, trefnir gwasanaethau gofal ar sail cyflyrau sy'n bodoli eisoes, megis Anableddau Dysgu er enghraifft. Fodd bynnag, trefnir gwasanaethau hefyd o amgylch grwpiau oedran i gynnwys plant a phobl ifanc, oedolion o oedran gweithio a phobl hŷn. Yn gyffredinol mae pobl ag Anableddau Dysgu yn cael eu nodi o fewn plant a phobl ifanc, a'r grwpiau oedolion o oedran gweithio, fel gwasanaethau gwahanol, ond nid o fewn y gwasanaethau Pobl Hŷn. Mae hyn yn rhannol oherwydd problemau yn y gorffennol sy'n ymwneud â disgwyliaid oes, sydd bellach wedi gwella'n sylweddol i bobl ag anableddau dysgu, er nad yw categoreiddio gwasanaethau wedi newid.

Mae graddau'r anabledd dysgu yn amrywio o ysgafn i ddifrifol. Y bobl hynny sydd wedi cael diagnosis o Anawsterau Dysgu Dwys a Lluosog, sydd â'r lefel uchaf o anghenion.

Mae'r holl wasanaethau a reoleiddir a gwmpesir yn rhan Sefydlogrwydd yr MSR yn cael eu defnyddio gan bobl ag anableddau dysgu, ond darperir Cysylltu Bywydau a Chartrefi Gofal i Oedolion Ifanc yn bennaf i bobl ag anableddau dysgu.

4.1 Edrych yn ôl

Amcangyfrifodd yr asesiad PNA a gynhaliwyd yn 2015 fod 1,483 o oedolion (18+ oed) ag anabledd dysgu cymedrol neu ddifrifol ar draws Gorllewin Cymru - a rhagwelir y bydd yn codi i 1,571 erbyn 2030, er bod disgwyl i'r sefyllfa aros yr un fath i raddau helaeth fel canran o'r boblogaeth gyfan. Nodwyd bod disgwyl twf yn Sir Gaerfyrddin tra bo disgwyl i'r niferoedd yn Sir Benfro a Cheredigion aros yr un peth.

Yn arwyddocaol, nododd yr amcanestyniadau gynnydd o 33% mewn pobl dros 75 oed ag anabledd dysgu cymedrol neu ddifrifol dros yr un cyfnod, ond nid oedd amcanestyniadau PNA yn manylu ar nifer yr achosion o Anableddau Dysgu ymhlith plant a phobl ifanc.

Nododd PNA 2015 y bylchau canlynol yn y gwasanaethau a ddarperir a'r cymorth sef:

- Grymuso pobl ag anabledd dysgu i benderfynu pwy sy'n darparu eu cymorth ac ar ba ffurf fydd y cymorth hwnnw.
- Cryfhau llwybrau yn ôl i gymunedau lleol yn dilyn addysg, a datblygu addysg leol, gwirfoddoli a chyfleoedd gwaith mewn cymunedau, gan wneud yr addasiadau angenrheidiol i bobl ag anabledd dysgu.
- Cynyddu mynediad ac argaeledd tai a llety lleol priodol i alluogi pobl ag anabledd dysgu i fyw mor annibynnol â phosibl, mewn man o'u dewis.
- Datblygu prosesau comisiynu a chaffael cyson, integredig sy'n seiliedig ar egwyddorion cyd-gynhyrchu, sy'n cynnwys fforymau a grwpiau cymunedol a arweinir gan ddefnyddwyr o ran cynllunio a darparu gwasanaethau.
- 'Rhesymoli' pecynnau gofal presennol i sicrhau eu bod yn diwallu anghenion cyfredol, yn hwyluso datblygiad personol, yn cynyddu annibyniaeth, ac yn darparu

gwasanaethau cost-effeithiol sy'n sicrhau'r canlyniadau gorau i ddefnyddwyr gwasanaeth.

- Datblygu fframwaith perfformiad cyson sy'n seiliedig ar ganlyniadau ar gyfer darparu gwasanaethau ledled y rhanbarth, gan ddefnyddio data i gefnogi cynllunio a chomisïynu yn y dyfodol.

4.2 Edrych ymlaen

Mae fersiwn drafft PNA 2022 wedi mabwysiadu dull sy'n wahanol i ddefnyddio cofrestr y Fframwaith Sicrhau Ansawdd, oherwydd roedd yn cael ei gydnabod nad oedd y dull hwn yn cyfrif pobl sydd heb ddiagnosis Anableddau Dysgu.

O ran niferoedd cyffredinol yr oedolion ag Anableddau Dysgu, roedd PNA drafft 2022 yn adolygu data oedd yn ymwneud â Thaliadau Annibyniaeth Bersonol (PIP) ar draws Gorllewin Cymru, gan dybio bod y taliadau hyn yn cael eu targedu'n bennaf at bobl ag anableddau dysgu. Nifer y bobl oedd yn hawlio Taliad Annibyniaeth Bersonol ym mis Tachwedd 2020 oedd 2,264 (1,160 yn Sir Gaerfyrddin, 770 yn Sir Benfro a 334 yng Ngheredigion). Mae hwn yn fwy na'r hyn a gyflwynwyd yn PNA 2015 ac mae'n dangos lefel uwch o angen (heb ddiagnosis) ar draws y rhanbarth, ond wrth gwrs mae hyn yn cynnwys pobl ag anableddau a chyflyrau iechyd eraill.

Ar hyn o bryd, cyfrifir mai 2,978 oedd cyfanswm nifer y plant a phobl ifanc ag anabledd dysgu (0-17 oed) yng Ngorllewin Cymru yn 2021, a disgwylir i'r nifer aros yn gyson dros y 10 mlynedd nesaf.

Roedd fersiwn drafft PNA 2022 hefyd yn ystyried nifer y bobl â diagnosis Anawsterau Dysgu Dwys a Lluosog sydd fwyaf tebygol o fod yn derbyn gwasanaethau gofal ar ddwysedd uchel. Roedd hyn yn seiliedig ar ymchwil a wnaed yn yr Alban yn 2013. Defnyddiai'r PNA gyfradd cyffredinwydd o 0.05%, gan ehangu ar gyfradd o 1.8% y flwyddyn, a nodi 77 o bobl ag anawsterau dysgu a lluosog yn Sir Gaerfyrddin, 51 yn Sir Benfro, a 32 yng Ngheredigion yn 2021. Fodd bynnag, nid yw'r gwaelodlin hwn wedi cael ei fwrw ymlaen.

Lluniodd y Rhwydwaith Dysgu a Gwella Tai ddadansoddiad o anghenion llety i oedolion ag anableddau dysgu yng Ngorllewin Cymru ar sail allosodiadau cyfraddau cyffredinwydd. Roedd yr amcanestyniadau hyn yn ystyried anghenion llety gwahanol hyd at 2037, gan ddod i'r casgliad bod gostyngiadau sylweddol yn y defnydd o ofal preswyl a gostyngiadau mwy cymedrol yn nifer y bobl ag Anableddau Dysgu oedd yn byw gyda gofawyr teuluol, a chynnydd sylweddol mewn unedau tai â chymorth, lleoedd cysylltu bywydau a chynnydd mwy cymedrol yn nifer yr oedolion ag Anableddau Dysgu sy'n defnyddio'r prif dai â chymorth (gweler isod):

- Gostyngiad yn y defnydd o ofal preswyl o 266 o leoedd i 149 o leoedd.
- Cynnydd yn y ddarpariaeth o dai â chymorth o 299 o unedau tai i 529 o unedau tai.
- Cynnydd yn y ddarpariaeth o leoedd cysylltu bywydau o 76 o leoedd i 161 o leoedd.
- Cynnydd mewn mynediad i dai prif ffrwd â chymorth o 129 i 169 o unedau tai.
- Gostyngiad yn nifer yr oedolion ag anableddau dysgu sy'n byw gyda gofawyr teuluol o 634 i 569 o bobl.

Nododd adborth gan bobl ag Anableddau Dysgu gynnydd sylweddol ar draws y rhanbarth yn lefel yr ymgysylltu a'r ymrwymiad i gyd-gynhyrchu gwasanaethau yn

cynnwys sefydlu'r *Dream Team*, a lansio Siarter Anableddau Dysgu, ond cafwyd adborth bod cynnydd yn nifer yr achosion cymhleth yr oedd angen mwy o gymorth a chyllid arnynt. Roedd yr ymgysylltu yn awgrymu bod angen strategaeth gydgysylltiedig i ddiwallu'r anghenion hyn.

Roedd ymgysylltiad y PNA yn ystyried effaith barhaus y pandemig ar wasanaethau a chymorth i bobl ag Anableddau Dysgu ac yn dod i'r casgliad bod ".. colli momentwm a chynnydd o ran datblygu gwasanaethau Anableddau Dysgu yn ystod y cyfnod clo" a bod y pandemig wedi cael effaith sylweddol ar bobl ag Anableddau Dysgu, yn enwedig yng nghyd-destun lefelau uwch o unigedd a straen, yn ogystal ag achosion o fethiannau mewn gwasanaethau, ac yn drist ddigon, cyfraddau marwolaethau uwch o ran Covid ymhlith pobl ag Anableddau Dysgu na'r boblogaeth gyffredinol.

Roedd y PNA yn nodi'r themâu canlynol fel bylchau yn y gwasanaethau a'r cymorth presennol:

- Anghenion llety/tai ar gyfer y grŵp hwn o unigolion ag anghenion iechyd cymhleth, y bydd y rhan fwyaf ohonynt yn gymwys i gael cyllid gofal iechyd parhaus.
- Ailgynllunio'r model llety presennol gan ganolbwyntio ar fyw yn y gymuned a galluogi pobl i fyw bywydau annibynnol.
- Newid rhwng gwasanaethu cymunedol i blant ac oedolion.
- Mynediad at wasanaethau dydd a gofal seibiant.
- Gwelliant yn safon y wybodaeth a ddarperir i unigolion (hawdd ei darllen a dwyieithog) a modd i bobl gael gafael ar y wybodaeth honno yn haws.
- Systemau a gwybodaeth i wella mynediad at wasanaethau gofal iechyd sylfaenol ac eilaidd.
- Systemau, strategaethau a thechnoleg i wella cyfathrebu rhwng gwahanol wasanaethau ac adrannau ar draws y rhanbarth.
- Dull amlweddog a ffordd fwy cydgysylltiedig o weithio rhwng arbenigeddau wrth ofalu a chefnogi pobl ag Anableddau Dysgu sydd hefyd â phroblemau cymhleth eraill.

4.3 Problemau a Bylchau

- Rhagwelir bydd nifer y bobl ag anableddau dysgu sy'n fwy tebygol o gyflwyno eu hunain i wasanaethau iechyd a gofal yn parhau i fod yn gymharol gyson dros y 10 mlynedd nesaf – er disgwylir i nifer y bobl hŷn ag anableddau dysgu gynyddu'n sylweddol gan adlewyrchu gwelliant mewn disgwyliad oes.
- Mae'r asesiad o anghenion tai yn nodi'r angen am unedau ychwanegol sylweddol o lety arbenigol (cysylltu bywydau a byw â chymorth) dros y 15 mlynedd nesaf, tra rhagwelir bydd nifer y lleoliadau gofal preswyl yn gostwng yn sylweddol.
- Mae llawer o'r heriau oedd yn bodoli cyn y pandemig yn parhau ac wedi'u hamlygu yn PNAs 2015 a 2022.

5 Awtistiaeth

Yn ôl y Gymdeithas ²⁵Awtistiaeth Genedlaethol, diffinnir awtistiaeth fel anabled ddatblygiadol gydol oes sy'n effeithio ar sut mae pobl yn cyfathrebu ac yn rhyngweithio

²⁵ <https://www.awtistiaeth.org.uk/>

â'r byd. Mae'r gymdeithas yn amcangyfrif bod un o bob 100 o bobl ar y sbectrwm awtistiaeth a bod tua 700,000 o oedolion a phlant awtistig yn y DU.

Fodd bynnag, mae'r gymdeithas yn nodi bod awtistiaeth yn anhwylder ar y sbectrwm sy'n golygu y gall fod gan bobl awtistig anghenion cymorth amrywiol. Mae gan draean pobl awtistig anabledd dysgu hefyd. Nid yw'r sbectrwm awtistiaeth yn llinol, a bydd gan rai pobl awtistig anghenion cymorth uchel, a allai olygu bod angen gofal a chymorth amser llawn arnynt. Efallai y bydd angen ychydig o gymorth ar rai pobl gyda gweithgareddau o ddydd i ddydd, tra bo eraill yn byw bywydau cwbl annibynnol.

5.1 Edrych yn ôl

Nid oedd PNA 2017 yn cwmpasu awtistiaeth fel grŵp poblogaeth ar wahân, ond yn hytrach roedd yn cynnwys awtistiaeth yn yr asesiad poblogaeth anabledd dysgu (gweler adran Anableddau Dysgu y PNA).

5.2 Edrych ymlaen

Defnyddiodd fersiwn drafft PNA 2022 yr un gymhareb rhagamcanu â'r hyn a nodwyd gan y Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol (mae awtistiaeth yn effeithio ar un o bob 100 o bobl yn y boblogaeth) ac amcangyfrifwyd bod tua 4000 o bobl yn byw gydag awtistiaeth yng Ngorllewin Cymru. Dyrannwyd hyn ymhellach gan:

- 2000 yn Sir Gaerfyrddin,
- 1500 yn Sir Benfro a
- 750 yng Ngheredigion yn seiliedig ar amcangyfrifon poblogaeth cyfredol

Amcangyfrifodd fersiwn drafft PNA 2022 y bydd nifer y bobl ag Awtistiaeth yn parhau'n gymharol sefydlog hyd at 2031 ar draws y tri chyngor sir. Mae hyn hefyd yn gyson â modelau rhagamcanu eraill fel Daffodil. Fodd bynnag, roedd y PNA hefyd yn cydnabod bod yr amcangyfrifon cyffredinol efallai'n llai nag y dylent fod.

5.3 Problemau a Bylchau

- Bydd nifer y bobl ag awtistiaeth yn parhau'n gymharol sefydlog dros y 10 mlynedd nesaf.
- Nododd y PNA fod gan lawer o bobl ag awtistiaeth deimlad cyffredinol o beidio â chael cymorth – yn enwedig wrth fyw mewn ardaloedd gwledig ar draws y rhanbarth.
- Yr angen am arwyddion gwell a hygyrch ar draws y rhanbarth, yn enwedig ar gyfer cefnogi pobl ifanc sy'n trosglwyddo i wasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion.
- Rhoddwyd gwybod am amseroedd aros sylweddol ar gyfer diagnosis a mynediad cyfyngedig i wasanaethau a chymorth dilynol – yn enwedig opsiynau byw â chymorth a gwasanaethau Iechyd Meddwl i bobl ifanc. Ar hyn o bryd mae 900 o oedolion a 1500 o blant ar y rhestr aros ddiagnosteg.
- Mae'r adroddiad Rhwydwaith Dysgu a Gwella Tai wedi nodi bod galw mawr am dai arbenigol yn y rhanbarth ar gyfer pobl ag Anabledd Dysgu ac Awtistiaeth.
- Mae'r pandemig wedi arwain at fwy o ddirywiad mewn Iechyd meddwl ac ynysu pellach.

6 Iechyd Meddwl

Yn ôl Sefydliad Iechyd y Byd, "cyflwr o lesiant yw iechyd meddwl ble mae'r unigolyn yn sylweddoli beth yw ei allu ei hun, yn gallu dygymod â straen arferol bywyd, yn gallu gweithio mewn modd cynhyrchiol a buddiol ac yn gallu gwneud cyfraniad tuag at ei gymuned ei hun."

Amcangyfrifwyd bod gan 1 o bob 4 oedolyn broblemau iechyd meddwl neu salwch ar ryw adeg yn ystod eu hoes a bod symptomau gan 1 o bob 6 oedolyn ar unrhyw un adeg. Bydd symptomau gan tua 50% o'r bobl sy'n mynd ymlaen i gael problemau iechyd meddwl difrifol erbyn iddynt gyrraedd 14 oed a llawer ohonynt yn iau o lawer.

6.1 Edrych yn ôl

Nododd PNA 2017 fod nifer yr achosion o anhwylderau iechyd meddwl cyffredin yng Ngorllewin Cymru yn debyg iawn i'r ffigur cenedlaethol: Roedd 75% o bobl 16+ oed 'yn rhydd o anhwylder iechyd meddwl cyffredin' o gymharu â 74% ar gyfer Cymru gyfan. (Mae anhwylderau iechyd meddwl cyffredin yn cynnwys iselder, anhwylder gorbryder, anhwylder panig, anhwylder obsesiynol cymhellol, ac anhwylder straen wedi trawma, ac mae'n cyfrif am tua 75% o'r holl broblemau iechyd meddwl). Rhagwelwyd y byddai nifer yr achosion o'r ystod lawn o anhwylderau iechyd meddwl yn cynyddu rhwng 2015 a 2030 ym mhob un o'r tair sir yn ardal Hywel Dda.

Yn unol â strategaeth ddeng mlynedd genedlaethol Llywodraeth Cymru, Law yn Llaw at Iechyd Meddwl, roedd newid nodedig wedi bod tuag at gymorth yn y gymuned a gostyngiad yn nifer y bobl a dderbyniwyd i'r ysbyty ar draws y rhanbarth, o 165 yn 2009 i 123 yn 2015. Fodd bynnag, rhagwelid y byddai nifer y bobl â phroblemau iechyd meddwl a leolir mewn gofal preswyl yn cynyddu oni bai bod rhagor o lety a chymorth cymunedol yn cael eu datblygu.

Ymhlith y bylchau a'r meysydd i'w gwella a nodwyd yn PNA 2017 oedd:

- Gwella gwasanaethau atal ac ymyrraeth gynnar, dewisiadau eraill i wasanaethau ysbyty megis hafan ddiogel, seibiant a gwasanaethau cyswllt trosglwyddo gofal, a mynediad at wasanaethau, yn enwedig i'r rhai sydd mewn argyfwng.
- Datblygu ymagwedd 'galluogi risg' sy'n seiliedig ar ganlyniadau at ddarparu gwasanaethau i gefnogi ymagwedd hyblyg at gefnogi pobl â phroblem iechyd Meddwl.
- Gwella mynediad at gymorth hawliau llesiant iechyd meddwl penodol a mwy o gymorth i ofalwyr a gofalwyr, ac mae angen i ofalwyr fod yn rhan o'r gwaith cynllunio Gofal a Thriniaeth.
- Datblygu mynediad uniongyrchol 24 awr i ddarpariaeth arall i'r rheiny sydd mewn argyfwng lle nad derbyn cleifion i'r ysbyty yw'r opsiwn gorau.
- Gwella profiad y defnyddiwr gwasanaeth a thrawsgludo mewn perthynas ag Adran 136 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl ar gyfer y rhai a gedwir yn nalfa'r heddlu.
- Datblygu gwasanaethau wedi'u cyd-gynhyrchu a rhwydweithiau cymunedol i gefnogi pobl i wella'u hyder a'u sgiliau gan ddefnyddio cymorth gan gyfoedion a/neu fentora.
- Datblygu gweithlu hyblyg ac ymatebol ar draws iechyd a gofal cymdeithasol i ddarparu'n llwyddiannus fodelau newydd o wasanaethau iechyd meddwl; a
- Mynd i'r afael â'r diffyg cysylltiadau trafniadaeth mewn rhanbarthau gwledig iawn, sy'n ei gwneud yn anos darparu gwasanaethau ac sy'n creu heriau recriwtio.

Mae fersiwn drafft PNA 2022 yn awgrymu, er bod cynnydd wedi'i wneud, fod angen gwella rhagor ar rai o'r materion hyn, gan gynnwys mynediad at gymorth 24/7 a symud yn agosach at fodel mwy cymunedol.

6.2 Edrych ymlaen

Mae fersiwn drafft PNA 2022 yn awgrymu bod problemau iechyd meddwl yn problem gynyddol yng Ngorllewin Cymru a bod hynny'n gysylltiedig â'r pandemig.

Mae'r data'n cyflwyno darlun cymysg. Mae cyfran y bobl sy'n 'rhydd o anhwylderau iechyd meddwl cyffredin' wedi cynyddu ond mae'n parhau ychydig yn uwch na'r ffigur cenedlaethol.

Mae nifer y bobl a gofnodwyd ar y fframwaith canlyniadau ansawdd iechyd meddwl wedi cynyddu rhwng 2009 a 2019 sy'n awgrymu bod ymwybyddiaeth o iechyd meddwl a mynediad at driniaeth wedi gwella yn y tymor hwy.

Mae amcanestyniadau o nifer yr achosion yn y dyfodol wedi newid ers 2017 gyda'r fersiwn ddiweddaraf bellach yn dangos gostyngiad cyffredinol rhwng 2020 a 2043, er rhagwelir bydd anhwylderau iechyd meddwl cyffredin yn cynyddu ychydig yn Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro. Mae'r newid hwn yn adlewyrchu amcanestyniadau poblogaeth diwygiedig sy'n rhagweld y bydd poblogaeth o oedran gweithio yn gostwng yng Ngorllewin Cymru. Gan fod anhwylderau iechyd meddwl yn fwy cyffredin ymhlith pobl o oedran gweithio, mae'r newid demograffig hwn yn effeithio ar yr achosion disgwylidig. Byddai'r amcangyfrifon diweddaraf yn cyfateb i tua 48,000 o bobl sy'n byw gydag anhwylder iechyd meddwl ledled Gorllewin Cymru ar unrhyw un adeg (15% o'r boblogaeth 16+ oed). Ni fydd mwyafrif llethol y bobl yn ceisio nac yn cael unrhyw driniaeth ar gyfer eu cyflwr, sy'n dangos angen posibl nas diwallwyd.

Mae nifer y bobl sydd â salwch meddwl mwy difrifol neu barhaus yn llawer is. Cyfrifwyd gwaelodin o bobl sydd angen llety a chymorth oherwydd iechyd meddwl ar gyfer asesiad o anghenion tai a gynhaliwyd gan y Rhwydwaith Dysgu a Gwella Tai yn 2021. Amcangyfrifwyd bod cyfanswm o 571 o bobl ledled Gorllewin Cymru sydd ag anghenion cymorth naill ai'n byw yn y gymuned neu mewn lleoliadau preswyl neu ysbyty.

Fodd bynnag, gall y pandemig newid hyn yn sylweddol. Mae tystiolaeth bod y pandemig wedi cael effaith andwyol ar lesiant meddyliol, er enghraifft daeth astudiaeth gan *Fiscal Wales* i'r casgliad bod "iechyd meddwl yng Nghymru wedi dirywio'n sylweddol o ganlyniad i COVID-19 i'r boblogaeth gyfan. Nid yw'r effaith wedi'i dosbarthu'n gyfartal yn y boblogaeth, gyda'r effeithiau negyddol yn effeithio'n anghymesur ar oedolion iau, menywod, enillwyr incwm isel, a lleiafrifoedd ethnig, sef grwpiau sydd eisoes wedi profi lefelau is o iechyd meddwl cyn dechrau'r pandemig."

Mae'r pandemig hefyd wedi gweld cynnydd mewn amseroedd aros ar gyfer asesu a thrin iechyd meddwl, ac mae disgwyl i hyn ddwysáu'r niwed uniongyrchol a achosir gan y pandemig. Ym mis Medi 2019 roedd 379 o atgyfeiriadau ar gyfer Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl Sylfaenol Lleol, ac aseswyd 91% ohonynt o fewn 28 diwrnod²⁶. Ym mis Medi 2021, roedd nifer yr atgyfeiriadau yn is sef 262 ond dim ond 71% a

²⁶ [Amseroedd aros StatsCymru ar gyfer asesiad Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl Sylfaenol Lleol](#)

aseswyd o fewn 28 diwrnod. Yn yr un modd, cynyddodd nifer y plant sy'n aros mwy na 4 wythnos am apwyntiad CAMHs o 2 i 22 (neu o 2% i 28%)²⁷.

Daeth asesiad diweddar o anghenion tai pobl â phroblemau iechyd meddwl a gynhaliwyd gan y Rhwydwaith Dysgu a Gwella Tai i'r casgliad bod cynnydd sylweddol mewn unedau llety yn ofynnol dros y ddau ddegawd nesaf – cyfanswm o 460 o unedau ychwanegol erbyn 2040. Roedd hyn yn rhagdybio:

- Cynnydd o flwyddyn i flwyddyn yn nifer y bobl sydd angen cymorth
- Gostyngiad sylweddol yn nifer y bobl mewn gofal preswyl; a
- Gostyngiad sylweddol yn nifer y cleifion mewnol seiciatrig

Hyd yn oed os yw'r tybiaethau hyn yn anghywir, mae'n glir bod angen mwy o lety gyda chymorth, o safon dda sy'n cynnig dewis o wahanol fathau o lety a lefelau cymorth.

6.3 Problemau a Bylchau

- Mae'r pandemig yn debygol o fod wedi cael effaith ddifrifol ar lesiant meddyliol. Mae'n anodd rhagweld yr effaith hirdymor yn anad dim oherwydd bod y pandemig yn parhau. Fodd bynnag, mae risg sylweddol y bydd mwy o broblemau iechyd meddwl yn deillio o hyn.
- Yn y cyfamser, mae'r pandemig wedi amharu ar wasanaethau ac mae mwy o amseroedd aros ar gyfer asesu a thrin yn achos CAMHS a'r gwasanaethau oedolion. Gallai hyn waethygu'r effaith uniongyrchol gaiff y pandemig.
- Mae'r asesiad o anghenion tai yn nodi'r angen am unedau llety ychwanegol sylweddol dros y ddau ddegawd nesaf.

²⁷ [Amseroedd aros apwyntiadau Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed StatsCymru](#)

7 Iechyd ac Anabledd Corfforol

Mae'r model cymdeithasol o anabledd yn gwahaniaethu'n bwysig rhwng 'nam' ac 'anabledd'. Yn ôl Anabledd Cymru, cymdeithas genedlaethol sefydliadau pobl anabl, 'nam' yw:

- Anaf, salwch, neu gyflwr cynhenid sy'n achosi neu'n debygol o achosi effaith hirdymor ar ymddangosiad corfforol a / neu gyfyngu ar allu unigolyn sy'n wahanol i'r cyffredin.

Ar y llaw arall, anabledd yw:

- Colli neu gyfyngu ar gyfleoedd i gymryd rhan mewn cymdeithas ar lefel gyfartal ag eraill oherwydd rhwystrau cymdeithasol ac amgylcheddol.
- Achosir anabledd gan 'rwystrau' neu elfennau o sefydliad cymdeithasol nad ydynt yn rhoi digon o ystyriaeth i bobl sydd â namau.

Yn anffodus, mae llawer o'r ddeddfwriaeth a'r data wedi'u gwreiddio mewn model meddygol o anabledd sy'n cyfuno namau ag anableddau, ac sy'n pwysleisio nodweddion unigolion yn hytrach na'r newidiadau cymdeithasol a allai hyrwyddo cydraddoldeb.

Mae rhai namau yn para am oes, tra bo eraill yn cael eu hachosi gan anafiadau neu gyflyrau iechyd. Wrth i ni heneiddio mae cyfran y bobl â namau yn tyfu ond gall ffyrdd iach a gweithgar o fyw leihau neu oedi hyn yn sylweddol.

7.1 Edrych yn ôl

Canfu PNA 2017 fod nifer yr oedolion 18-64 oed sy'n byw gyda salwch hirdymor cyfyngol yn debygol o ostwng, gan adlewyrchu'r gostyngiad a ragwelir yn y boblogaeth o oedran gweithio yn hytrach nag unrhyw newid yn nifer yr achosion o namau. I'r gwrthwyneb, mae nifer y bobl hŷn sy'n byw gyda salwch neu anableddau hirdymor yn cynyddu, sy'n ffactor pwysig yng nghymhlethdod cynyddol anghenion gofal a amlygir yn yr adran pobl hŷn.

Roedd cyfanswm o 1,679 o bobl wedi'u cofrestru ag anabledd corfforol ar gofrestrau awdurdodau lleol yng Ngorllewin Cymru ac roedd 1,744 arall wedi'u cofrestru fel rhai ag anableddau corfforol a synhwyraidd: sy'n cyfateb i tua 1.1% o gyfanswm y boblogaeth 18-64 oed. Mae data cofrestru yn tanamcangyfrif nifer y bobl ag anableddau gan nad yw llawer o bobl yn ymwybodol o'r gofrestr neu'n dewis peidio â'i defnyddio. Dangosir hyn gan y ffaith bod nifer yr oedolion sy'n derbyn Lwfans Byw i'r Anabl a Thaliadau Annibyniaeth Bersonol yn llawer uwch, sef 16,740, er y byddai hyn yn cynnwys anghenion eraill fel anableddau dysgu.

Nododd y PNA mai cyflyrau niwrolegol oedd yr achos mwyaf cyffredin o anabledd difrifol sy'n cael effaith fawr, ond heb ei chydabod yn aml, ar iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, a bywydau pobl.

Dywedodd y PNA, er bod nifer presennol y bobl ag anghenion gofal a chymorth penodol yn fach, a rhagwelir y byddant yn gostwng yn y tymor canolig, 'mae'n hanfodol bod

darpariaeth briodol ar waith i hyrwyddo llesiant ac annibyniaeth ac atal anghenion rhag cynyddu'.

Roedd y bylchau a'r meysydd i'w gwella a nodwyd yn y Cynllun Ardal yn seiliedig ar PNA 2017 yn canolbwyntio ar atal ac ymyrraeth gynnar:

- Datblygu mynediad priodol at ystod o wybodaeth, cyngor a chymorth gan gynnwys Dewis Cymru ac Infoengine, a gwasanaethau eiriolaeth sy'n berthnasol i anghenion iechyd a gofal cymdeithasol ym mhob cyfnod allweddol mewn bywyd.
- Datblygu gwasanaethau rhanbarthol cyson ac integredig sy'n hygyrch ac sy'n ymateb i angen y boblogaeth.
- Gwella'r broses o nodi, trin a rheoli cyflyrau cronig a rhai y gellir eu hatal, gan gynnwys diabetes, clefyd y galon a salwch anadlol, er mwyn gwella llesiant hirdymor a lleihau cymhlethdodau.
- Sicrhau bod ymyriadau a llwybrau effeithiol ar gyfer atal, trin a rheoli gordewdra a gordewdra ymhlith plant ar gael fel mater o drefn ac yn cael eu gweithredu'n systematig.
- Gwella'r broses o nodi'n gynnar a thrin ffactorau risg sy'n gysylltiedig ag anghydraddoldeb iechyd.
- Cryfhau'r trefniadau pontio rhwng gwasanaethau plant a phobl ifanc a'r gwasanaethau oedolion.
- Datblygu gwasanaethau yn y gymuned sydd wedi'u cyd-gynhyrchu, sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr, sy'n atal unigedd ac yn helpu pobl i fod yn fwy gwydn ac i reoli eu cyflyrau eu hunain.
- Cynyddu'r defnydd o dechnoleg gynorthwyol, megis teleofal i drawsnewid gofal cartref a gwasanaethau byw â chymorth.
- Gwella hyblygrwydd i ddarparu darpariaeth camu i fyny ac i lawr i ymateb i anghenion sy'n newid.

Nid oedd llawer ynghylch gwella mynediad i wasanaethau arbenigol nac ynghylch gwaredu rhwystrau sy'n achosi anabledd megis adeiladau wedi'u cynllunio'n wael neu wella trafndiaeth gyhoeddus fwy hygyrch.

7.2 Edrych ymlaen

Mae fersiwn drafft PNA 2022 yn nodi tueddiadau tebyg, gyda nifer yr oedolion o dan 65 oed sy'n byw gyda namau yn debygol o ostwng yn unol â'r gostyngiad a ragwelir ym mhoblogaeth o oedran gweithio Gorllewin Cymru. Cofnodwyd cyfanswm o 3460 o bobl ar gofrestrau awdurdod lleol oedd â nam corfforol neu synhwyraidd yn 2019 (y data diweddaraf a gyhoeddwyd) – tua'r un nifer â PNA 2017.

I'r PNA roedd ymgysylltu â'r PNA yn tynnu sylw at nifer o'r rhwystrau cymdeithasol sy'n achosi anabledd, yn enwedig dyluniad adeiladau, gan gynnwys tai, a diffyg trafndiaeth gyhoeddus, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Tynnodd pobl sylw hefyd at gymhlethdod y rheolau ynghylch byw â chymorth gan arwain at oedi a rhwystredigaeth.

Mae pandemig Covid wedi cael effaith anghymesur ar bobl anabl, a disgwylir i'r effaith honno wneud yr anghydraddoldebau presennol yn waeth. Roedd Covid yn fwy tebygol o gael effaith uniongyrchol ar bobl anabl, gyda risg sylweddol uwch o farwolaethau, ac roeddent hefyd yn fwy tebygol o gael eu cyflogi mewn sectorau yr effeithiwyd arnynt yn wael gan gyfyngiadau. Roedd tarfu ar wasanaethau wedi ychwanegu at hyn. (Gweler er

enghraifft data a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021 gan Lywodraeth Cymru ar effaith Covid ar bobl anabl).

Prin yw'r data yn y PNA am ddigonolrwydd gwasanaethau arbenigol ar gyfer anghenion neu amodau penodol sy'n adlewyrchu bylchau mewn data yn genedlaethol ac yn rhanbarthol.

Mae gwella gwybodaeth, cyngor ac eiriolaeth yn faes gwella a amlygwyd yn 2017 a 2022.

7.3 Problemau a Bylchau

- Mae'r pandemig wedi cael effaith anghymesur ar bobl anabl a allai ddwysáu'r anghydraddoldebau presennol.
- I'r PNA roedd ymgysylltu â'r PNA yn tynnu sylw at nifer o'r rhwystrau cymdeithasol sy'n achosi anabledd, yn enwedig dyluniad adeiladau, gan gynnwys tai, a diffyg trafndiaeth gyhoeddus, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.
- Mae sicrhau mynediad i wasanaethau arbenigol i bobl ag amrywiaeth o anghenion mwy cymhleth yn arbennig o heriol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.
- Prin yw'r dystiolaeth am ddigonolrwydd gwasanaethau a gwasanaethau arbenigol ar gyfer cyflyrau ac anghenion ac mae angen gwneud rhagor o waith i nodi a mynd i'r afael â bylchau.

8 Nam ar y Synhwyr

Mae nam ar y synhwyr yn cyfeirio at yr ystod o namau ar y golwg neu'r clyw, gan gynnwys colli synhwyr deuol. Nid oes rhaid i berson golli synwyr yn llawn i fod â 'nam'.

Fel yr amlygwyd uchod, nid yw nam yr un peth ag anabledd. Mae anabledd yn codi pan fydd rhwystrau cymdeithasol neu amgylcheddol yn gwadu neu'n cyfyngu ar gyfleoedd i gymryd rhan mewn cymdeithas ar sail gyfartal.

8.1 Edrych yn ôl

Canfu PNA 2017 fod nam ar y synhwyr yn dod yn fwyfwy cyffredin wrth i ni heneiddio. Felly, mae'n dod yn fwy cyffredin wrth i'r boblogaeth heneiddio ac mae'n agwedd ar gymhlethdod cynyddol yr anghenion a welir mewn pobl hŷn. Er amcangyfrifwyd bod nam difrifol ar eu golwg gan 145 o bobl 18-64 oed yng Ngorllewin Cymru, amcangyfrifwyd bod gan 2592 o bobl dros 75 oed gyflyrau llygaid cofrestradwy. Mae gan oddeutu 12% o bobl dros 75 oed nam cymedrol neu ddifrifol ar y golwg. Yn yr un modd, mae colled clyw yn effeithio'n anghymesur ar bobl hŷn, oherwydd amcangyfrifwyd bod rhyw fath o golled clyw ar 71% o'r bobl dros 70 oed. I gyd, amcangyfrifwyd bod nam ar y clyw cymedrol neu ddifrifol ar tua 47,000 o oedolion yng Ngorllewin Cymru.

Tynnwyd sylw at bwysigrwydd ymyrraeth gynnar yn ogystal â'r ffaith bod llawer o namau ar y synhwyr yn mynd heb ddiagnosis, sy'n golygu bod cyfleoedd i gael triniaeth gynnar yn cael eu colli.

Roedd y bylchau a'r meysydd i'w gwella yn cynnwys y canlynol:

- Codi proffil a dealltwriaeth y cyhoedd o nam ar y synhwyrau a Gwasanaeth Golwg Gwan y GIG, ac ymgorffori arferion da o ran adnabod, gwybodaeth, ymgynghori ac integreiddio gwasanaethau cysylltiedig eraill.
- Datblygu mynediad priodol at ystod o wybodaeth, cyngor a chymorth sy'n mynd i'r afael ag anghenion a rhwystrau i gael mynediad at wasanaethau, a all atal pobl â nam ar y synhwyrau rhag cael mynediad at ofal iechyd hanfodol.
- Datblygu cymorth a gwasanaethau cyson penodol megis dehongli, cyfieithu, darllen gwefusau, therapïau siarad, adsefydlu a chlinigau ar gyfer offthalmoleg a glawcoma er mwyn sicrhau eu bod ar gael ac yn hygyrch ar draws y rhanbarth.
- Cynyddu'r defnydd o daliadau uniongyrchol i sicrhau y gall pobl arfer dewis a rheolaeth gwirioneddol dros y gofal a'r cymorth maent am eu derbyn.
- Datblygu gwasanaethau yn y gymuned sydd wedi'u cyd-gynhyrchu, sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr, sy'n atal unigedd ac yn hyrwyddo cysylltedd cymunedol, llesiant a gwytnwch, a helpu pobl i aros yn annibynnol am hirach yn eu cymunedau eu hunain.
- Mynd i'r afael â'r diffyg cysylltiadau trafndiaeth mewn rhanbarthau gwledig iawn, sy'n ychwanegu at yr anhawster o ddarparu gwasanaethau hygyrch.

8.2 Edrych ymlaen

Mae fersiwn drafft PNA 2022 yn nodi tueddiadau tebyg o ran nifer y bobl â nam ar y synhwyrau yn unol â phoblogaeth sy'n heneiddio. Disgwylir i nifer y bobl iau â nam ar y synhwyrau ostwng ychydig i 2043 tra bo'r rhan fwyaf o'r twf ymhlith pobl 75 oed neu hŷn.

Yn gyffredinol, disgwylir i nifer y bobl â nam ar eu golwg yng Ngorllewin Cymru gynyddu o 12,971 yn 2020 i 21,910 erbyn 2043. Yn y cyfamser, disgwylir i nifer y bobl sydd â nam ar eu clyw gynyddu o 85,864 yn 2020 i 107,782 erbyn 2043.

Fel yn achos anabledau corfforol, mae'r pandemig wedi cael effaith anghymesur ar bobl â nam ar y synhwyrau. Maent hefyd yn wynebu rhwystrau ychwanegol o ran cael mynediad at wasanaethau o bell neu gynnal cyswllt cymdeithasol yn rhithwir.

Mae pobl sydd â nam ar y synhwyrau mewn llawer mwy o berygl o fod yn unig ac o gael eu harwahanu'n gymdeithasol, a hynny'n uniongyrchol oherwydd eu namau ac oherwydd problemau fel diffyg trafndiaeth ac iaith arwyddion. Hefyd mae diffyg mynediad i drafndiaeth gyhoeddus, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, yn cynyddu arwahanrwydd cymdeithasol, ynghyd ag ofn cael codwm, ac mae manau cymdeithasol sydd wedi'u cynllunio neu eu cynnal a'u cadw'n wael yn gwaethygu pethau.

8.3 Problemau a Bylchau

- Disgwylir i nifer y bobl â nam ar y synhwyrau dyfu'n sylweddol.
- Mae angen penodol i leihau arwahanrwydd cymdeithasol pobl â nam ar eu synhwyrau mewn cymunedau gwledig, i gynnwys gwelliannau o ran cymorth cymunedol a mynediad at wasanaethau arbenigol.

- I'r nifer gymharol fach o bobl iau sydd â nam ar y synhwyrau, mae angen amrywiaeth o gymorth gan gynnwys offer a chynngor i ddileu rhwystrau a chynyddu cyflogaeth a chyfleoedd.

9 Dementia

Syndrom (neu grŵp o symptomau cysylltiedig) yw dementia a ddaw i'r amlwg pan gaiff yr ymennydd ei niweidio gan anaf neu glefyd. Wrth i ddementia waethygu, mae'n arwain at namau yn y cof ac o ran meddwl ac ymddygiad, sy'n effeithio'n negyddol ar allu unigolyn i weithredu a chyflawni gweithgareddau bob dydd. Achosir dementia gan amrywiaeth o gyflyrau, y mwyaf cyffredin ohonynt yw clefyd Alzheimer, ac mae'n dod yn fwy cyffredin wrth i'r boblogaeth heneiddio. Cyn y pandemig, dementia oedd prif achos marwolaeth yn y DU, gan gyfrif am 12.7% o'r holl farwolaethau.

9.1 Edrych yn ôl

Nid oedd PNA 2017 yn ystyried dementia ar wahân, ond yn hytrach fel rhan o'r penodau ar bobl hŷn ac iechyd meddwl. Er bod hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod dementia'n llawer mwy cyffredin ymhlith pobl hŷn, roedd perygl nad oedd yn rhoi sylw digonol i ddementia sy'n dechrau cyn 65 oed ('dementia sy'n dechrau'n ifanc').

Dyma'r meysydd a nodwyd i'w gwella sy'n benodol i ddementia yn y grŵp hwn:

- Sicrhau bod gwasanaethau (gan gynnwys gofal sylfaenol, gofal cartref, gofal preswyl ac ailalluogi) a chymunedau yn rhai 'sy'n deall dementia'.
- Gwella'r cyfraddau diagnosis dementia.

Mae Cynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Dementia 2018-2022 yn nodi gweledigaeth: i fod yn genedl sy'n deall dementia ac yn cydnabod hawliau pobl â dementia i deimlo'n werthfawr ac i fyw mor annibynnol â phosibl yn eu cymunedau.

9.2 Edrych ymlaen

Rhagwelir bydd nifer y bobl sy'n byw gyda dementia yn parhau i gynyddu. Mae'r gwaith a wnaed ar gyfer fersiwn drafft Strategaeth Dementia Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru yn amcangyfrif bydd nifer y bobl sy'n cael diagnosis o ddementia yn cynyddu o 2,812 yn 2020 i 4,200 erbyn 2040 (cynnydd o 49%). Fodd bynnag, o ystyried dementia sydd heb ei ddiagnosisio (tua 53% o gyfanswm yr achosion), mae'r Strategaeth yn amcangyfrif bydd nifer y bobl sy'n byw gyda dementia ledled Gorllewin Cymru yn cynyddu o 5,300 i 7,900 erbyn 2040.

Mae'r amcangyfrifon hyn yn cyd-fynd yn fras ag amcanestyniadau a gyhoeddwyd ar y plattform amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol gan ddefnyddio dull gwahanol. Mae'r rhain yn rhagweld cynnydd o 41% yn nifer y bobl sy'n byw gyda dementia yng Ngorllewin Cymru rhwng 2020 a 2030, o 4,107 i 5,802.

Er bod nifer y bobl sy'n byw gyda dementia yn cynyddu wrth i'r boblogaeth heneiddio, mae cyfran y bobl mewn grŵp oedran sy'n byw gyda dementia yn gostwng yn y tymor hir. Mae ymchwil ryngwladol wedi amcangyfrif bod cyfran y bobl â dementia wedi gostwng tua 15% bob degawd dros y deng mlynedd ar hugain diwethaf. Mae hyn yn

bennaf oherwydd gwell iechyd fasnolaidd gan fod llai o bobl yn ysmegu, ac mae'n tanlinellu pwysigrwydd ymgyrchoedd iechyd cyhoeddus i annog pobl i leihau eu risg bersonol o gael dementia drwy wneud newidiadau syml i'w ffordd o fyw. (Adroddwyd gan [Alzheimer's Research UK](#)).

Nododd y Strategaeth Dementia ddrafft 84 o gleifion ar gofrestrau meddygon teulu sydd o dan 65 oed. O'r rheiny, mae 55 yn y grŵp oedran 60-65 oed. Mae hyn yn rhoi cyfradd o 0.04% i Orllewin Cymru ar draws y boblogaeth oedolion, sy'n debyg iawn i'r gyfradd a welir ledled Cymru yn genedlaethol. Dim ond 5 claf ar gofrestrau meddygon teulu oedd o dan 50 oed.

9.3 Problemau a Bylchau

- Disgwylir i nifer y bobl sy'n byw â dementia gynyddu 49% erbyn 2040²⁸.
- Mae hwn yn ffactor pwysig o ran cymhlethdod cynyddol anghenion sy'n effeithio ar wasanaethau.
- Mae nifer y bobl sy'n byw gyda dementia sy'n dechrau'n ifanc yn fach, ond fel arfer mae angen gwasanaethau arbenigol arnynt nad ydynt ar gael yn lleol o bosibl.
- Mae diffyg cymorth pwrpasol megis gweithgareddau grŵp ar gyfer pobl iau sy'n byw gyda dementia neu ofal preswyl arbenigol.

10 Pobl Hŷn

At ddibenion y ddogfen hon mae 'pobl hŷn' yn cyfeirio at bobl 65 oed a hŷn. Mae hon yn rhan fawr o'r boblogaeth gyda lefelau amrywiol iawn o lesiant ac angen. Defnyddir y grŵp 85+ oed yn aml fel procsi i amcangyfrif nifer y bobl sy'n debygol o fod ag anghenion gofal a chymorth mwy sylweddol.

10.1 Edrych yn ôl

Bu i PNA 2017 nodi poblogaeth sy'n heneiddio a chynnydd yng nghymhlethdod anghenion pobl hŷn ("mae pobl yn byw'n hirach ond gyda lefelau uwch o salwch ac anabled"). Nododd yr asesiad y gallai natur wledig, amddifadedd, a thlodi tanwydd yng Ngorllewin Cymru ddwysáu tueddiadau demograffig, gan gynyddu'r galw am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Nododd y PNA amrywiaeth o fylchau a meysydd i'w gwella ar gyfer pobl hŷn:

- Datblygu mynediad priodol at ystod o wybodaeth, cyngor a chymorth gan gynnwys Dewis a gwasanaethau eiriolaeth sy'n berthnasol i anghenion iechyd a gofal cymdeithasol ar gamau perthnasol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol.
- Gwella gofal wedi'i rag-gynllunio ar draws iechyd, gofal cymdeithasol a sectorau eraill er mwyn osgoi sefyllfa lle mae anghenion yn cynyddu.
- Lleihau'r ddibyniaeth ar ofal preswyl a nyrsio o blaid gwasanaethau lefel is, ataliol a llesiant.
- Datblygu gwasanaethau yn y gymuned sydd wedi'u cyd-gynhyrchu, sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr, sy'n atal unigedd ac yn hyrwyddo cysylltedd cymunedol,

²⁸ Strategaeth Dementia Ddrafft Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru (WWCP)

llesiant a gwytnwch, a helpu pobl i aros yn annibynnol am hirach yn eu cymunedau eu hunain.

- Gwella prosesau asesu a chynllunio gofal i sicrhau bod pobl hŷn a'u gofalwyr yn rhan o'r penderfyniadau yn eu cylch, gan gynnwys cynllunio rhyddhau.
- Sicrhau bod pobl hŷn a'u teuluoedd yn gallu cyrchu gwasanaethau yn eu dewis iaith a bod y cynnig drwy gyfrwng y Gymraeg ar gael.
- Sicrhau dull cyson ac integredig o ymdrin ag eiddilwch ar draws y rhanbarth sy'n cyd-fynd â strategaethau a llwybr rhanbarthol ar gyfer eiddilwch a dementia.
- Datblygu prosesau comisiynu a chaffael cyson, integredig sy'n seiliedig ar egwyddorion cyd-gynhyrchu, sy'n cynnwys pobl hŷn, fforymau a grwpiau cymunedol a arweinir gan ddefnyddwyr o ran cynllunio a darparu gwasanaethau, er mwyn sicrhau cynaliadwyedd yn y farchnad.
- Gwella a safoni lefelau o dele-iechyd a theleofal ar draws y rhanbarth.
- Mynd i'r afael â'r diffyg cysylltiadau trafniadaeth mewn rhanbarthau gwledig iawn, sy'n ei gwneud yn anos darparu gwasanaethau ac sy'n creu heriau recriwtio.
- Datblygu dull integredig o sicrhau ansawdd a monitro contractau cartrefi gofal er mwyn nodi a mynd i'r afael â phryderon sy'n dod i'r amlwg ac atal lleoliadau rhag chwalu.

Lluniodd y PNA Gynllun Ardal Gorllewin Cymru, ac roedd y cynllun cyflawni ar ei gyfer yn cynnwys ystod o gamau gweithredu i fynd i'r afael â bylchau a meysydd i'w gwella ar gyfer pobl hŷn gan gynnwys datblygu strategaeth dementia ranbarthol.

Mae'r cyfeiriad strategol cyffredinol ar gyfer gwasanaethau a chymorth pobl hŷn a nodwyd yn y Cynllun Ardal yn parhau'n ddilys, ond mae'r cyd-destun ar gyfer ei gyflawni wedi bod hyd yn oed yn fwy heriol na'r disgwyl oherwydd y pandemig parhaus. O ganlyniad, mae'r heriau a nodwyd yn parhau ac, mewn sawl ffordd, wedi tyfu'n fwy.

Mae'r ffaith fod y 'system' heb fethu ac wedi parhau i ddarparu gofal a chymorth o ansawdd da i bobl hŷn, er gwaethaf heriau na welwyd eu tebyg o'r blaen, yn dyst i ymroddiad ac ymrwymiad gweithwyr a darparwyr gofal cymdeithasol a'u staff.

Gwers bwysig arall a amlygwyd gan y pandemig yw potensial enfawr rhwydweithiau cymorth lleol iawn o ran cael rôl gynyddol. Fodd bynnag, mae angen cyllid a hwyluso parhaus arnynt wrth symud ymlaen, ac yn fwy cyffredinol, bydd angen ymdrech a buddsoddiad sylweddol yn genedlaethol yn ogystal ag yn rhanbarthol ac yn lleol i sicrhau cynaliadwyedd hirdymor.

10.2 Edrych ymlaen

Mae fersiwn drafft PNA 2022 yn cadarnhau'r tueddiadau a nodwyd yn flaenorol h.y. poblogaeth sy'n heneiddio a chymhlethdod cynyddol anghenion oherwydd cyffredinolrwydd dementia a disgwyliad oes yn cynyddu'n gynt na disgwyliad oes heb anabled.

Yn ôl yr amcanestyniadau diweddaraf mae poblogaeth Gorllewin Cymru yn debygol o dyfu o 386,501 i 391,688 rhwng 2021 a 2031, cynnydd o 1.3%. Yn y cyfamser, rhagwelir y bydd nifer y bobl hŷn (65+) yn cynyddu 17.5%, a phobl dros 85 oed, 27.8%. Mae'r cynnydd hwn yn y grwpiau oedran hŷn yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae PNA 2020 yn dangos bod llawer iawn o bobl dros 65 oed yn mewnfudo i'r ardal.

Ceir y lefelau uchaf yn Sir Benfro lle mae 87% o'r rheiny sy'n symud i mewn dros 65 oed.

Yn y cyfamser, rhagwelir y bydd y boblogaeth o oedran gweithio yn gostwng ym mhob un o'r tair sir ond yn fwyaf sydyn yng Ngheredigion lle rhagwelir y bydd y boblogaeth gyffredinol yn gostwng. (Rhwng 2021 a 2031 rhagwelir bydd y boblogaeth 16-64 oed yn gostwng 3.1% ar draws Gorllewin Cymru a 5.6% yng Ngheredigion).

Bydd y tueddiadau demograffig hyn yn cynyddu'r galw am iechyd a gofal cymdeithasol, ond ni fyddant o reidrwydd yn trosi'n uniongyrchol i alw cynyddol am ofal preswyl a nyrsio. Mae hyn oherwydd disgwyliadau newidiol a'r ffaith bod cymorth dwysach gartref wedi galluogi pobl i fyw'n annibynnol am fwy o amser. Canfu adroddiad cenedlaethol gan Grant Thornton fod cyfran y bobl dros 85 oed mewn gofal preswyl wedi gostwng yn gyson rhwng 1996 a 2017, o 25.2% i 14.8%,²⁹, a nododd *Fiscal Wales* sefyllfa debyg yn *The Future of Care in Wales* gyda'r niferoedd mewn gofal preswyl yn gostwng wrth i'r boblogaeth hyn gynyddu.

Canlyniad hyn yw bod pobl sydd angen gofal yn tueddu i fod ag anghenion mwy cymhleth. Cadarnhaodd dadansoddiad data a gwaith maes ar gyfer yr MSR, megis arolwg a chyfweliadau darparwyr, fod y tueddiadau hyn hefyd yn amlwg yng Ngorllewin Cymru, lle roedd darparwyr a chomisiynwyr yn adrodd cymhlethdod cynyddol atgyfeiriadau a lleoliadau newydd.

Amcangyfrifodd dadansoddiad a gynhaliwyd gan y Gymdeithas Alzheimer fod gan tua 70 y cant o holl breswylwyr cartrefi gofal dementia neu broblemau difrifol gyda'r cof.

Mae'r PNA wedi nodi bod y pandemig wedi effeithio ar ganfyddiadau'r cyhoedd o gartrefi gofal ac wedi gwneud pobl yn amharod i ddewis gofal preswyl iddynt hwy eu hunain neu eu perthnasau oni bai eu bod yn gwbl anochel. Lle mae pobl yn dewis gofal preswyl (gan gynnwys gofal nyrsio), mae gwybodaeth am y farchnad o'r gwaith maes a'r adolygiad pen desg yn awgrymu bod yn well ganddynt gartrefi pwrpasol manyleb uwch gydag ystafelloedd ymolchi ensuite sy'n ei gwneud hi'n haws rheoli heintiau. Mae hyn wedi cynyddu'r tueddiadau presennol yn y farchnad sy'n cael eu gyrru gan ddisgwyliadau uwch gan y defnyddwyr a gofynion cryfach o ran darparu dewis.

Mae hyn yn cyfeirio at yr angen am fwy o ddarpariaeth gymunedol, ac opsiynau tai arbenigol fel cynlluniau Gofal Ychwanegol (fel y nodwyd yn y PNA ac y cyfeirir atynt mewn amcanestyniadau a wnaed gan y Rhwydwaith Dysgu a Gwella Tai ar gyfer Gorllewin Cymru) i alluogi pobl i fyw'n annibynnol cyhyd ag y bo modd ochr yn ochr â darpariaeth breswyl a nyrsio fwy arbenigol a gynlluniwyd i ddiwallu anghenion pobl â dementia a chyflyrau lluosog.

Mae fersiwn drafft PNA 2022 hefyd yn amlygu manteision posibl cynyddu gofal trwy gymorth technoleg sy'n gallu ategu gofal mwy traddodiadol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Mae angen seilwaith a mentrau cynhwysiant digidol i wneud hyn.

Mae tystiolaeth o'r arolwg blynyddol o'r gweithlu a gynhaliwyd gan Gofal Cymdeithasol Cymru yn awgrymu bod cyfran y staff sy'n gallu cyfathrebu'n effeithiol yn Gymraeg yn amrywio'n sylweddol rhwng ardaloedd ac yn uwch mewn gwasanaethau a ddarperir yn

²⁹ Cartrefi gofal i'r henoed: Ble'r ydym ni nawr? Grant Thornton 2018

uniongyrchol gan awdurdodau lleol nag mewn gwasanaethau a gomisiynir. Ar gyfer gwasanaethau a gomisiynwyd yn 2019, gallai 11% o staff ar draws Canolbarth a Gorllewin Cymru gyfathrebu'n effeithiol yn Gymraeg. Er bod hyn yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 8% mae'n golygu na fydd gan bobl fynediad cyson at wasanaethau yn y Gymraeg.

Ceir manylion am ddigonolrwydd gwasanaethau a reoleiddir ar gyfer pobl hŷn yn yr adrannau sefydlogrwydd ar gyfer cartrefi gofal a gofal cartref, ond yn fyr:

- Nid yw'r cyflenwad gofal cartref wedi ehangu'n ddigon cyflym i ddarparu digon o gapasiti i ateb y galw'n llawn a darparu dewis, ac mae'r sector hwn o dan straen o ran bodloni lefelau cynyddol o gymhlethdod yn erbyn pwysau parhaus y gweithlu a chwyddiant.
- Mae nifer cyffredinol y cartrefi gofal yn ddigonol ar hyn o bryd ond mae diffyg yn y ddarpariaeth nyrsio, yn enwedig ar gyfer anghenion mwy cymhleth ac arbenigol.
- Mae digonolrwydd y dyfodol yn ansicr oherwydd y pandemig.

10.3 Problemau a Bylchau

- Disgwylir i nifer y bobl sy'n 85 oed neu'n hŷn gynyddu 27.8% erbyn 2031, tra bydd poblogaeth Gorllewin Cymru yn gyffredinol yn cynyddu 1.3% yn unig.
- Mae'r boblogaeth sy'n heneiddio yn golygu y bydd galw cynyddol am wasanaethau gofal a chymorth gan gynnwys amrywiaeth o opsiynau tai.
- Bydd cymhlethdod anghenion hefyd yn parhau i gynyddu wrth i nifer y bobl sy'n byw â dementia ac aml-gyflyrau cyd-forbidrwydd gynyddu.
- Mae'r angen i dyfu cymorth cymunedol hyd yn oed yn fwy o ystyried mor fregus yw'r marchnadoedd ar gyfer gwasanaethau a reoleiddir a amlygwyd yn yr asesiadau sefydlogrwydd.
- Mae recriwtio a chadw staff yn her allweddol ar draws gofal cymdeithasol ac mae'n cael effaith ddifrifol ar ofal cartref a gofal preswyl.
- Mae angen newid parhaus tuag at ofal preswyl a nyrsio mwy arbenigol, ond o dan yr amodau presennol mae'n anodd gweld y farchnad yn cyflawni hynny ar gyflymder neu raddfa ddigonol.

Atodiad Technegol

Mae'r atodiad hwn yn darparu data dethol sy'n sail i'r MSR ynghyd â dolenni i ffynonellau allweddol a dogfennau cefndir. Nid yw siartiau a thablau wedi'u cynnwys ym mhrif gorff yr MSR i'w gadw i hyd y gellir ymdopi ag ef.

Mae'r atodiad wedi'i strwythuro o dan bedwar pennawd bras:

- Croestoriad
- Pobl Hŷn
- Oedolion o Oedran Gweithio; a
- Plant a Phobl Ifanc

1 Croestoriad

1.1 Data Demograffig

Amcangyfrifon Poblogaeth Canol Blwyddyn 2020

	0 i 15	16 i 64	65+ oed	Cyfanswm
Sir Gaerfyrddin	33,156	111,224	45,693	190,073
Ceredigion	10,774	43,453	18,668	72,895
Sir Benfro	21,363	72,219	33,169	126,751
Gorllewin Cymru	65,293	226,896	97,530	389,719

Ffynhonnell: StatsCymru, Amcangyfrifon Canol Blwyddyn 2020

Newid canrannol rhagamcanol yn nifer y bobl 2021-31

	Pob oedran	0-15	16-64	65+	(85+)	(90+)*
Sir Gaerfyrddin	2.2%	-6%	-1.9%	17.6%	24.9%	13.7%
Ceredigion	-1.5%	-11%	-5.6%	13.2%	25.7%	20.1%
Sir Benfro	1.7%	-10%	-3.4%	19.7%	32.5%	31.8%
Gorllewin Cymru	1.3%	-8%	-3.1%	17.5%	27.8%	21.7%
Cymru	2.3%	-5%	-0.4%	16.6%	24.9%	19.0%

Ffynhonnell: StatsCymru, Amcanestyniadau Poblogaeth a wnaed yn 2018

Cynnydd/gostyngiad a ragwelir yn nifer y bobl 2021/2031

	Pob oedran	0-15	16-64	65+	(85+)	(90+)*
Sir Gaerfyrddin	4,083	-1,862	-2,087	8,032	1,364	259
Ceredigion	-1,046	-1,164	-2,358	2,476	671	200
Sir Benfro	2,151	-2,097	-2,382	6,630	1,483	532
Gorllewin Cymru	5,187	-5,124	-6,827	17,138	3,518	990
Cymru	73,796	-29,299	-8,520	111,615	21,164	5,799

Ffynhonnell: StatsCymru, Amcanestyniadau Poblogaeth a wnaed yn 2018

*65+ yn cynnwys yr holl bobl dros 64, gan gynnwys y rheiny sydd dros 84 neu 89. Yn yr un modd mae 85+ yn cynnwys 90+

1.2 Canllawiau

[Cod Ymarfer a Chanllawiau](#) ar gyflawni swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol a threfniadau partneriaeth mewn perthynas ag adroddiadau sefydlogrwydd y farchnad.

1.3 Ffynonellau Data Allweddol

[StatsCymru](#) (yn cynnwys data demograffig, iechyd a gofal cymdeithasol, a chyllid).

[Porth Data Gofal Cymdeithasol Cenedlaethol Cymru](#) (yn cynnwys ystod eang o ddata ac adroddiadau thematig ar gyfer pob awdurdod lleol a rhanbarth ar dri maes blaenoriaeth: gofal a chymorth gartref, dementia a phlant sy'n derbyn gofal).

[Llwyfan Amcanestyniadau Poblogaeth Gofal Cymdeithasol Cymru](#) (yn cynnwys amcanestyniadau am ystod eang o anghenion a chyflyrau ar lefelau awdurdod lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, gan gynnwys: gofal anffurfiol, awtistiaeth, gweithgareddau bywyd bob dydd, anhwylder meddyliol cyffredin, nam ar y clyw, nam ar y golwg a dementia).

1.4 Dogfennau Rhanbarthol

[Asesiad o Anghenion y Boblogaeth 2017](#).

Asesiad o Anghenion y Boblogaeth 2022 (dolen pan gaiff ei gyhoeddi).

[Asesiadau Llesiant](#) Drafft (un ar gyfer pob sir).

[Cynllun Ardal](#) Gorllewin Cymru.

[Strategaeth Gofalwyr 2020-25](#) Gorllewin Cymru.

Fframwaith rhanbarthol ar gyfer datblygu a chomisiynu gwasanaethau Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru. Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol [Sir Gaerfyrddin](#), [Ceredigion](#), a [Sir Benfro](#).

1.5 Darllen Pellach a Chefndir

Papur Gwyn [Ailgydbwysu Gofal a Chymorth](#) Llywodraeth Cymru.

Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru Ail-gydbwysu Gofal Cymdeithasol: Adroddiad ar Wasanaethau Oedolion.

Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gofal Cymdeithasol Cymru [Ailgydbwyso Gofal Cymdeithasol: Adroddiad ar Wasanaethau Plant.](#)

[Heriau a Blaenoriaethau ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru](#), Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, Rhagfyr 2021.

Comisiwn Bevan, [Bevan Exemplars](#), prosiectau arloesol ym maes iechyd a gofal.

[Arloesi digidol ym maes gofal cymdeithasol](#), NHSX, Ipsos Mori, Sgiliau Gofal ac IPC 2021.

2 Pobl Hŷn


2.1 Data Demograffig

Amcangyfrifon Poblogaeth Canol Blwyddyn 2020

	65 i 74	75 i 84	85 a hŷn	Cyfanswm 65+
Sir Gaerfyrddin	24,841	15,053	5,799	45,693
Ceredigion	9,998	6,035	2,635	18,668
Sir Benfro	17,767	10,995	4,407	33,169
Gorllewin Cymru	52,606	32,083	12,841	97,530

Ffynhonnell: StatsCymru, Amcangyfrifon Canol Blwyddyn 2020

Cynnydd a ragwelir yn nifer y bobl 85+ oed 2021-2031



Ffynhonnell: StatsCymru, Amcanestyniadau Poblogaeth a wnaed yn 2018

Cynnydd a ragwelir yn nifer y bobl â dementia difrifol dros y degawd nesaf*


	2020	2025	2030	Cynnydd (nifer)	Cynnydd (%)
Sir Gaerfyrddin	1,912	2,306	2,697	785	41.1%
Ceredigion	789	942	1,076	287	36.5%
Sir Benfro	1,407	1,720	2,030	622	44.2%
Gorllewin Cymru	4,107	4,968	5,802	1,695	41.3%

Ffynhonnell: Llwyfan Amcanestyniadau Poblogaeth Gofal Cymdeithasol Cymru, Daffodil Cymru
*Bydd hyn yn cynnwys nifer fach o bobl iau â dementia

2.2 Tueddiadau mewn gweithgarwch, gallu a gwariant

2.2.1 Gofal Cartref

Nifer y bobl sy'n derbyn gofal cartref cyffredinol



Ffynhonnell: data a gesglir gan IPC ar gyfer MSR


Oriau o ofal cartref cyffredinol

Tuedd Gofal Cartref Cyffredinol Gorllewin Cymru			
	Pobl	Amcangyfrif o'r Oriau Wythnosol	Oriau y person
Ebr-20	2,100	23539.3	11.2
Mai-20	2,122	25798.2	12.2
Meh-20	2,141	24638.2	11.5

Tuedd Gofal Cartref Cyffredinol Gorllewin Cymru			
	Pobl	Amcangyfrif o'r Oriau Wythnosol	Oriau y person
Gorff-20	2,188	25003.7	11.4
Awst-20	2,218	27447.2	12.4
Medi-20	2,219	25391.0	11.4
Hyd-20	2,246	25610.1	11.4
Tach-20	2,264	27590.9	12.2
Rhag-20	2,229	25404.0	11.4
Ion-21	2,230	27167.9	12.2
Chwe-21	2,222	25051.2	11.3
Maw-21	2,210	25158.9	11.4
Ebr-21	2,214	25114.6	11.3
Mai-21	2,347	27242.1	11.6
Meh-21	2,244	25556.6	11.4
Gorff-21	2,232	25025.4	11.2
Awst-21	2,205	25977.2	11.8
Medi-21	2,278	23487.8	10.3

Ffynhonnell: data a gesglir gan IPC ar gyfer MSR

Nifer y bobl ar restrau aros ar gyfer gofal cartref cyffredinol yng Ngorllewin Cymru



Ffynhonnell: data a gesglir ac a ddadansoddir gan IPC ar gyfer MSR


Tueddiadau mewn gwariant ar ofal cartref pobl hŷn

	Hunan ddarpariaeth (yn cynnwys trefniadau ar y cyd)	Darpariaeth gan eraill (yn cynnwys trefniadau ar y cyd)	Gwariant Gros	Gwariant Net	Hunan ddarpariaeth fel % o gros	Newid mewn gwariant net
2018/19	£5,739,678	£24,667,016	£32,370,612	£27,082,994	17.73%	
2019/20	£8,240,572	£22,456,699	£32,688,443	£26,514,253	25.21%	-2.10%
2020/21	£14,476,337	£18,279,484	£35,108,949	£28,053,682	41.23%	5.81%

Ffynhonnell: Ffurflenni Alldro Refeniw a ddadansoddiwyd gan IPC ar gyfer MSR


2.2.2 Cartrefi Gofal ar gyfer Pobl Hŷn

Nifer y cartrefi ar gyfer pobl hŷn yng Ngorllewin Cymru



Ffynhonnell: data a gesglir gan IPC ar gyfer MSR

Tueddiadau o ran nifer y gwelyau ar gyfer pobl hŷn



Ffynhonnell: data a gesglir gan IPC ar gyfer MSR


Tueddiadau mewn lleoliadau a gomisiynwyd gan yr awdurdodau lleol neu'r Bwrdd Iechyd

Cyfanswm ar 31 Mawrth					
	2017	2018	2019	2020	2021
Sir Gaerfyrddin	897	860	945	1006	842
Ceredigion	339	356	331	349	329
Sir Benfro	407	446	450	525	465
Hywel Dda*	325	328	308	297	275
Cyfanswm	1,968	1,990	2,034	2,177	1,911

Ffynhonnell: data a gesglir gan IPC ar gyfer MSR

*Mae nifer lleoliadau Hywel Dda ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus (CHC) ac Adran 117 yn unig. Mae lleoliadau Gofal Nyrsio a Ariennir (FNC) wedi'u cynnwys yn niferoedd yr awdurdodau lleol er mwyn osgoi cyfrif dwbl.

Effaith pandemig Covid-19 ar leoliadau newydd i bobl hŷn



Ffynhonnell: data a gesglir gan IPC ar gyfer MSR

Tueddiadau mewn Deiliadaeth

Cyfradd ddeiliadaeth gyfartalog			
	2019 (Ebrill-Rhag)	2020 (Y Flwyddyn Gyfan)	2021 (Ionawr-Mai)
Nyrsio	93.6%	91.2%	80.7%
Sir Gaerfyrddin	93.6%	89.2%	74.5%
Ceredigion	94.9%	95.5%	88.5%
Sir Benfro	92.4%	88.9%	79.1%
Nyrsio henoed bregus eu meddwl	95.9%	93.7%	86.8%
Sir Gaerfyrddin	95.3%	95.5%	86.5%
Ceredigion	100.0%	100.0%	91.4%
Sir Benfro	92.6%	85.8%	82.5%
Preswyl	95.5%	92.7%	83.5%
Sir Gaerfyrddin	92.4%	91.9%	75.6%
Ceredigion	97.0%	95.3%	90.5%
Sir Benfro	97.2%	90.8%	84.4%
Henoed bregus eu meddwl Preswyl	94.5%	91.6%	83.0%
Sir Gaerfyrddin	92.4%	93.8%	83.0%
Ceredigion	94.3%	90.4%	80.4%

Cyfradd ddeiliadaeth gyfartalog			
	2019 (Ebrill-Rhag)	2020 (Y Flwyddyn Gyfan)	2021 (Ionawr-Mai)
Sir Benfro	96.8%	90.6%	85.4%

Ffynhonnell: data a gesglir gan IPC ar gyfer MSR


Tueddiadau mewn gwariant ar ofal preswyl i bobl hŷn

Lleoliadau Gofal Preswyl Pobl dros 65 oed (gan gynnwys pobl hŷn â salwch meddwl)				
	Hunan ddarpariaeth (yn cynnwys trefniadau ar y cyd)	Darpariaeth gan eraill (yn cynnwys trefniadau ar y cyd)	Gwariant Gros	Gwariant Net
2018/19	£13,436,425	£37,439,911	£54,949,646	£34,436,969
2019/20	£14,595,477	£39,402,785	£57,621,516	£34,833,819
2020/21	£12,020,675	£47,972,723	£62,701,202	£38,944,781

Ffynhonnell: Ffurflenni Alldro Refeniw a ddadansodwyd gan IPC ar gyfer MSR

Lleoliadau Gofal Nyrsio Pobl dros 65 oed (gan gynnwys pobl hŷn â salwch meddwl)				
	Hunan ddarpariaeth (yn cynnwys trefniadau ar y cyd)	Darpariaeth gan eraill (yn cynnwys trefniadau ar y cyd)	Gwariant Gros	Gwariant Net
2018/19	£0	£13,819.432	£14,266.123	£6,113.636
2019/20	£0	£14,591.892	£15,535.686	£4,334.880
2020/21	£0	£16,420.064	£18,051.701	£7,528.241

Ffynhonnell: Ffurflenni Alldro Refeniw a ddadansodwyd gan IPC ar gyfer MSR



Ffynhonnell: Ffurflenni Alldro Refeniw a ddadansoddwyd gan IPC ar gyfer MSR

Cyfraddau a delir am ofal preswyl i bobl hŷn

Cyfraddau Wythnosol Safonol 2020/21				
	Preswyl	Henoed bregus eu meddwl Preswyl	Nyrsio	Nyrsio henoed bregus eu meddwl
Sir Gaerfyrddin	£594.39	£620.52	£575.56	£663.41
Ceredigion	£605.00	£645.00	£617.00	£657.00
Sir Benfro	£651.62	£709.10	£665.05	£720.62

Ffynhonnell: data a gesglir gan IPC ar gyfer MSR

Cyfraddau Wythnosol Cyfartalog 2020/21				
	Preswyl	Henoed bregus eu meddwl Preswyl	Nyrsio	Nyrsio henoed bregus eu meddwl
Sir Gaerfyrddin	£646.16	£638.06	£604.26	£705.54
Ceredigion	£629.31	£682.50	£646.98	£842.79
Sir Benfro	£677.12	£709.10	£682.51	£735.90

Ffynhonnell: data a gesglir gan IPC ar gyfer MSR

Cynnydd canran mewn cyfraddau cyfartalog dros ddwy flynedd: 2018 i 2019				
	Preswyl	Henoed bregus eu meddwl Preswyl	Nyrsio	Nyrsio henoed bregus eu meddwl
Sir Gaerfyrddin	7%	9%	10%	12%
Ceredigion	6%	9%	10%	29%
Sir Benfro	6%	6%	20%	9%

2.2.3 Adroddiadau Maes Blaenoriaeth Gofal Cymdeithasol Cymru

[Gofal a Chymorth yn y Cartref](#) (gallwch ddewis naill ai sir unigol neu'r rhanbarth).
[Pobl â Dementia](#) (yn yr un modd, gallwch ddewis naill ai sir unigol neu'r rhanbarth).

2.2.4 Darllen Pellach a Chefndir

Fiscal Wales [Dyfodol Gofal yng Nghymru, Ariannu Gofal Cymdeithasol ar gyfer Oedolion Hŷn.](#)

[Care Homes for the Elderly: Where are we now?](#) Grant Thornton 2018.

[Datblygu model capasiti a galw ar gyfer gofal y tu allan i'r ysbyty](#) John Bolton, LGA 2021.

[Modelau Eraill ar gyfer Gofal Cartref](#), Canolfan Cymru ar gyfer Polisi Cyhoeddus, 2020.

[Golwg Gyffredinol ar y Farchnad Gofal Cartref](#), Homecare Association 2021

3 Oedolion o Oedran Gweithio

3.1 Data Demograffig

Amcangyfrifon Poblogaeth Canol Blwyddyn 2020

	16 i 64 oed	Canran cyfanswm y boblogaeth
Sir Gaerfyrddin	111,224	58.52%
Ceredigion	43,453	59.61%
Sir Benfro	72,219	56.98%
Gorllewin Cymru	226,896	58.22%

Ffynhonnell: StatsCymru, Amcangyfrifon Canol Blwyddyn 2020

Gostyngiad a ragwelir yn nifer y bobl 16-64 oed 2021-2031

	Newid yn y nifer rhwng 16 a 64 oed
Sir Gaerfyrddin	-2,087
Ceredigion	-2,358
Sir Benfro	-2,382
Gorllewin Cymru	-6,827

Ffynhonnell: StatsCymru, Amcanestyniadau Poblogaeth a wnaed yn 2018


3.2 Tueddiadau mewn gweithgarwch, gallu a gwariant

Gwariant ar ofal cartref i bobl dan 65 oed (pob grŵp angen)

	Hunan ddarpariaeth (yn cynnwys trefniadau ar y cyd)	Darpariaeth gan eraill (yn cynnwys trefniadau ar y cyd)	Gwariant Gros	Gwariant Net
2018/19	£307,272	£2,051,408	£2,542,765	£1,841,035
2019/20	£443,906	£1,972,443	£2,598,154	£1,962,115
2020/21	£560,764	£1,881,283	£2,630,626	£1,872,265

Ffynhonnell: data a gesglir gan IPC ar gyfer MSR

Gwariant net ar ofal cartref yn ôl grŵp angen 2020/21



Ffynhonnell: data a gesglir gan IPC ar gyfer MSR

Oedolion o dan 65 oed sydd wedi'u lleoli mewn cartrefi gofal preswyl

Yn ôl categori angen, ar 31 Mawrth (cyfanswm yn y sir a'r tu allan i'r sir)					
	Anableddau corfforol neu anawsterau synhwyrdd	Anableddau Dysgu	Anghenion iechyd meddwl	Anghenion eraill	Cyfanswm
2018	22	223	123	20	400
2019	27	232	129	15	418
2020	22	240	129	23	430
2021	20	237	131	19	429

Ffynhonnell: data a gesglir gan IPC ar gyfer MSR

Oedolion dan 65 oed sydd wedi'u lleoli mewn cartrefi nyrsio

Yn ôl categori angen, ar 31 Mawrth (cyfanswm yn y sir a'r tu allan i'r sir)					
	Anableddau corfforol neu anawsterau synhwyrdd	Anableddau Dysgu	Anghenion iechyd meddwl	Anghenion eraill	Cyfanswm
2018	2	2	4	4	12
2019	1	0	4	10	15

2020	2	1	3	10	16
2021	3	1	3	15	22

Ffynhonnell: data a gesglir gan IPC ar gyfer MSR

Oedolion dan 65 oed sydd wedi'u lleoli mewn cartrefi gofal preswyl y tu allan i'r sir


Yn ôl categori angen, ar 31 Mawrth (y tu allan i'r sir yn unig)					
	Anableddau corfforol neu anawsterau synhwyraidd	Anableddau Dysgu	Anghenion iechyd meddwl	Anghenion eraill	Cyfanswm
2018	9	84	63	6	162
2019	10	89	72	5	176
2020	8	83	71	5	167
2021	6	78	71	6	161

Ffynhonnell: data a gesglir gan IPC ar gyfer MSR

Oedolion dan 65 oed sydd wedi'u lleoli mewn cartrefi nyrsio tu allan i'r sir

Yn ôl categori angen, ar 31 Mawrth (y tu allan i'r sir yn unig)					
	Anableddau corfforol neu anawsterau synhwyraidd	Anableddau Dysgu	Anghenion iechyd meddwl	Anghenion eraill	Cyfanswm
2018	0	1	4	2	7
2019	0	0	4	3	7
2020	1	0	3	3	7
2021	1	0	3	6	10

Ffynhonnell: data a gesglir gan IPC ar gyfer MSR



Ffynhonnell: data a gesglir gan IPC ar gyfer MSR

Nifer y cartrefi gofal cofrestredig a lleoedd i oedolion 18-64 oed, 2018

	Cartrefi		Lleoedd	
	Heb Nyrsio	Gyda Nyrsio	Heb Nyrsio	Gyda Nyrsio
Ceredigion	7	0	51	0
Sir Benfro	27	1	207	24
Sir Gaerfyrddin	45	1	435	62
Gorllewin Cymru	79	2	693	86

Ffynhonnell: Data archif Porth Data Gofal Cymdeithasol Cenedlaethol Cymru

Nid yw'r data hwn wedi'i gyhoeddi yn y fformat hwn ers 2018. Mae data a gesglir gan IPC ar gyfer MSR yn awgrymu fawr ddim newid yn y darlun hwn felly mae'r ffigurau hyn yn ganllaw defnyddiol o hyd.

Tueddiadau mewn gwariant ar ofal preswyl i oedolion o oedran gweithio

Lleoliadau Gofal Preswyl Pobl dan 65 oed (pob grŵp anghenion)				
	Hunan ddarpariaeth (yn cynnwys trefniadau ar y cyd)	Darpariaeth gan eraill (yn cynnwys trefniadau ar y cyd)	Gwariant Gros	Gwariant Net
2018/19	£2,278,656	£31,670,722	£36,679,008	£23,515,690
2019/20	£2,513,720	£34,428,506	£39,265,490	£31,062,030


2020/21	£2,478,472	£36,114,158	£39,164,330	£31,502,256
---------	------------	-------------	-------------	-------------

Ffynhonnell: Ffurflenni Alldro Refeniw a ddadansodwyd gan IPC ar gyfer MSR

Lleoliadau Gofal Nyrsio Pobl dan 65 (grwpiau pob angen)				
	Hunan ddarpariaeth (yn cynnwys trefniadau ar y cyd)	Darpariaeth gan eraill (yn cynnwys trefniadau ar y cyd)	Gwariant Gros	Gwariant Net
2018/19	£0.00	£9,892.31	£9,929.17	£574.40
2019/20	£0.00	£9,118.77	£9,606.55	£1,707.63
2020/21	£0.00	£10,013.38	£12,077.00	£1,503.69

Ffynhonnell: Ffurflenni Alldro Refeniw a ddadansodwyd gan IPC ar gyfer MSR

Gwariant gros ar leoliadau (preswyl a nyrsio) yn ôl grŵp angen



Ffynhonnell: Ffurflenni Alldro Refeniw a ddadansodwyd gan IPC ar gyfer MSR

3.3 Dogfennau Rhanbarthol

[Siarter](#) Gorllewin Cymru ar gyfer pobl ag anabledau dysgu.

[Asesiad anghenion tai a llety](#) ar gyfer pobl ag anabledau dysgu yng Ngorllewin Cymru hyd at 2037, Rhwydwaith Dysgu a Gwella Tai 2019.

3.4 Darllen Pellach a Chefndir

[Anabledau Dysgu: Rhaglen Gwella Bywydau.](#)

Côd Ymarfer ar [Ddarparu Gwasanaethau Awtistiaeth.](#)

Anabled Cymru, [Model Cymdeithasol Anabled.](#)

Law yn Llaw at Iechyd Meddwl, Strategaeth ar gyfer Iechyd Meddwl a Llesiant yng Nghymru.

[Cysylltu Bywydau yng Nghymru](#) 2021.

4 Plant a Phobl Ifanc

4.1 Data Demograffig

Amcangyfrifon Poblogaeth Canol Blwyddyn 2020

	0 i 4 oed	5 i 15 oed	16 i 24 oed	Cyfanswm 0-24
Sir Gaerfyrddin	9,259	23,897	17,430	50,586
Ceredigion	2,877	7,897	10,606	21,380
Sir Benfro	5,719	15,644	11,265	32,628
Gorllewin Cymru	17,855	47,438	39,301	104,594

Ffynhonnell: StatsCymru, Amcanestyniadau Poblogaeth a wnaed yn 2018


Newid arfaethedig yn nifer y bobl dan 16 oed 2021-31

Pobl 0 i 15 oed	Nifer	Canran
Sir Gaerfyrddin	-1,862	-6%
Ceredigion	-1,164	-11%
Sir Benfro	-2,097	-10%
Gorllewin Cymru	-5,124	-8%

Ffynhonnell: StatsCymru, Amcanestyniadau Poblogaeth a wnaed yn 2018

4.2 Tueddiadau mewn gweithgarwch, gallu a gwariant

Pobl sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth




Ffynhonnell: Data archif Porth Data Gofal Cymdeithasol Cenedlaethol Cymru

Y gyfran a roddir mewn gofal maeth

	%
Sir Gaerfyrddin	83.3%
Ceredigion	70.6%
Sir Benfro	73.3%
Gorllewin Cymru	76.1%
Cymru	69.8%


Ffynhonnell: StatsCymru, Plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth yn ôl math o leoliad

Tueddiadau o ran lleoliadau'r tu allan i'r sir



Ffynhonnell: data a gesglir gan IPC ar gyfer MSR

Tueddiadau o ran lleoliadau'r tu allan i'r rhanbarth



Ffynhonnell: data a gesglir gan IPC ar gyfer MSR

Capasiti mewnol ym mis Ionawr 2022

	Uchafswm Lleoedd	Lleoedd sy'n cael eu defnyddio	Lleoedd Gwag	Lleoedd nad ydynt ar gael
Sir Gaerfyrddin	199	199	0	0
Maethu	191	191	0	0
Preswyl	8	8		
Ceredigion	79	77	2	
Maethu	79	77	2	
Sir Benfro	121	111	10	0
Maethu	115	105	10	0
Preswyl	6	6		
Cyfanswm	399	387	12	0

Ffynhonnell: Data Adnoddau cymorth Comisiynu Plant a ddadansoddwyd gan IPC

Capasiti elusennol a'r trydydd sector ym mis Ionawr 2022

	Uchafswm Lleoedd*
Sir Gaerfyrddin	6

Ceredigion	2
Sir Benfro	4
Cyfanswm	12


Ffynhonnell: Data Adnoddau cymorth Comisiynu Plant a ddadansoddwyd gan IPC
 *Pob achos o faethu, nid oes gwelyau preswyl trydydd sector i blant yng Ngorllewin Cymru

Capasiti'r sector annibynnol ym mis Ionawr 2022


	Uchafswm Lleoedd	Lleoedd sy'n cael eu defnyddio	Lleoedd Gwag	Lleoedd nad ydynt ar gael
Sir Gaerfyrddin	208	135	18	55
Maethu	172	109	12	51
Preswyl	36	26	6	4
Ceredigion	59	37	4	18
Maethu	59	37	4	18
Sir Benfro	113	83	15	15
Maethu	70	47	8	15
Preswyl	43	36	7	0
Cyfanswm	380	255	37	88

Ffynhonnell: Data Adnoddau cymorth Comisiynu Plant a ddadansoddwyd gan IPC

Tueddiadau mewn gwariant gros ar leoliadau



Ffynhonnell: Ffurflenni Alldro Refeniw a ddadansoddwyd gan IPC ar gyfer MSR



Ffynhonnell: Ffurflenni Alldro Refeniw a ddadansoddwyd gan IPC ar gyfer MSR

4.3 Dogfennau Rhanbarthol

Gofal Preswyl a maethu Plant a Phobl Ifanc, Datganiad Sefyllfa ar y Farchnad Canolbarth a Gornllewin Cymru, Ebrill 2021 i Ebrill 2023 (dolen pan gaiff ei gyhoeddi)

4.4 Adroddiadau Maes Blaenoriaeth Gofal Cymdeithasol Cymru

[Plant sy'n derbyn gofal](#) (gallwch ddewis naill ai sir unigol neu'r rhanbarth)

4.5 Darllen Pellach a Chefndir

[Plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru: Tueddiadau](#) Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru 2021.

[Plant sy'n Derbyn Gofal yng Nghymru](#), Papur Briffio Tystiolaeth Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru 2021.

Consortiwm Comisiynu Plant Cymru [ymateb i 'Astudiaeth marchnad gofal cymdeithasol plant yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd \(CMA\), Gwahoddiad i gyflwyno Sylwadau.](#)

[Adroddiad Interim](#) Astudiaeth marchnadoedd gofal cymdeithasol yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd.

Gofal Cymdeithasol Cymru, [Gwella Canlyniadau i blant sydd eisoes yn byw mewn gofal.](#)